

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgor 3, Senedd	Helen Finlayson
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Ionawr 2023	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.00	Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.00 – 09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24: sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
(09.30–11.30) (Tudalennau 1 – 111)

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Prif Swyddog
Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru

Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

Steve Elliot, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

Irfon Rees, Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant, Llywodraeth Cymru

Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth
Cymru

Briff ymchwil

Papur 1 – Llywodraeth Cymru



3 Papur(au) i'w nodi

(11.30)

- 3.1 Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch pwysau costau byw a'r Warant i Bobl Ifanc.**

(Tudalennau 112 – 113)

- 3.2 Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022.**

(Tudalennau 114 – 115)

- 3.3 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022.**

(Tudalennau 116 – 118)

- 3.4 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022.**

(Tudalennau 119 – 121)

- 3.5 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y ynghylch Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022.**

(Tudalennau 122 – 125)

- 3.6 Llythyr gan y Llywydd at yr holl Aelodau ynghylch blaenoriaethu busnes y Pwyllgor**

(Tudalennau 126 – 127)

- 3.7 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch craffu ar oblygiadau ariannol Biliau – 16 Tachwedd 2022**

(Tudalennau 128 – 130)

- 3.8 Llythyr gan y Prif Weinidog ynghylch craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 131 – 132)

- 3.9 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch craffu ar oblygiadau ariannol Biliau – 19 Rhagfyr 2022**
(Tudalennau 133 – 135)
- 3.10 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–34**
(Tudalennau 136 – 139)
- 3.11 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**
(Tudalennau 140 – 153)
- 3.12 Llythyr at y Gweinidogion sy'n gyfrifol am Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Hydref 2022**
(Tudalennau 154 – 157)
- 3.13 Llythyr gan y Gweinidogion sy'n gyfrifol am Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Hydref 2022**
(Tudalennau 158 – 173)
- 3.14 Llythyr at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y sesiwn edrych tua'r gorwel gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar 30 Tachwedd 2022 dystiolaeth ar 16 Gorffennaf 2020.**
(Tudalennau 174 – 176)
- 4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer yr holl eitemau yn y cyfarfod ar 26 Ionawr 2023 ac eithrio'r sesiwn dystiolaeth gyda Phrif Swyddog Nyrsio Cymru.**
(11.30)
- 5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: trafod y dystiolaeth**
(11.30–11.50)
- 6 Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): trafod y cyngor**
(11.50–12.05) (Tudalennau 177 – 186)

Papur 2 – Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

7 Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022.

(12.05–12.10)

(Tudalennau 187 – 191)

Papur 2 – Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

8 Ymweliad â Phrifysgol De Cymru: nodyn drafft

(12.10–12.15)

(Tudalennau 192 – 195)

Papur 4 – Ymweliad â Phrifysgol De Cymru: nodyn drafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health & Wellbeing



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Russell,

Gweler ynghlwm ein hymateb i'r materion penodol a godwyd gan Aelodau yn eich gohebiaeth 28 Hydref 2022, cyn sesiwn graffu ddrafft y Gyllideb Llywodraeth Cymru a drefnwyd ar gyfer 11 Ionawr 2023.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Eluned Morgan'.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Julie Morgan'.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Lynne Neagle'.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and
Social Services

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Social
Services

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental
Health and Wellbeing

Llywodraeth Cymru

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol 2023-24**

Dyddiad: 11 Ionawr 2023

Cynnwys

Diben	t.6
Cyflwyniad	t.6
Sylwadau ar gamau gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	t.9
1. Dadansoddiad o ddyraniadau'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Gweler Atodiad A.	t.9
2. Dyraniadau dangosol MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Gweler Atodiad A.	t.9
3. Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu yn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau. Dylai'r waelodlin at y diben hwn fod yn gyson â'r waelodlin sydd wedi'i nodi yn y tablau gwariant a naratif y gyllideb. Gweler Atodiad B.	t.9
Gwybodaeth arall	t.9
Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol	t.9
4. Rhowch fanylion ynghylch sut bydd y dyraniadau'r gyllideb drafft ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad gofal sylfaenol a rhwydweithiau gofal sylfaenol, yn cyfrannu at nod polisi Llywodraeth Cymru o symud gofal o ysbytai i leoliadau cymunedol neu ofal sylfaenol. Sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.	t.10
5. Rhowch fanylion y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan, a sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. A fydd y dyraniadau'n galluogi dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â thargedu adnoddau (a chyflawni canlyniadau mesuradwy) mewn meysydd sy'n peri pryder allweddol.	t.16
6. Amlinellwch sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ar draws portffolios a Phrif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, a sut bydd effaith y dyraniadau'n cael ei hasesu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Rhowch fanylion y canlynol hefyd:	t.20

<ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ostyngiadau neu gynnydd sy'n ymwneud â dyraniadau iechyd meddwl penodol mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol (ee, grantiau'n cael eu lleihau neu eu cynyddu, neu'n cael eu cyflwyno neu eu dileu). • Dyraniadau yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl; llesiant ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; dementia; awtistiaeth a niwroamrywiaeth; a gweithredu 'Pwysau Iach, Cymru Iach'. 	
<p>7. Sut bydd dyraniadau'r gyllideb drafft yn lliniaru effaith costau byw cynyddol ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys yr effaith ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru, gofawyr di-dâl a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.</p>	t.24
<p>Arloesi er mwyn gwella</p>	t.27
<p>8. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddatblygu 'dull gweithredu ar sail system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach. Yn benodol, eglurwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwysu'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.</p>	t.27
<p>9. Sut bydd y broses o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau'n cael cefnogaeth yn y tymor hwy er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar yr agenda trawsnewid, i sicrhau pwyslais ar gyflwyno a phrif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac i osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus. Sut bydd y Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei defnyddio a pha ganlyniadau mesuradwy y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl?</p>	t.28
<p>10. Rhowch asesiad o refferniw a chostau cyfalaf y broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal ar-lein. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion y gwariant ar elfennau digidol sydd wedi cael ei ariannu drwy'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol (RIF), a manylion cyfran y gwariant drwy'r RIF sydd wedi cael ei wario ar ddata ac elfennau digidol.</p>	t.29
<p>Y gweithlu Iechyd a gofal cymdeithasol</p>	t.32

<p>11. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac yn lleihau a rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth.</p>	t.32
<p>12. Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud yn y gyllideb ddrafft i feithrin a chynnal morâl ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl, a sut byddwch yn asesu effaith y mesurau hyn.</p>	t.34
<p>Annhegwch ac anghydraddoldebau iechyd</p>	t.36
<p>13. Amlinellwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn targedu anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u gwaethygu, neu'r rheini sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig ar iechyd neu lesiant grwpiau penodol (fel oedolion hŷn, pobl o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall yn ansicr yn ariannol).</p>	t.36
<p>Sicrhau adferiad ar ôl y pandemig</p>	t.37
<p>14. Eglurwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhowch sylw i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y tybiaethau sy'n sail i ddyraniadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys sut byddwch chi'n sicrhau bod digon o arian wrth gefn ar gael petai'r senario yn cael ei uwchraddio o un Covid Sefydlog i un Covid Brys. • Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i gynyddu capasiti gwasanaethau neu i gynyddu adnoddau staff wrth i'r ymateb i'r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen frechu. • Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. 	t.37

<ul style="list-style-type: none"> • Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnal cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol. 	
<p>15. Pa ddyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o amseroedd aros. Yn eich ateb, esboniwch pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o effaith a chanlyniadau'r adnoddau a ddyrannwyd yn ystod 2022-23, a sut bydd dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn cael eu targedu.</p>	t.40
<p>Gofal cymdeithasol</p>	t.43
<p>16. Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2023-24, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu. • Sut bydd y dyraniadau yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref. • Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr. • Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol. • Sut bydd y gyllideb ddrafft yn helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i gostau byw cynyddol, gan gynnwys costau ynni cynyddol. Yn eich ateb, rhowch dystiolaeth o wariant penodol i gefnogi gweithwyr gofal cartref, a gofalwyr di-dâl a phobl anabl, a'u teuluoedd. 	t.43
<p>Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol</p>	t.47
<p>17. Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd, gan gynnwys nodi'r rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol • Y rheini sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, a graddau'r cymorth hwnnw a'i hyd arfaethedig. 	t.48

<ul style="list-style-type: none"> • Manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru. • Gwybodaeth am ba ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud mewn ymateb i gostau ynni cynyddol. 	
Effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau a chymunedau penodol	t.50
18. Sut rydych chi wedi ystyried cyllidebu ar sail rhywedd yn y gyllideb hon wrth baratoi eich cynlluniau gwariant.	t.50
19. Amlinellwch pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar grwpiau neu gymunedau penodol, gan gynnwys menywod a merched, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, a phobl hŷn.	t.50

Diben

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Ionawr 2022, i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, fel yr amlinellir mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor dyddiedig 8 Tachwedd 2022.

Trosolwg o'r Gyllideb

	2023-24
Refeniw	£m
Gwaelodlin Refeniw yn unol â Chyllideb Derfynol 2022-23	9,793.30
Addasiadau i'r Waelodlin	(4.3)
Ailflaenoriaethu'r Gyllideb	(23.7)
Dyraniad MEG	457.80
Trosglwyddo'r gyllideb gyfredol i mewn (Grant CCG)	160.20
DEL Diwygiedig yn unol â Chyllideb Ddrafft 2023-24	10,383.30
Cyfalaf	
Gwaelodlin Cyfalaf yn unol â Chyllideb Ddrafft 2022-23	339.3
Dyraniad Ychwanegol	35.7
DEL Diwygiedig yn unol â Chyllideb Ddrafft 2023-24	375

Cyfanswm Cyffredinol Cyllideb Ddrafft yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,758.30
--	------------------

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

Sut cafodd cynigion y Gyllideb eu llunio

Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i ategu Iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chynorthwyo plant. Mae'n cefnogi ein hamcanion llesiant i ddarparu gofal Iechyd cynaliadwy, effeithiol o ansawdd uchel, ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o roi Cymru Iachach ar waith, sef ein cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae setliadau'r MEG wedi cael eu hasesu drwy'r broses pennu cyllideb gyda chytundeb y Cabinet i ddiogelu gwasanaethau craidd rheng flaen, cyn belled ag y bo modd.

Roedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn darparu ar gyfer cynnydd o £824 miliwn yng nghyllid rheolaidd y GIG, er bod y gyllideb hon wedi'i phennu ar adeg pan oedd disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant fod oddeutu pedwar y cant, a chyn i'r rhyfel yn Wcráin achosi cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni.

Gyda'r cyllid hwn, llwyddom i ddarparu cynnydd craidd o £180 miliwn i sefydliadau'r GIG ar ddechrau blwyddyn ariannol 22-23, er mwyn bodloni'r twf yn y galw a chostau craidd, ac ynghyd â'r £170 miliwn a ddyrannwyd gennym i gefnogi'r gwaith o adfer gofal wedi'i gynllunio; bydd hyn yn rheolaidd ar gyfer 23-24.

Bydd yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o'r waelodlin refeniw wedi'i haddasu o £9.789 biliwn i £10.38.8 biliwn ar gyfer 2023-24 a £10.613 biliwn ar gyfer 2024-25.

Mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ar gyfer cynnydd net yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer 'Cyflenwi

Gwasanaethau Craidd y GIG' yn 2023-24, sef £407.3 miliwn, gyda chynnydd pellach o £204 miliwn yn 2024-25.

Yn ogystal â'r cynnydd yng nghyllid y GIG a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys dyraniadau penodol ar gyfer:

- Iechyd meddwl – £75 miliwn ar gyfer 2023-24, gan godi i £90 miliwn erbyn 2024-25
- Gofal cymdeithasol – £55 miliwn, gan gynyddu i £60 miliwn erbyn 2024-25 a;
- Gofal plant a blynyddoedd cynnar – £28 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022-23, gan gynyddu i £30 miliwn yn 2023-24.

Mae cyllid refeniw rheolaidd o £170 miliwn ar gyfer adferiad y GIG yn dal ar gael ar gyfer 2023-24 a bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i'r GIG i gefnogi'r gwaith o roi cynlluniau ar waith i gryfhau gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio a helpu i leihau amseroedd aros mewn ysbytai.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn dull o adfer sy'n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion; mae £19 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn yn 2023-24. Bydd y dyraniad hwn hefyd yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau'r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r cleifion sy'n aros am driniaeth.

Mae'r buddsoddiadau hyn, gyda'i gilydd, yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi £1biliwn ar gyfer adferiad y GIG yn ystod cyfnod y Senedd hon.

Rydym wedi neilltuo cyllid yn y gyllideb hon ar gyfer ymyriadau Covid parhaus – yn benodol, profi, olrhain cysylltiadau, brechu torfol, a darparu cyfarpar diogelu personol i'r GIG ac i'r maes gofal cymdeithasol. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei leihau, yn unol â'r cynlluniau, yn 2022-23 a bydd yn cael ei adolygu wrth i ni weithio drwy heriau

parhaus Covid.

Bydd £17.8 miliwn yn fwy o gyllid i gefnogi'r cynllun comisiynu Addysg a Hyfforddiant, gan fuddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. Dyma fydd ein buddsoddiad mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer y GIG. Byddwn ni hefyd yn parhau i ddarparu £7 miliwn tuag at gyflawni ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.

Rydym hefyd yn buddsoddi dros £657m o gyfalaf cyffredinol ar gyfer Seilwaith Digidol, Cyfarpar y GIG, a Seilwaith y GIG yn ystod 2023-24 a 2024-25. Gyda buddsoddiadau cyfalaf ychwanegol o £105 miliwn ar gyfer Gofal Cymdeithasol ar draws 2023-24 a 2024-25.

Rydym hefyd yn dyrannu £10 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed (Cam Un), gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hon hefyd yn elfen allweddol o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru.

Sylwadau ar gamau gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

- 1. Dadansoddiad o ddyraniadau'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.**

Cyfeiriwch at Atodiad A.

- 2. Dyraniadau dangosol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 a 2025-26.**

Mae dyraniadau'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 wedi'u cynnwys yn nhablau'r BEL yn Atodiad A. Nid oes gennym gyllidebau dangosol ar gyfer 2025-26.

- 3. Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad**

o'r newidiadau. Dylai'r waelodlin at y diben hwn fod yn gyson â'r waelodlin sydd wedi'i nodi yn y tablau gwariant a naratif y gyllideb.

Cyfeiriwch at Atodiad B.

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, ac arwydd o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i phum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol (lle nad yw wedi'i chynnwys eisoes yn y sylwebaeth ar bob Cam Gweithredu).

Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol

- 4. Rhowch fanylion ynghylch sut bydd y dyraniadau'r gyllideb drafft ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad gofal sylfaenol a rhwydweithiau gofal sylfaenol, yn cyfrannu at nod polisi Llywodraeth Cymru o symud gofal o ysbytai i leoliadau cymunedol neu ofal sylfaenol. Sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.**

Sefydlwyd clystyrau fel mecanweithiau i gyfeirio gwaith cynllunio oddi wrth flaenoriaethau gwasanaethau unigol a thuag at anghenion unigolion a chymunedau gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ym mhob ardal glwstwr i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol at ei gilydd, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.

Mae clystyrau wrth galon y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymru lachach o wasanaeth iechyd a gofal integredig sy'n canolbwyntio ar hybu iechyd a llesiant ac sydd wedi'i ddylunio i ddarparu mynediad at y gofal iawn ar yr adeg iawn gan y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth priodol, yn y cartref neu'n agos iddo. Mae Cymru lachach yn cydnabod na ddylai

pobl fynd i ysbyty cyffredinol dosbarth oni bai mai dyma'r unig fan lle y gellir darparu'r driniaeth sydd ei angen ar yr unigolyn hwnnw.

Yn ystod 2023-24, rydym yn cyflymu gwaith clystyrau ac yn gwahaniaethu rhwng eu swyddogaethau cynllunio a chyflawni. Erbyn mis Mawrth 2024, bydd Cydweithrediadau Proffesiynol yn cael eu sefydlu ar gyfer meddygon teulu, fferyllwyr, optometryddion, deintyddion, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a nyrsys. Cynrychiolir y Cydweithrediadau hyn yn y clwstwr i sicrhau y darperir y gwasanaeth amlbroffesiwn gorau posibl. Er mwyn cryfhau'r swyddogaeth cynllunio clwstwr, mae byrddau iechyd a'u partneriaid yn yr awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau cynllunio ar draws clystyrau (PCPG) sydd, wrth iddynt wreiddio, yn gallu cyd-fynd yn well â gwaith cynllunio strategol ar lefel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB). Wrth i waith cynllunio RPB a PCPG gryfhau, dylai hyn ailgydbwysu'r system iechyd a gofal gan symud y gweithlu a buddsoddiad oddi wrth ysbytai a salwch er mwyn canolbwyntio ar iechyd a llesiant yn ein cymunedau.

Mae amrywiaeth o gamau gweithredu cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ailgydbwysu'r system iechyd a gofal i greu gwasanaeth llesiant sydd ar gael yn lleol, yn cael eu harwain drwy'r Rhaglen Ailgydbwysu Gofal, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng. O 2023-24 ymlaen, bydd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn dechrau gyrru'r gwaith o weithredu llwybrau gofal cenedlaethol sydd wedi'u llunio i symud o fodel gofal meddygol, episodig i fodel person cyfan a chymdeithasol gydol oes gyda mwy o bwyslais ar hunanofal, atal, a gwasanaethau lleol.

Er mwyn helpu i ddod â gwasanaethau lleol at ei gilydd i gydweithio drwy glystyrau a darparu gwell mynediad at y gweithwyr proffesiynol cywir, rydym yn cymryd y camau canlynol:

Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £17 miliwn mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) drwy'r cytundeb contract GMS ar gyfer 2022-23. Cyhoeddwyd y cytundeb hwn ar 28 Hydref 2022 o ganlyniad i drafodaethau teiran rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a GPC Cymru ac mae'n golygu newidiadau i gontractau a fydd yn gwella gwasanaethau i gleifion ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar feddygon teulu, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Bydd hyn yn cyflwyno'r newid mwyaf i'r contract GMS ers 2004. Yn amodol ar ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2023, bydd Contract Unedig symlach newydd yn dod i rym o 1 Hydref 2023 ymlaen. Nod y Contract Unedig yw symleiddio'r gwasanaethau y mae'n rhaid i bob practis meddygon teulu yng Nghymru eu darparu. Disgwyliwn i hyn ddileu biwrocratiaeth ddiangen i feddygon teulu a'u timau, yn ogystal â'i gwneud yn gliriach i ddinasyddion pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael gan feddygon teulu yn unrhyw le yng Nghymru.

Rydym yn parhau i gymryd camau i wella mynediad at GMS. Yn 2019, fe wnaeth ein Safonau Mynediad ein rhoi ar y trywydd i wella a sicrhau cysondeb ledled Cymru. Mae'r llwyddiant wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall dros y tair blynedd diwethaf, gydag 89 y cant o bractisau bellach yn cyflawni'r holl safonau. Rydym wedi parhau i adeiladu ar y dull gweithredu hwn: ym mis Ebrill 2022 fe wnaethom gyflwyno newidiadau i'r contract meddygon teulu i wella mynediad at apwyntiadau ac i ddatrys y problemau sy'n ymwneud â'r cyfnodau prysur iawn am 8am. Bydd y cytundeb cyswllt ar gyfer 2022-23 yn cadarnhau ein disgwyliadau o ran mynediad ymhellach, wrth i arferion symud o ddangos eu bod wedi cyflawni'r Safonau Mynediad, i gael eu gorfodi o dan contract i'w cynnal o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu gofal sylfaenol i gryfhau a gwella capasiti o fewn y gwasanaeth. Yn 2021 fe wnaethom ddarparu £2 miliwn o gyllid ychwanegol i gefnogi capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau meddygol cyffredinol dros gyfnod heriol y gaeaf. Cafodd hyn ei gynyddu i £4 miliwn o 1 Ebrill 2022 ymlaen ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf. Er mwyn diwallu anghenion iechyd cymhleth pobl yng Nghymru, mae angen amrywiaeth eang o rolau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws gofal sylfaenol. Mae hyn yn galluogi pobl i weld y person addas ar gyfer eu hanghenion, ac mae'n bwysig nodi nad meddyg teulu yw hwn bob amser.

Fferyllfa Gymunedol

Mae buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud drwy'r Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol i ddarparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Clinigol a'r Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferylliaeth Gymunedol ledled Cymru, gan gefnogi pobl i gael mynediad at gyngor a thriniaeth am ddim yn y gymuned, yn aml heb fod angen aros am apwyntiad.

Canolfannau Iechyd a Gofal Integredig

Bydd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu hybiau a chanolfannau iechyd a gofal cymunedol yn rhoi cyfle i gefnogi darpariaeth gwasanaethau di-dor drwy greu pwyntiau mynediad unigol lleol a chydleoli staff a gwasanaethau sy'n darparu llwybrau gofal integredig.

Bydd y prosiectau'n cyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru a Cymru Iachach: Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019), wrth ddarparu dull system gyfan sy'n dangos integreiddiad gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi hwyluso prosesau cydweithio ac ymgynghori er mwyn dod i gonsensws ynghylch y math o ddarpariaeth gofal sylfaenol sydd, ym marn cleifion a staff, yn rhoi'r gefnogaeth orau i bobl, yn rhoi mynediad hawdd at wasanaethau lleol ar gyfer gofal ac yn sicrhau bod atebion technolegol yn gwella mynediad at hunanofal.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar swyddogaethau hyblyg a chynllun addasadwy sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau sy'n newid. Mae adborth o weithgareddau ymgysylltu wedi tynnu sylw at yr egwyddorion allweddol canlynol sy'n elfennau pwysig o ddatblygiad yr ystad gofal sylfaenol yng Nghymru yn y dyfodol:

- Pwysigrwydd sefydlu cyfleusterau newydd fel ffocws i'r gymuned ehangach.
- Yr angen i symud oddi wrth fodelau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol pur un partner, gan ffafrio gwasanaethau amlddisgyblaethol mwy cynaliadwy a chydweithredol sydd wedi'u cyd-leoli.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o'r ystad gyhoeddus ehangach (ee llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol).
- Cydnabod y gallai gwahanu llwybrau gofal sylfaenol a chymunedol brys / heb eu trefnu fod angen cyfleusterau gwahanol.
- Dim dull sy'n defnyddio cynllun 'un ateb i bawb' – rhaid i'r strategaeth fod yn hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion lleol.
- Mae'n hanfodol bwysig sicrhau tegwch i bob claf o ran mynediad, y gwasanaeth a gynigir a'r amgylchedd.

Gofal a Chymorth Adsefydlu

Mae pobl hŷn sydd hefyd yn eiddil yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn annisgwyl ac

maent yn fwy agored i heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, deliriwm ac anawsterau o ran cynnal maeth, hydradiad a gofal croen da. O ganlyniad, mae pobl hŷn eiddil fel arfer yn aros yn hirach, mae eu cyfraddau marwolaeth ac aildderbyn yn uwch, ac maent yn fwy tebygol o gael eu rhyddhau i ofal preswyl ([meddyliwch am eiddilwch, NHS Improvement Scotland](#))).

Bydd llwybrau eiddilwch, sy'n seiliedig ar asesiad uniongyrchol o eiddilwch a mynediad at dimau amlbroffesiwn (sy'n cynnwys geriatregwyr, nyrsys pobl hŷn, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion o leiaf) yn arwain at wella'n gyflym.

Dim ond os lleolir therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion ychwanegol i hwyluso'r broses o adsefydlu a rhyddhau cleifion ac os defnyddir yr egwyddor o beidio ag atgyfeirio cleifion i gartref gofal o wely aciwt (D2RA) y bydd wardiau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu hailddynodi fel gwelyau gofal mwy dwys neu ofal llai dwys (yn yr un modd ag y gwnawn gyda'r gwaith capasiti cymunedol o ddarparu gofal llai dwys er mwyn gwella).

Er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty'n gyfan gwbl, mae ysbyty yn y cartref (ee wardiau rhithwir neu a arweinir gan feddygon teulu); troi o amgylch yn y drws ffrynt (Cadw'n lach Gartref) a Thimau Adnoddau Cymunedol sy'n darparu gofal 'mwy dwys' yn ogystal â gofal 'llai dwys' yn adnoddau hollbwysig.

Y broblem ar hyn o bryd yw bod gormod o fyrddau iechyd yn cadw eu hadnoddau therapi galwedigaethol a ffisiotherapi ar wardiau meddygol, llawfeddygol neu orthopedig heb lwybr eiddilwch ac nad ydynt yn manteisio i'r eithaf ar wasanaethau adsefydlu ac osgoi derbyn. Mae hyn yn atal gweithredu effeithiol i leihau hyd yr arhosiad a'r llif.

Mae'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gan gynnwys mwy o fynediad, cyfran fwy o'r gweithlu mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, a'r cynnydd mewn adsefydlu cymunedol.

Mae'r Arweinydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn aelod o dîm y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac mae'n arwain gwaith i ddatblygu cydweithio proffesiynol ymysg y Proffesiynau Perthynol i Iechyd fel rhan o'r seilwaith Cymunedol a'r Rhaglen Datblygu Clystyrau Carlam. Mae'n gweithio gyda grŵp arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd cenedlaethol ym maes Gofal Sylfaenol i gytuno ar y ffordd orau o gefnogi Grwpiau

Cynllunio ar draws Clystyrau er mwyn comisiynu gwasanaethau amlbroffesiwn ar gyfer poblogaethau penodol.

Mae angen 'sbardun' i symud adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd i mewn i'r gwasanaethau hyn. Yn ddefnyddol, byddai hyn yn golygu datganiad neu ofyniad i wneud hyn naill ai fel rhan o'r Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol neu'r rhaglen Chwe Nod, a ddylai fod wedi'u hategu gan gyllid os oes modd. Yn 2021/22, nodwyd £5 miliwn i gynyddu mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i ieuchyd mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol. Dylai hyn fod yn rheolaidd o fis Ebrill 2022 ymlaen er mwyn sicrhau bod Proffesiynau Perthynol i lechyd yn cael eu trawsnewid o ddarpariaeth yn yr ysbyty i wasanaethau sylfaenol a chymunedol y gellir cael mynediad uniongyrchol iddynt, sy'n 'tynnu' pobl allan o'r ysbyty yn ôl adref ar sail llwybrau D2RA, yn ogystal ag atal derbyniadau drwy ddarparu dewisiadau yn y gymuned yn hytrach na derbyn pobl i'r ysbyty. Bydd gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd integredig yn y gymuned yn cyflawni nodau cyffredin pob un o'r rhaglenni Cenedlaethol. Heb fuddsoddiad, bydd yn anodd dechrau'r newid sy'n ofynnol o ran gwaith y Proffesiynau Perthynol i lechyd a thrwy hynny gefnogi'r gweithlu i gyflawni Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad at weithwyr ieuchyd proffesiynol.

Deintyddiaeth

Mae cyllid o £167.7 miliwn yn cael ei ddyrannu i fyrddau ieuchyd ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol y GIG bob blwyddyn. Ategir hyn gan y Refeniw Codi Tâl ar Gleifion sy'n rhoi cyllideb â chyfanswm o ychydig dan £202 miliwn. Mae'r gyllideb ddeintyddol wedi cael ei chynyddu yn unol ag argymhelliad y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion ar gyfer 2022-23, heb gynnig unrhyw ostyngiad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar raglen ddiwygio ym maes deintyddiaeth sy'n ceisio symud o system sy'n seiliedig ar gyflawni Unedau o Weithgarwch Deintyddol i system sy'n gallu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar risgiau ac anghenion cleifion ond sy'n seiliedig ar atal. Bydd y dull hwn yn gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau.

Ers mis Ebrill 2022 mae practisau deintyddol wedi cael cyfle i optio i mewn i amrywiad contract sy'n disodli'r hen fesur Unedau Gweithgarwch Deintyddol â metrigau maint. Gyda 90 y cant o'r cyllid deintyddol dan gontract bellach yn gweithio

dan drefniadau diwygiedig, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gwreiddio'r dull gweithredu hwn.

Mae baich cysylltiedig â chlefydau'r geg yn dal yn uchel ymysg y boblogaeth, er eu bod at ei gilydd yn anhrosglwyddadwy ac yn gallu cael eu hatal. Prif glefydau'r geg yw pydredd dannedd (caries) a chlefyd y deintgig (periodontitis). Gellir atal clefydau iechyd y geg drwy gyfuniad o addasu deiet (lleihau lefel y siwgr, alcohol a thybaco a ddefnyddir), brwsio dannedd yn rheolaidd gyda phast dannedd sy'n cynnwys fflworid, a chanllawiau gan weithwyr proffesiynol deintyddol, gan gynnwys defnyddio farnais fflworid yn ychwanegol.

O ran atal yn benodol, mae pump y cant o werth y contract ar gyfer pob practis sy'n rhan o'r broses diwygio contractau yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni metrig maint sy'n gysylltiedig â darparu farnais fflworid i gleifion y byddai o fudd iddynt.

O ran mesur canlyniadau, mae diwygio deintyddol yn cyflwyno'r defnydd o'r offeryn Asesu Risg ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) sy'n categoreiddio cleifion fel rhai Coch, Oren a Gwyrdd ar gyfer hanes periodontol, cymdeithasol a phydredd yn y dannedd. Bydd y data a gynhyrchir drwy ddefnyddio'r adnodd hwn yn rhoi gwell darlun o iechyd y geg ymysg y boblogaeth ac yn ein galluogi i olrhain gwelliannau ar lefel leol a chenedlaethol.

Y Cynllun Gwên

Mae'r Cynllun Gwên (D2S) yn gynllun cenedlaethol, sy'n dilyn egwyddorion iechyd y cyhoedd o gyffredinoliaeth gymesurⁱ. Mae'n seiliedig ar ddarparu dulliau a argymhellir yng nghanllawiau NICEⁱⁱ. Mae cyllid ar gyfer D2S wedi'i gynnwys yn nyraniadau cyffredinol y byrddau iechyd, gyda chyfanswm o ychydig o dan £4 miliwn y flwyddyn. Nid yw hyn wedi newid ers 2023-24.

Mae D2S yn cynnwys rhaglen ataliol gyffredinol ar gyfer plant o'u genedigaeth, wedi'i hintegreiddio yn Rhaglen Plant Iach Cymru a rhaglen ataliol wedi'i thargedu ar gyfer plant ysgolion meithrin a chynradd, sy'n cynnwys darparu rhaglenni brwsio dannedd a farnais fflworid ar gyfer plant i helpu i amddiffyn dannedd rhag pydredd.

Y nodau yw dechrau arferion da yn gynnwys drwy roi cyngor i deuluoedd sydd â phlant ifanc ac annog mynd i bractis deintyddol yn rheolaidd. Mae'r elfen hon o D2S yn cydyfynd â rhaglen Plant Iach Cymru a'i dull o ddarparu cymorth cyffredinol a gwell. Darperir pecynnau brwsio dannedd gartref a chwpanau bwydo i blant sydd angen

lefel uwch o gymorth. Anogir pob ysgol gynradd yng Nghymru i gymryd rhan yn Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, ac o fewn hynny, ymgorffori arferion da ar gyfer ymddygiad iach fel rhan o ddull gweithredu 'ysgol gyfan'. Mae hyn yn cynnwys bwyta'n iach ar gyfer iechyd y geg a hylendid y geg, a pholisïau ar ddarpariaeth bwyd a diod yn y lleoliad. Mae D2S yn gweithio'n agos gyda Chydgysylltwyr Ysgolion Iach a'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes. Mae adnoddau addysgu D2S ar gael i bawb ar Hwb (<https://hwb.gov.wales/>) er mwyn helpu gweithwyr addysg proffesiynol sy'n darparu addysg ar iechyd y geg ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd y geg.

Mae D2S yn darparu rhaglen ataliol wedi'i thargedu ar gyfer plant ysgolion meithrin a chynradd sy'n cynnwys darparu rhaglenni brwsio dannedd mewn ysgolion a rhaglenni farnais fflworid ar gyfer plant er mwyn helpu i amddiffyn dannedd rhag pydredd. Darperir pecynnau brwsio dannedd yn y cartref hefyd i annog arferion da yn y cartref. Mae'r agweddau hyn ar D2S wedi'u targedu at ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru, gydag oddeutu 70 y cant o feithrinfeydd ac ysgolion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Mae plant hyd at oedran Blwyddyn Dau (plant rhwng chwech a saith oed) wedi'u cynnwys. Hefyd, gwahoddir pob meithrinfa sydd â statws Dechrau'n Deg, a phob ysgol sydd â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, i gymryd rhan.

Yn bennaf, mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn o adfer ar ôl y pandemig, ond rydym yn hyderus y bydd y rhaglen hon yn cael ei hailsefydlu'n llwyr yn 2023-24.

5. Rhowch fanylion y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan, a sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. A fydd y dyraniadau'n galluogi dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â thargedu adnoddau (a chyflawni canlyniadau mesuradwy) mewn meysydd sy'n peri pryder allweddol.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gymryd camau sylweddol i newid yr agwedd o drin i atal ac ymyrryd yn fuan. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y weledigaeth rydym wedi'i sefydlu yn Cymru Iachach, lle rydym yn canolbwyntio'n gadarn ar atal ac ymyrryd yn fuan er mwyn helpu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes.

Mae'r camau gweithredu presennol i fynd i'r afael ag atal ac ymyrryd yn fuan wedi'u gwreiddio ar draws ystod eang o weithgareddau. Mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru gyfrifoldeb craidd dros iechyd a llesiant eu poblogaethau, a bydd llawer o'u gwaith atal yn cael ei ariannu drwy eu dyraniadau craidd. Mae hyn yn cynnwys gwaith maent yn ei wneud mewn partneriaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Un o ddibenion craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw lleihau anghydraddoldebau, cynyddu disgwyliad oes iach a gwella iechyd a llesiant pawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae eu cyllid craidd drwy'r gyllideb hon ar gyfer 2023/24 yn £134 miliwn.

Oherwydd y gwaith cynllunio strategol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi sy'n cael ei gefnogi gan broses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA), yn aml iawn nid yw'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu'n benodol i fynd i'r afael ag atal yn gallu cael ei gwahanu oddi wrth gyfanswm gwariant y llywodraeth. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau penodol yn bodoli, gan gynnwys cyllid Atal a Blynnyddoedd Cynnar gwerth £7.2 miliwn y flwyddyn, a ddyrennir i Fyrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu fel cyllid sbarduno i gefnogi gweithgarwch atal. Ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25, mae gweinidogion wedi gorchymyn bod y rhai sy'n derbyn y cyllid yn defnyddio'r rhan fwyaf ohono i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag ysmegu yn ystod beichiogrwydd, i sefydlu gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmegu yn yr Ysbyty, ac i ddarparu cymorth ar gyfer atal sy'n cyd-fynd â'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae ein strwythurau llywodraethu, ein gwaith trawslywodraethol a'n cydweithrediad â Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ein galluogi i fabwysiadu dull system gyfan, ac ymgorffori prosesau gwerthuso mewn prosiectau.

Mae datblygu dull systemau cyfan ar gyfer atal a lleihau nifer y bobl sydd dros bwysau ac yn ordew yn rhan annatod o'r cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2022-24. Mae swyddogion yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau Iechyd y cyhoedd lleol i adeiladu ar rôl saith cydlynedd rhanbarthol a'r ystod eang o weithwyr Iechyd proffesiynol sy'n rhan annatod o'r system i newid ein harferion bwyta a gweithgarwch, ac i ystyried sut mae pob rhan o'r system yn chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â'r newid hwn. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ddyraniad o £1.2 miliwn drwy gyllideb y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

Ochr yn ochr â hyn, mae cyllid wedi'i dargedu at raglenni atal ac ymyrryd yn fuan penodol, gan gynnwys £600,000 i gefnogi cynllun peilot Plant a Theuluoedd, sy'n cael ei dreialu ym Merthyr Tudful, Caerdydd ac Ynys Môn; ac £1 miliwn i ddatblygu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, sy'n cael ei chyflwyno ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae prosesau gwerthuso wedi'u cynnwys yn y rhaglenni hyn, gyda byrddau rhaglenni penodol wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro llwyddiant. Ar gyfer pob rhaglen o fewn Pwysau Iach: Cymru Iach, mae'r gwaith o gyflwyno'r llwybr rheoli pwysau diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan wedi dechrau ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae lefel un y llwybr yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan ac mae byrddau iechyd wedi cael cymorth i ddatblygu eu cynlluniau cyflawni i gefnogi poblogaethau lleol. Mae cynnig digidol lefel un cenedlaethol ar gyfer rheoli wedi cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach, ac mae swyddogion yn monitro llwyddiant drwy drafodaethau a monitro rheolaidd yn yr is-grŵp Gwerthuso, Ymchwil a Chanlyniadau wrth i eitemau penodol ar yr agenda godi.

Rydym hefyd yn canolbwyntio'n sylweddol ar wella'r gwaith o reoli cyflyrau cronig er mwyn lleihau cynnydd clefydau a'r risg o ddatblygu cymhlethdodau eilaidd. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi mewn cyfres o ddatganiadau ansawdd ar gyfer gwasanaethau clinigol mawr, fel clefyd y galon, strôc, clefyd anadlol, clefyd yr arennau a chyflyrau niwrolegol. Mae'r datganiadau hyn yn nodi sut beth ddylai gwasanaethau clinigol da fod er mwyn helpu'r GIG yng Nghymru i gynllunio gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnwys llwybrau clinigol a chanllawiau rheoli clinigol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i helpu gwasanaethau'r GIG i ganolbwyntio ar reoli cyflyrau cronig yn rhagorol. Mae gennym dimau arweinyddiaeth glinigol ar waith ym meysydd y cyflyrau hyn, sy'n gweithio gyda gwasanaethau i gasglu data a gwella'r ddarpariaeth graidd. Er enghraifft, mae ansawdd y gwaith arferol o reoli clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac asthma yn cael ei fonitro drwy'r Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD. Mae'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer meddygaeth anadlol yn gweithio gyda byrddau iechyd yng Nghymru i ymateb i'r canfyddiadau hyn a datblygu offer cefnogol a all helpu i annog ymyriadau gofal iechyd mwy cyson ac o ansawdd uchel. Caiff hyn ei gefnogi gan grwpiau cleifion, adsefydlu ysgyfeiniol a darparu apiau hunanreoli a all helpu pobl i ddod yn arbenigwyr ar reoli eu cyflwr.

Rydym hefyd yn datblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Diabetes a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau prosesau gofal allweddol, mynediad at addysg strwythuredig, cyflawni targedau triniaethau a chyflwyno gwasanaeth gwellhad ar gyfer pobl â diabetes math 2. Bydd hyn yn adeiladu ar y Prosiect Gwella Diabetes ar gyfer 150 o gleifion ledled Cymru i hwyluso'r broses o golli pwysau ac arwain at wellhad a/neu atchweliad diabetes. Bydd yn galluogi deietegwyr ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd i ddarparu cymorth dwys i 150 o gleifion dros gyfnod o 12 mis a 100 y cant o gyllid ar gyfer y cynnyrch cyfnewid prydau. Mae treialon clinigol wedi dangos bod rheoli pwysau yn ymyriad effeithiol i'r rheini sydd â symptomau cyn-diabetes er mwyn atal hynny rhag datblygu i fod yn ddiabetes, ac i wella diabetes math 2. Mae'r ymyriad yn cynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau gwrth-ddiabetig a gwrth-orbwysedd, fformiwla i ddisodli deiet yn gyfan gwbl, sef 825-853 o galoriau bob dydd am dri i bum mis, wedi'i ddilyn gan broses o ailgyflwyno bwyd fesul cam dros ddwy i wyth wythnos, a chymorth strwythuredig ar gyfer cynnal arferion colli pwysau yn y tymor hir. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael cymorth diabetig dwys dros gyfnod o 12 mis, sy'n cynnwys therapi ymddygiad gwybyddol.

Pwysigrwydd Brechu – fel mesur iechyd ataliol

Mae brechu'n rhan hanfodol o ddarpariaeth GIG Cymru i amddiffyn ein dinasyddion a'n cymunedau ac mae ganddo rôl bwysig o ran atal clefydau difrifol ac ymateb iddynt. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu'n atal hyd at dair miliwn o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn. Mae brechiadau'n cael effaith ataliol gadarnhaol ar glefydau difrifol – gan leihau nifer y bobl sydd angen gofal iechyd ac arbed pobl rhag niwed sy'n gallu cael effeithiau gydol oes – a marwolaethau ymysg ein poblogaeth.

Mae sicrhau ein bod i gyd yn cael ein himiwneiddio rhag clefydau yn bwysig er mwyn rheoli ein hiechyd personol ac i atal epidemigau a lefelau difrifol o salwch a allai lethu'r GIG. Mae elfen gref o werth am arian yn perthyn i frechu hefyd, fel mecanwaith atal iechyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er enghraifft, fod enillion ariannol ar fuddsoddiad rhaglen MMR y DU yn tua 14:1.

Drwy'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig ac yn rhoi sail i benderfyniadau ynghylch cyflwyno pob rhaglen frechu. Drwy wneud brechu'n fwy

hygyrch a derbyniol, ein nod yw sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu brechu a sicrhau cydraddoldeb. Elfen greiddiol o'r nod hwn yw gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf i wella iechyd a llesiant ac amddiffyn rhag niwed y gellir ei atal ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Rydym nawr yn rhoi'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ar waith a bydd gan Weithrediaeth y GIG ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth yn y dyfodol. Mae angen dull system gyfan i feithrin diwylliant o wella. Yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, mae'n hanfodol hyrwyddo ymdrechion systematig i leihau amrywiadau amhriodol, drwy ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Mae effeithlonrwydd gwasanaethau hefyd yn elfen bwysig o'r Fframwaith newydd a'n hagwedd at frechu. Rydym wedi gweld hyn yn sgil rhoi pigiad atgyfnerthu COVID-19 yr hydref a'r brechiad rhag y fflw gyda'i gilydd y gaeaf hwn. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel hyn ar draws ein rhaglenni brechu.

Bydd atebolrwydd byrddau iechyd yn aros yr un fath, gyda byrddau'n asesu angen lleol, comisiynu, rheoli perfformiad a gwerthuso'r ddarpariaeth yn unol â'r cyfeiriad strategol cenedlaethol. Ein bwriad yw cefnogi'r broses honno, galluogi gwelliannau a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu ar draws yr holl raglenni imiwneiddio.

6. Amlinellwch sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ar draws portffolios a Phrif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, a sut bydd effaith y dyraniadau'n cael ei hasesu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

Rhowch fanylion y canlynol hefyd:

- **Unrhyw ostyngiadau neu gynnydd sy'n ymwneud â dyraniadau iechyd meddwl penodol mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol (ee, grantiau'n cael eu lleihau neu eu cynyddu, neu'n cael eu cyflwyno neu eu dileu).**
- **Dyraniadau yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl; llesiant ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; dementia; awtistiaeth a niwroamrywiaeth; a gweithredu 'Pwysau Iach, Cymru Iach'.**

Iechyd Meddwl

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu llesiant ac iechyd meddwl, a ddangosir gan y ffaith ein bod, er gwaethaf pwysau parhaus ar y gyllideb, wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu agweddau'r gyllideb ar lesiant ac iechyd meddwl.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithredu cynllun y gweithlu iechyd meddwl, sy'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae datblygu'r cynllun hirdymor hwn ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl yn gam allweddol yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl tuag at gefnogi gwelliannau i wasanaethau a sicrhau gweithlu iechyd meddwl sefydlog a chynaliadwy.

Yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2023-2026, mae iechyd meddwl a CAMHS wedi cael eu diffinio fel un o'r blaenoriaethau gweinidogol a bydd hyn yn ein galluogi ni i asesu effaith dyraniadau.

Roedd gwaith modelu a wnaed i lywio'r gwaith paratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn awgrymu cynnydd posibl o rhwng 20 a 40 y cant mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol a rhwng 20 a 25 y cant mewn gwasanaethau eilaidd (ar sail data cyhoeddedig a meincodi'r GIG). Roedd y dystiolaeth hon yn caniatáu i ni sicrhau adnoddau ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gyda £50 miliwn yn 2022-23, £75 miliwn yn 2023-24 a chynnydd i £90 miliwn yn 2024-25.

Yn 2022-23 mae'r £50 miliwn wedi cynnwys tua £25 miliwn i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn uniongyrchol, gyda gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi meysydd allweddol sy'n effeithio ar iechyd meddwl, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, cyflogadwyedd ac atal. Mae hyn wedi'n galluogi ni i sicrhau ein bod yn cefnogi'r gwaith o adfer gwasanaethau yn ogystal â chadw hyblygrwydd i gefnogi'r datblygiadau gwasanaeth a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Llesiant Meddyliol

Mae gwella llesiant meddyliol Cymru wrth galon popeth a wnawn, diolch i'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol arloesol ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, Cymunedau Cysylltiedig, a'n strategaeth iechyd meddwl, Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Nod ein carreg filltir genedlaethol newydd yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. I gyflawni hyn, byddwn yn nodi ac yn deall ymyriadau sy'n helpu pobl i deimlo'n gydnerth ac yn rhan o gymuned, ac yn edrych ar dystiolaeth i gefnogi'r ymyriadau hyn ac ymyriadau eraill. Byddwn yn cydnabod yr hyn sy'n digwydd eisoes ledled Cymru ac yn pennu lle mae bylchau, a byddwn yn dod â hyn i gyd ynghyd â chamau gweithredu pendant yn adran llesiant meddyliol y strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer Cymru.

Camddefnyddio Sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau yn fater iechyd o bwys sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, a'r stigma sy'n gysylltiedig â hynny, yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn buddsoddi bron i £64 miliwn yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau, ac mae dros £36 miliwn yn mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau. Cynyddodd y dyraniadau hyn £11 miliwn, o £25 miliwn i £36 miliwn, yn 2022-23 fel rhan o'r Gyllideb.

Mae hyn yn cynnwys:

- £3 miliwn i gefnogi Therapi Disodli Opioidau amgen parhaus (Buprenorphine) ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sydd mewn perygl.
- £4 miliwn i helpu i fynd i'r afael ag amseroedd aros, gweithredu argymhellion yn y Fframwaith Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol a chefnogi gwelliannau i wasanaethau gan gynnwys datblygu gwasanaethau sy'n wybodus am drawma.
- Cynnydd o £1 miliwn yn y dyraniad adsefydlu preswyl sydd wedi'i glustnodi i gefnogi'r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn ers dechrau'r pandemig.
- Cynnydd o £1 miliwn yn y dyraniad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc, i £3.75 miliwn. Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r swm hwn i £5.25 miliwn a £6.25 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno.
- £2 miliwn i gefnogi gwasanaethau i bobl ag anghenion tai ac anghenion cymhleth, gan gynnwys achosion o gamddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Rydym yn gwybod bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd â'r anghenion a'r gwendidau mwyaf

cymhleth. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cynyddu dros y ddwy flynedd nesaf i gyfanswm o £4.5 miliwn yn 2024-25.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried olynydd i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau presennol 2019-22, a fydd yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn i ddod. Mae'r ymgysylltu cynnar ar hyn eisoed wedi dechrau gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygu Fframwaith Canlyniadau Camddefnyddio Sylweddau i sicrhau ein bod yn mesur yr effaith ar y canlyniadau a fwriedir.

Gwasanaethau niwrolegol

Rydym yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol. Ar 6 Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi £12 miliwn ychwanegol dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025; mae £4.5 miliwn ar gael yn 2023-24 i gyflawni rhaglen wella gan ddefnyddio dull systemau cyfan sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd, a gwasanaethau asesu a chefnogi cynaliadwy. Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig llwyddiannus a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau gwella.

Pwysau iach: Cymru iach

Mae cyflawniad Pwysau Iach: Cymru Iach yn cael ei gefnogi yn 2022-24 gan ddyraniad o £6.6 miliwn y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu cefnogi i gyflawni a chynnal pwysau iach drwy amrywiaeth o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi cael eu datblygu gyda gwerthusiadau'n rhan ohonynt i fonitro llwyddiant.

Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Mae Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrrwyr SHRN, sy'n digwydd bob dwy flynedd, yn darparu data o ansawdd uchel ar iechyd a llesiant pobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru. Cymerodd dros 120,000 o fyfyrwyr ran yn yr arolwg yn 2021/22. Mae astudiaeth ddichonoldeb hefyd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd ynghylch ymestyn SHRN a'r arolwg cysylltiedig i'r sector ysgolion cynradd.

Cyllideb

Yn gynharach eleni, cytunodd y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a ddarparu'r canlynol ar y cyd:

- £433,019 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 a £257,210 ym mlwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer gwaith ar Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrrwyr SHRN mewn ysgolion uwchradd.
- £438,982 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 a £455,370 ym mlwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer cwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar ymestyn SHRN a'r Arolwg cysylltiedig ar Iechyd a Llesiant Myfyrrwyr i ysgolion cynradd.
- Mae'r gyllideb wedi'i rhannu rhwng BEL 0231 Gwella Iechyd a Gweithio Iach a'r rhaglen Dull Ysgol Gyfan yn BEL 0270 Iechyd Meddwl.

Gwerth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

Mae'r data o ansawdd uchel a gesglir yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd:

- i fonitro amrywiaeth o ddangosyddion iechyd a llesiant (ee llesiant meddyliol, ffyrdd iach o fyw) a ddefnyddir nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond gan ysgolion, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid fel Estyn, yn ogystal ag ar gyfer cymariaethau rhyngwladol.
- i ysgolion gynllunio a monitro eu polisiau a'u gweithgareddau iechyd a llesiant eu hunain; mae'n arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru.
- i gyfrannu at werthuso blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol.

Mae seilwaith data yn hwyluso astudiaethau cysylltiadau data ac yn helpu i ddenu cyllid ymchwil i Gymru (ee roedd gan gais Wolfson thema wedi'i chynllunio o amgylch SHRN). Mae buddsoddiad wedi caniatáu i ni ehangu cyrhaeddiad yr astudiaeth, gyda maint y sampl mawr yn caniatáu dadansoddiad pellach o nodweddion gwarchoddedig, rhywbeth nad yw'n bosibl gyda llawer o setiau data presennol o'r math hwn. Mae'r gallu i ymestyn y gwaith hwn i'r sector ysgolion cynradd yn helpu i fynd i'r afael â bwloch tystiolaeth hirsefydlog. Ystyrir bod gweithio ar draws meysydd polisi mewn ffordd gydgysylltiedig yn arbennig o bwysig, o ystyried y rôl bwysig y mae ysgol yn ei chwarae yn iechyd a llesiant pobl ifanc.

Presgripsiynu Cymdeithasol

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu a chyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol sy'n cyflawni gweledigaeth o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru sydd o safon uchel, gyson ar draws y wlad. Mae chwarter miliwn o bunnoedd wedi'i ymrwmo ar gyfer 2023-24 a 2024-25 er mwyn helpu i gyflawni

rhaglen waith sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

7. Sut bydd dyraniadau'r gyllideb drafft yn lliniaru effaith costau byw cynyddol ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys yr effaith ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar iechyd a llesiant y boblogaeth, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw hwn drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r rheini sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn werth tua £1.6bn ar draws holl gyllideb Llywodraeth Cymru.

Bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn parhau i gynnig cymorth i'r rhai mwyaf anghenus, drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau gros y llywodraeth. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gynnig talebau Cychwyn Iach i ddarparu cymorth ychwanegol i brynu ffrwythau a llysiau iach yn ystod beichiogrwydd ac i rieni plant ifanc. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ein dull system gyfan o wella llesiant meddyliol mewn ysgolion a darparu mynediad rhwydd at gymorth iechyd meddwl, er enghraifft ein llinell gymorth CALL a therapi ar-lein.

Mae'r Cabinet wedi cytuno yn y gyllideb ddrafft i'r cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol aros ar y lefelau presennol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf (£38.5 miliwn), gan ddarparu £18.8 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y gyllideb sylfaenol. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn edrych ar opsiynau polisi o ran yr hyblygrwydd presennol a gweithrediad y contract newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2023, a bydd yn gwneud cyhoeddiad pan fydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau. Mae partneriaid yn dweud bod y gronfa hon yn hanfodol, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw. Ers mis Ebrill 2022 mae wedi darparu bron i £20 miliwn o gymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, gan gynnwys cymorth ar gyfer taliadau tanwydd oddi ar y grid.

Bydd ymdrechion ar y cyd i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl yn parhau, drwy raglenni fel y cynnig gofal plant am ddim, prydau ysgol am ddim i bawb yn ogystal â chynnal y cymorth presennol, fel presgripsiynau am ddim.

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae bod yn ddi-waith yn gallu ei chael ar lesiant y gweithlu, a bydd ein cyllideb ddrafft yn ein galluogi i ddarparu Cymorth yn y Gwaith parhaus tan fis Mawrth 2025, sy'n adeiladu ar y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith presennol a ariennir gan Ewrop er mwyn ehangu'r cymorth a ddaw o'i ddarpariaeth bresennol yng Ngogledd a De-orllewin Cymru i Gymru gyfan o fis Ebrill 2023 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl sy'n absennol o'r gwaith, neu sydd mewn perygl o fod yn absennol oherwydd eu salwch corfforol neu feddyliol, i gael cymorth iechyd galwedigaethol am ddim i aros mewn gwaith.

Rydym hefyd yn darparu cymorth cyflogadwyedd parhaus i bobl sy'n gwella o salwch meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau ac sy'n ddi-waith. Mae'r cymorth mentora cyfoedion hwn yn cael ei ddarparu tan fis Mawrth 2025 a bydd yn helpu'r bobl sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ac sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael gwaith cynaliadwy, yn codi incwm aelwydydd ac yn darparu llwybr allan o dlodi gan ddod â sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer parhad ein Cronfa Gymorth i Ofalwyr lwyddiannus. Sefydlwyd y gronfa yn 2020, a'i nod yw lliniaru effaith ariannol y costau byw cynyddol ar ofalwyr di-dâl drwy grantiau uniongyrchol a datblygu gwasanaethau cymorth lleol. Mae'r gronfa wedi llwyddo i leihau caledi ariannol ar unwaith, gan gysylltu mwy o ofalwyr di-dâl â chefnogaeth barhaus. Ers ei lansio, mae wedi bod o fudd i dros 10,000 o ofalwyr di-dâl. Yn 2021-22, nid oedd gwasanaethau'n hysbys i 33 y cant o'r buddiolwyr o'r blaen. Mewn rhai ardaloedd roedd y ffigur hwn mor uchel â 70 y cant. Felly, drwy'r cynllun hwn, mae mwy o ofalwyr di-dâl yn cael cymorth ataliol i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn ein rhaglen lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Bydd sicrhau gwell cyflog drwy godi'r Cyflog Byw Gwirioneddol sydd yn ein cyllideb ddrafft yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, yn cefnogi'r argyfwng costau byw ac

yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a bywoliaeth pobl, a dyma'r gwahaniaeth sy'n sicrhau bod gwaith yn talu a bod modd talu costau byw.

Bydd lefel brys yr argyfwng recriwtio a chadw yn y sector gofal cymdeithasol hefyd yn cael effaith fawr ar flaenoriaethau allweddol eraill ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi gweledigaeth Cymru Iachach, sef y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau iachach a hapusach, a gallu aros yn egniol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Bydd codi'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch colli gweithwyr o'r sector a bydd yn cefnogi'r agenda ehangach o ran y baich cynyddol ar ofalwyr di-dâl, mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, llai o dderbyniadau i'r ysbyty, gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu cael gofal gartref a'r pwysau cynyddol ar gartrefi gofal.

Arloesi er mwyn gwella

8. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddatblygu 'dull gweithredu ar sail system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach. Yn benodol, eglurwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwysu'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.

Mae llawer o arian wedi cael ei ddarparu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gydweithio'n agosach a datblygu chwe model cenedlaethol o ofal integredig a fydd yn cynnig gwasanaethau ataliol a di-dor i bobl yn y gymuned.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol pum mlynedd, sy'n darparu £144.6 miliwn y flwyddyn o gyllid refeniw i gefnogi trawsnewid a'r Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwysu newydd gwerth £50 miliwn, sy'n cefnogi uchelgais y Llywodraeth yn uniongyrchol i sefydlu 50 o hybiau iechyd a gofal integredig ledled Cymru.

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn sefydlu chwe model cenedlaethol o ofal integredig, pob un wedi'i gynllunio i fabwysiadu dull integredig, system gyfan sydd â

ffocws allweddol ar atal. Fodd bynnag, mae tri o'r modelau'n gweithio'n benodol ac yn uniongyrchol i greu capasiti cymunedol sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phwysau ein system. Sef:

- **Cydlynu cymunedau ataliol:** Cefnogi gweithgareddau fel presgripsiynu cymdeithasol a helpu pobl i gysylltu â'r gwasanaeth cymorth sy'n lleol iddyn nhw.
- **Gofal cymhleth yn nes at adref:** Helpu pobl i gadw'n iach gartref ac i atal yr angen i fynd i'r ysbyty
- **Gartref o'r ysbyty:** Helpu pobl i symud o'r ysbyty yn nes at adref, i'w cymuned, yn ddiogel ac yn gyflym gyda'r nod o atal y dadgyflyru niweidiol sy'n digwydd yn sgil chyfnodau estynedig diangen yn yr ysbyty

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cefnogi'r prosiectau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at feithrin capasiti cymunedol er mwyn bod yn barod i gefnogi pwysau'r gaeaf, gan ddarparu >360 o welyau gofal llai dwys ychwanegol hyd yma.

Mae'r tri model gofal sy'n weddill, a fydd hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o leihau'r pwysau ar wasanaethau statudol, yn canolbwyntio ar:

- Hybu iechyd a lles emosiynol da.
- Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd a rhoi cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal.
- Atebion sy'n seiliedig ar lety.

9. Sut bydd y broses o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau'n cael cefnogaeth yn y tymor hwy er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar yr agenda trawsnewid, i sicrhau pwyslais ar gyflwyno a phrif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac i osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus. Sut bydd y Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei defnyddio a pha ganlyniadau mesuradwy y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl?

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adeiladu ar y dysgu a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig flaenorol a'r Gronfa Trawsnewid a bydd yn ceisio creu newid cynaliadwy i'r system drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Prif nod y Gronfa

Integreiddio Rhanbarthol yw sefydlu a phrif ffrydio chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig. Yn dilyn y buddsoddiad a wnaed a'r profion a gynhaliwyd gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, mae'r chwe model gofal hyn wedi'u datblygu i wahanol raddau, gyda rhai o weithgareddau'r prosiect bellach yn barod i'w prif ffrydio ac eraill yn dal i fod ar gamau cynnar eu datblygiad.

Mae fframwaith canlyniadau wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae hwn yn cyflwyno dau ganlyniad lefel uchel bwriadedig, penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chyfres o ddangosyddion a mesurau ar gyfer pob Model Gofal. Mae'r fframwaith canlyniadau yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddisgwylir o'r modelau cenedlaethol o ofal integredig. Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd, ac i ddeall ac adrodd ar rôl y modelau cenedlaethol o ofal integredig o ran cefnogi pobl (hynny yw, a ydynt wedi gweithio, beth sydd wedi cael ei newid, a beth sydd wedi cael ei ddysgu). Mae'r fethodoleg adrodd hon hefyd yn cyfleu profiadau pobl o'r modelau cenedlaethol o ofal integredig, i ddangos beth oedd yn gweithio, ar gyfer pwy, ac ym mha gyd-destunau/amgylchiadau. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o effaith a manteision canlyniad o ran gwella anghenion llesiant pobl.

Disgwylir y bydd cysondeb yn y defnydd o dulliau (mesurau) dilys ar gyfer y modelau cenedlaethol a ariennir ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Bydd hyn yn cynnwys offer sy'n dangos/mesur y pellter a deithir gan unigolion o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsant. Mae rhanbarthau wedi cael eu hannog i ddefnyddio dulliau safonol fel *Y Newid Mwyaf Arwyddocaol*, Sêr Canlyniadau, a mesurau fel Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin (WEMWBS) a'r EQ-5D. Y nod o ddarparu'r fframwaith canlyniadau a phroses fonitro ac adrodd gadarn i sicrhau cysondeb a chymharedd, a oedd yn her i werthuswyr y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid.

Yn ogystal, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn gronfa bum mlynedd sydd â chynaliadwyedd hirdymor wrth ei wraidd drwy arian cyfatebol. Ar hyn o bryd, disgwylir arian cyfatebol gan bartneriaid o'r flwyddyn gyntaf ymlaen; disgwylir 10 y cant ar gyfer cyflymu newid a 30 y cant ar gyfer gwreiddio modelau.

Ochr yn ochr â chyllid tymor hir, mae'r cymorth hwn sy'n lleihau'n raddol yn un o nodweddion allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Ei bwrpas yw sicrhau bod modelau gofal cenedlaethol yn cael eu gwreiddio a'u prif ffrydio yn y gwaith o

ddarparu gwasanaethau craidd drwy ddenu cefnogaeth o gyllidebau craidd sefydliadau statudol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol wedi newid ers lansio'r RIF ac efallai y bydd angen i ni adolygu ein huchelgeisiau ar gyfer hyn yn y dyfodol tymor byr i ganolog.

10. Rhowch asesiad o refeniw a chostau cyfalaf y broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru lachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal ar-lein. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion y gwariant ar elfennau digidol sydd wedi cael ei ariannu drwy'r Gronfa Arloesi Ranbarthol*, a manylion cyfran y gwariant drwy'r RIF sydd wedi cael ei wario ar ddata ac elfennau digidol. (*Sylwch mai'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw RIF).

Cyllideb y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) ar gyfer 2023-24 yw £45 miliwn o Refeniw a £20 miliwn o Gyfalaf. Bydd hyn yn cyflawni Trawsnewid Digidol yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn wreiddiol yn Cymru lachach ac a ailddilysir yn y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddiwygiedig.

Mae DPIF yn cael ei dargedu i gefnogi'r gwaith o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny drwy ddarparu cyllid strategol ar gyfer prosiectau a rhaglenni digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n creu manteision i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Mae'r prosiectau a'r rhaglenni hyn yn cynnwys blaenoriaethau strategol fel:

- y Gwasanaethau Digidol ar gyfer y Cyhoedd a Chleifion (DSPP, datblygu Ap GIG Cymru),
- y Gronfa Ddata Genedlaethol (NDR, canoli cofnodion cleifion i wneud y data hwn yn hygyrch ar draws systemau ac ar draws ffiniau byrddau iechyd),
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS, rhannu cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol),
- y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP, digideiddio'r daith presgripsiynau a meddyginiaethau ledled Cymru; cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel e-bresgripsiynu).

Yn 2023-24, mae gan DPIF eisoes ymrwymadau o tua £31 miliwn o'r gyllideb referniw £45 miliwn. Byddwn yn cymeradwyo rhagor o gynigion gan sefydliadau Gofal Cymdeithasol a'r GIG yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at ymrwymiad PfG i "Fuddsoddi a chyflwyno technoleg newydd sy'n helpu i ddarparu cyngor a thriniaethau cyflym ac effeithiol".

Fel rhan o'n proses weithio, gyda Chyfarwyddwyr Digidol yn y GIG, rydym yn herio cynigion i sicrhau bod pob un yn darparu gwerth i gleifion a gweithwyr proffesiynol yn gyflym ac yn gymesur â'r buddsoddiad maent yn ei geisio.

Rydym wedi clustnodi arian o fewn y DPIF ar gyfer y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol, sy'n ymrwymiad PfG ("Cyflwyno e-bresgripsiynau a chefnogi datblygiadau sy'n galluogi i'r clefydau cywir gael eu canfod drwy ddeallusrwydd artiffisial"). Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau ar y cyflymder a ddangosir hyd yma, mae £8.7 miliwn wedi'i ymrwymo'n rheolaidd yn 2023-24 ar gyfer Meddyginiaethau Digidol, gyda £4.3 miliwn arall wedi'i glustnodi ar gyfer cynigion a ddisgwylir yn ystod y misoedd nesaf. Rydym hefyd yn bwriadu clustnodi arian o fewn y DPIF ar gyfer cynigion deallusrwydd artiffisial er mwyn gallu ariannu'r rhain. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol i bennu'r math o gynigion y gallwn eu disgwyl a sut y byddent yn mynd i'r afael â'r rhan hon o'r ymrwymiad.

Mae cydnabyddiaeth glir bod gan dechnoleg rôl gynyddol i'w chwarae o ran helpu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, i aros yn iach ac i fyw'n annibynnol. Daeth hyn yn fwyfwy amlwg yn ystod pandemig Covid 19 a oedd yn gorfodi unigolion, cymunedau a darparwyr gwasanaethau i feddwl yn wahanol am sut roeddent yn cefnogi llesiant unigol pobl. Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig er mwyn i ddinasyddion Cymru, ble bynnag y maent yn byw, gael sicrwydd y byddant yn cael profiad effeithiol a di-dor o wasanaeth mewn perthynas â:

- Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref
- Hybu iechyd a lles emosiynol da

- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a darparu cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion sy'n seiliedig ar lety

Er mwyn cyflwyno'r modelau gofal cenedlaethol hyn yn effeithiol, gofynnwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried a gwneud defnydd da o sawl dull galluogi allweddol. Un o'r rhain oedd technoleg ac atebion digidol, ac mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Apiau hunanofal
- Atebion adrodd digidol
- Technoleg yn y cartref a chartrefi clyfar
- Gwybodaeth, cyngor ac ymgynghoriadau rhithwir

O ystyried bod systemau digidol yn rhan annatod o gyflawni'r chwe model gofal hyn, nid oes gennym ddadansoddiad ariannol penodol o lefel y buddsoddiad mewn technoleg ac atebion digidol.

Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

11. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac yn lleihau a rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth.

Bydd materion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn parhau i fod yn bryder sylweddol wrth symud ymlaen. Bydd parhau i recriwtio gweithwyr proffesiynol cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u hyfforddi'n llawn yn heriol iawn yn dilyn sawl blwyddyn o ganolbwyntio ar Covid 19 ac mewn marchnad cyflogaeth gystadleuol, gyda phrinder sgiliau a heriau byd-eang i'r gweithlu yn y sectorau iechyd a chymdeithasol.

Rydym yn darparu ateb cynaliadwy i staffio GIG Cymru drwy fuddsoddi mewn hyfforddi pobl ar gyfer y dyfodol. Yn 2023-24, byddwn yn gwneud ein buddsoddiad ariannol mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu, ond rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar ffyrdd o ddefnyddio ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol yn

fwy effeithiol. Nid oes atebion sydyn, ond mae'n rhaid i ni edrych ar yr holl ddulliau arloesol o newid – nid yn unig ein ffyrdd o weithio ond hefyd ein ffyrdd o feddwl. Un maes penodol y canolbwyntir arno fydd defnyddio gweithwyr asiantaeth a chamau y gellir eu cymryd i leihau gwariant yn y maes hwn.

Rydym yn bryderus iawn ynghylch lefel y gwariant ar staff locwm ac asiantaethau, a byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol i ganolbwyntio ar reoli'r gwariant hwn wrth weithio'n agos gydag undebau llafur. Ein nod yw cyflawni gwaith yn gyflym er mwyn deall y sefyllfa bresennol yn glir, lleihau gwariant a dibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm cyn gynted â phosibl, a sicrhau ein bod mewn sefyllfa well yn y dyfodol. Drwy fframwaith cenedlaethol byddwn yn ystyried terfynau a thargedau ar gyfer defnyddio a gwario ar staff locwm ac asiantaethau, wedi'u hategu gan systemau gweithredu safonol.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae'r cynnydd mewn costau byw a'r gwahaniaeth mewn cyflogau yn y sector gofal cymdeithasol yn golygu bod cyflogau ac amodau'n cael eu derbyn fel ffactorau pwysig o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cartref a chartrefi gofal. Mae'r pandemig wedi rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y sector hwn sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, ac mae wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cael strategaeth ar gyfer y gweithlu sy'n croesi iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd darparu'r codiad Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael effaith fanteisiol ar ddarparu gofal digonol yn y tymor hwy a gallai leddfu'r pwysau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u pennu'n fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £45 miliwn ar gyfer 2023-24.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cymwys, rydym yn darparu dros £1.4 miliwn yn 2023-24 i wella'r pecyn cymorth ariannol ar gyfer y radd Gwaith Cymdeithasol, gan barhau â'r cynnydd yn y Bwrsari ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau yn 2022 a chynnydd ar gyfer myfyrwyr presennol. Yn ogystal â hyn, mae cyllid [o £400,000] o fewn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddarparu i barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn cynyddu prentisiaethau gofal cymdeithasol a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i faes gofal cymdeithasol.

O fewn cyllidebau craidd SSID, dyrannwyd cyllid i gefnogi gwaith y Fforwm Gwaith Teg ym maes Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella telerau ac amodau ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu fframwaith cyflogau a chynnydd ar gyfer y sector; fframwaith ar gyfer cydfargeinio i'w brofi gyda'r sector; yn ogystal â datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o hawliau'r gweithlu ymysg staff a sicrhau llais cryfach i weithwyr.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi cael ei ariannu o 2022 i 2025 i gefnogi'r sector gydag arloesedd ac ar draws y maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cymorth hyfforddi i feithrin perthnasoedd, hyder a sgiliau ym maes arloesi a datblygu dull o ddatblygu sgiliau er mwyn helpu i wreiddio arloesedd mewn ymarfer. Bydd hyn yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl, y rhai sydd ganddynt, lle gallant gael mynediad at ddatblygu sgiliau, ac unrhyw fylchau neu ddatblygiad pellach sydd ei angen.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn parhau i arwain Strategaeth Gweithlu ar y cyd AaGIC a GCC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'n gynllun deng mlynedd ar gyfer y sector, gyda chamau gweithredu ar draws saith thema, sef: gweithlu brwdfrydig, iach a llawn cymhelliant; denu a recriwtio; modelau gweithlu di-dor; adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol; addysg a dysgu rhagorol; arweinyddiaeth ac olyniaeth, a chyflenwad a siâp y gweithlu. Mae rhaglen grantiau datblygu'r gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gronfa fawr i helpu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol i ddatblygu yng Nghymru. Mae'r grant yn helpu i ariannu amrywiaeth o raglenni gwaith, gan gynnwys dysgu, datblygu a chymwysterau. Hefyd, mae'r ymgyrch Gofalw'n Cymru yn hyrwyddo amrywiaeth o rolau sydd ar gael ym maes gofal cymdeithasol drwy ddeunyddiau ar y we a

hysbysebion teledu. Mae'r deunyddiau hyn ar y we yn cael eu defnyddio ar draws y sector annibynnol a chyhoeddus i gefnogi'r gwaith o recriwtio i swyddi gofal, er enghraifft, drwy ffeiriau gyrfaedd, gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd fel Gyrfa Cymru, a gweithgareddau allgymorth eraill. Mae hyn i gyd wedi'i anelu at hyrwyddo'r proffesiwn a'i wneud yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

12. Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud yn y gyllideb ddrafft i feithrin a chynnal morâl ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl, a sut byddwch yn asesu effaith y mesurau hyn.

Mae gofalwyr di-dâl yn dweud yn gyson bod peidio â chymryd seibiant oddi wrth ofalu yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Mewn ymateb, rydym yn buddsoddi £9 miliwn dros dair blynedd i sefydlu cynllun seibiant byr; mae £3.5 miliwn wedi'i ddyrannu i'r cynllun yn 2023-24. Yn dilyn proses gystadleuol, penodwyd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gorff cydlynu cenedlaethol a bydd yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r trydydd sector i ddatblygu prosiectau lleol sy'n cynnig detholiad o seibiannau byr i ofalwyr di-dâl sydd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol. Bydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd yn gwerthuso effaith y cynllun. Gallai seibiant byr olygu unrhyw beth o'r cyfle i ddysgu sgil newydd, mynd i'r gampfa, prynu dodrefn gardd neu fynd ar daith oddi cartref. Y prif nod yw rhoi cyfle i ofalwyr di-dâl ymlacio a chymryd camau i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Rydym hefyd yn parhau i ariannu Gofalwyr Cymru i gyflawni'r prosiect Llesiant a Grymuso Gofalwyr. Nod y prosiect, a ariennir drwy gynllun grant trydydd sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, yw hysbysu, cefnogi a grymuso gofalwyr di-dâl i reoli eu rôl gofalu gan ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae Gofalwyr Cymru yn cefnogi gofalwyr di-dâl i ofalu am eu llesiant eu hunain, i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i wneud y gorau o'u bywydau.

Dyrennir miliwn o bunnoedd i fyrddau iechyd er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty neu'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae tystiolaeth o fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr ynghylch sut defnyddiwyd y dyraniad yn 2021-22 yn dangos enghreifftiau o

weithgarwch sydd eisoes ar waith i wella'r cyfathrebu â gofalwyr di-dâl mewn ysbytai, ac ymgysylltu â nhw yn y broses ryddhau.

O ran cymorth iechyd meddwl a llesiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth Canopi sydd wedi cael ei gontractio gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025 am £1.5 miliwn y flwyddyn.

Mae Canopi yn cynnig mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant cyfrinachol, heb fod yn argyfwng, yn rhad ac am ddim i'r holl staff Gofal Cymdeithasol a'r GIG sy'n gweithio yng Nghymru.

Nod Canopi yw:

- darparu cymorth seicolegol ac iechyd meddwl cynaliadwy ac aml-haen o ansawdd uchel i'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru.
- meithrin a chynyddu cydweithrediad gyda sefydliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- cyfrannu at hyrwyddo iechyd meddwl yn gadarnhaol.
- gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a llesiant presennol a'u hategu.
- galluogi datgeliad i'r rheini sy'n teimlo nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n seiliedig ar gyflogwyr.

Cafodd Canopi ei lansio'n ffurfiol ar 26 Mai 2022 (y gwasanaeth blaenorol oedd Iechyd ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru). Ers ei lansio, mae Canopi wedi gweld tuedd barhaus tuag at dwf ac ymwybyddiaeth gynyddol yn y sector ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae wedi cefnogi 1,500 o gleientiaid o'r ddau sector. Bydd Canopi yn parhau i gydgyhyrchu'r gwasanaeth gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol, adlewyrchu egwyddorion gofal darbodus a mabwysiadu dull parhaus o wella gwasanaethau. Bydd anghenion y gweithlu sy'n datblygu yn cael eu hadolygu, eu hasesu a'u diwallu'n rheolaidd drwy gydweithio strategol, dadansoddi data ac adborth.

Annhegwch ac anghydraddoldebau iechyd

- 13. Amlinellwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, dylai hyn nodi sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn targedu anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u gwaethygu, neu'r rheini sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig ar iechyd neu lesiant grwpiau penodol (fel oedolion hŷn, pobl o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall yn ansicr yn ariannol).**

Ein nod yw gwella iechyd meddwl a llesiant gan leihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol. Mae ffocws penodol ar y dull hwn fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl presennol ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn ffocws penodol wrth i ni adnewyddu'r cynllun ym mis Hydref 2020 wrth i ni gryfhau'r meysydd hynny sy'n diogelu iechyd meddwl da. Mae hyn yn seiliedig ar amrywiaeth o ymrwymadau sy'n cael eu datblygu ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru, fel mynediad gwell at wasanaethau a rhaglenni cyngor a chynhwysiant ariannol sy'n helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith neu i aros mewn gwaith. Mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Mae aelodau Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys swyddogion o Adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae cyflawni Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sbardun allweddol yn ein holl benderfyniadau polisi. O ystyried bod hyn yn cynnwys Cymru Iachach a Cymru sy'n Fwy Cyfartal, mae camau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd yn cael eu prif ffrydio ar draws holl weithgarwch a dyraniadau cyllidebau Llywodraeth Cymru. Mae ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi (a gefnogir gan y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd) a'n dull integredig o bennu dyraniadau cyllideb, yn golygu nad yw'n bosibl meintoli'r union ffigurau o gyfanswm dyraniadau'r gyllideb sy'n ymwneud â lleihau anghydraddoldebau iechyd yn unig.

Fodd bynnag, mae enghreifftiau penodol o wariant y llywodraeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys ein rhaglen Dechrau'n Deg a'n gwaith i fynd i'r afael â dau o'r rhesymau mwyaf dros

anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru: gordewdra ac ysmegu. Yn ystod y pandemig, cafodd ysmegu a gordewdra eu nodi fel ffactorau risg allweddol a oedd yn cyfrannu at ganlyniadau gwaeth i bobl a oedd wedi cael COVID-19. O ystyried bod cyfraddau ysmegu a gordewdra yn gyffredinol uwch ymysg rhai grwpiau o bobl (gan gynnwys pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a phobl o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol), gwyddom fod y ffactorau risg hyn wedi chwarae rhan allweddol mewn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd yn ystod y pandemig. O ran gordewdra, mae ein Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2022-24 yn cynnwys camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd a deiet ar draws y boblogaeth yn ei chraidd. O ran ysmegu, mae ein Strategaeth Rheoli Tybaco a'n cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf ar gyfer 2022-24 yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel un o themâu craidd y strategaeth.

Gan droi at y dyraniadau craidd a roddir i fyrddau iechyd lleol, mae gweinidogion yn disgwyl i gamau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd fod wrth wraidd holl waith y GIG. Yn hyn o beth, mae Fframwaith Cynllunio'r GIG a gyflwynwyd i fyrddau iechyd lleol yn cadarnhau y dylai gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd fod yn llinyn aur drwy Gynlluniau Tymor Canolig Integredig. Am y rheswm hwn, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng agweddau penodol ar ddyraniadau cyllid craidd byrddau iechyd sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn unig. Er hynny, mae enghreifftiau penodol o raglenni gwaith sy'n ymwneud â byrddau iechyd sy'n cyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys dynodi ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent fel Rhanbarth Marmot yn ddiweddar, yn ogystal â phrosiect Gogledd Cymru Iach.

Sicrhau adferiad ar ôl y pandemig

14. Eglurwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhowch sylw i'r canlynol:

- **Y tybiaethau sy'n sail i ddyraniadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys sut byddwch chi'n sicrhau bod digon o arian wrth gefn ar**

gael petai'r sefyllfa o ran Covid yn cael ei huwchraddio o un Sefydlog i un Frys.

- **Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i gynyddu capasiti gwasanaethau neu i gynyddu adnoddau staff wrth i'r ymateb i'r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen frechu.**
- **Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnal cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol.**

Mae ein tybiaethau yn nyranid y gyllideb ar gyfer y cymorth parhaus gyda Covid yn seiliedig ar senario Covid Sefydlog, hynny yw, rydym yn disgwyl tonnau ychwanegol o haint ac i amrywiolion newydd ddod i'r amlwg, a gallai rhai fod yn drechol. Ond ni fydd y tonnau hyn yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Disgwylir i frechlynnau ac ymyriadau fferyllol eraill barhau i fod yn effeithiol wrth atal salwch difrifol, yn y mwyafrif helaeth o achosion. Rydym yn credu mai dyma'r senario mwyaf tebygol, ond bydd gwylidwriaeth barhaus yn bwysig i helpu ein polisi a'n gwaith cynllunio, ar gyfer Covid ac unrhyw bandemig arall yn y dyfodol.

Bydd ein cyllid yn cefnogi senario Covid Sefydlog ac yn darparu'r sail i'n galluogi i gynllunio a chamu i'r adwy mewn senario Covid Brys. Gallai amrywiolion newydd ddod i'r amlwg sy'n gwrthsefyll y brechlyn i raddau helaeth, neu fwtaniadau eraill sy'n rhoi nifer fawr o bobl mewn perygl o gael salwch difrifol, fel y gwelwyd yn ystod y don alffa ym mis Rhagfyr 2020. Nid yw'r cyllid yn cynnwys rhoi'r gweithgarwch a allai fod yn ofynnol mewn senario Covid Brys, ac unrhyw ehangu posibl, ar waith.

Mae'r prif feysydd y bydd y cyllid yn eu cefnogi yn cynnwys:

- Profi ac olrhain
- Gwylidwriaeth
- Rhaglen frechu
- Darpariaeth cyfarpar diogelu personol i'r GIG a gofal cymdeithasol

Mae'r cyllid arfaethedig hefyd yn darparu capasiti ychwanegol o fewn y system diogelu iechyd i helpu gyda sgrinio ar gyfer ceiswyr lloches, achosion o glefydau heintus a chynllunio ar gyfer y gaeaf.

Yn ystod 2022-23, rydym wedi gostwng elfennau o'n hymateb i Covid yn unol â dileu'r cyfyngiadau cyfreithiol ddiwedd mis Mai, ac rydym wedi cyflwyno rhaglen frechu lwyddiannus sy'n arwain at lai o niwed a salwch difrifol. Rydym wedi lleihau ein gweithgarwch profi ac olrhain yn sylweddol a, gyda llai o achosion, rydym wedi gweld gostyngiad yn y galw am gyfarpar diogelu personol. Bydd ein cyllid ar gyfer 2023-24 yn darparu capasiti ychwanegol o ran gwasanaethau iechyd a gofal yn y meysydd allweddol a restrir, wrth i ni symud tuag at drefniadau cynaliadwy tymor hwy.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2023-24 yn ein galluogi i gynnal system diogelu iechyd sy'n rheoli sefydlogrwydd Covid ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal lefel sylfaenol o seilwaith er mwyn gallu camu i'r adwy, pe bai'r angen yn codi. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gael ei adolygu wrth i ni weithio drwy oblygiadau parhaus statws a lefel heintiau Covid, bygythiadau a pheryglon eraill, a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Bydd hyn yn adeiladu ar y dysgu, y buddsoddiadau a'r gallu rydym wedi'i ddatblygu yn ein hymateb i bandemig Covid, gan gynnwys cyfleusterau profi mewn labordai, systemau olrhain a genomeg GIG Cymru.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein dull gweithredu ein hunain o ran gwylidwriaeth, modelu ystadegol a rhybudd cynnar. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod unrhyw fygythiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau mewn amrywiolion Covid. Mae hyn i gyd yn cryfhau ein hymateb brys i fygythiadau yn y dyfodol ac yn cynnal lefel y gwrthfesarau sydd eu hangen, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol a meddyginiaethau, er mwyn ymateb yn effeithiol pan fo angen.

Rydym hefyd wedi buddsoddi'n rheolaidd mewn rhaglenni newydd, penodol a sefydlwyd o ganlyniad i bandemig Covid, er enghraifft:

- Y Rhaglen Adferiad ar gyfer Covid Hir
- Parhau â phroffion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI) ar-lein – dechreuwyd yn ystod y pandemig i gefnogi'r gwasanaeth presennol.

- Ymchwil a Datblygu – canolfan tystiolaeth Covid

Un o'n buddsoddiadau allweddol yw'r rhaglen frechu Covid a fydd yn parhau tan 2023-24, gyda chyllid yn cael ei neilltuo i gefnogi'r ddarpariaeth. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, dyma'r mesur ataliol allweddol sydd wedi cael yr effaith fwyaf o ran lleihau lledaeniad Covid a difrifoldeb y symptomau pan fydd unigolion yn cael y feirws. Yn dilyn cyhoeddi [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru](#), mae'r ffocws nawr ar roi'r blaenoriaethau a'r ffyrdd newydd o weithio y mae'n eu disgrifio ar waith. Gan symud tuag at sylfaen fwy cynaliadwy a busnes-fel-arfer, mae'r holl raglenni brechu wedi'u hintegreiddio ac mae'r gwersi o'n profiad o'r pandemig yn cael eu dysgu a'u cymhwyso ar draws ein rhaglenni brechu.

Mae arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau yn elfen bwysig o'r Fframwaith newydd a'n hagwedd at frechu. Rydym wedi gweld hyn yn sgil y ffocws mwy ar roi pigiad atgyfnerthu COVID-19 yr hydref a'r brechiad rhag y ffliw gyda'i gilydd y gaeaf hwn. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel hyn ar draws ein rhaglenni brechu.

Fel y disgrifir uchod (t.37), bydd mynd i'r afael â chymorth iechyd meddwl a llesiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael ei gefnogi gan wasanaeth Canopi, sydd wedi cael ei gontractio gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025 am £1.5 miliwn y flwyddyn.

Rydym wedi gosod y gyllideb hon ar sail senario Covid sefydlog a byddwn yn parhau i wneud y gorau o bob punt o gyllid er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen craidd wrth iddynt barhau i adfer. Mae ein gallu i addasu ac ymateb os bydd y costau ymateb i Covid yn cynyddu yn gyfyngedig o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac os bydd yn rhaid i ni symud i ymateb ar lefel uwch, bydd y mesurau wrth gefn yn galw am ymdrech Llywodraeth gyfan.

15. Pa ddyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o amseroedd aros. Yn eich ateb, esboniwch pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o effaith a chanlyniadau'r adnoddau a ddyrannwyd yn ystod 2022-23, a sut bydd dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn cael eu targedu.

Rydym wedi dyrannu £170 miliwn eleni i fyrddau iechyd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ofal wedi'i gynllunio. Mae'r arian hwn yn rheolaidd i'r GIG a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen trawsnewid ac adfer gofal wedi'i gynllunio a lansiwyd ym mis Ebrill 2022. Mae'r Gweinidog wedi bod yn glir y bydd yn cymryd holl dymor y Senedd i'r GIG adfer ar ôl y pandemig.

Y buddsoddiad ychwanegol o £170 miliwn

Cafodd yr arian ei roi yn y system cyn lansio'r rhaglen ym mis Ebrill 2022. O ganlyniad, roedd sefydliadau'n gwneud dewisiadau unigol yn hytrach na chael eu harwain gan y cyfeiriad strategol rydym yn ei ddilyn yn awr. Mae hyn wedi golygu bod cyfleoedd fel gweithio rhanbarthol yn cael eu colli, ond mae rhai cyfleoedd rhanbarthol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, fel diagnosteg ranbarthol.

Roedd sefydliadau'n defnyddio'r adnoddau gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn bennaf:

- Cael y capasiti mewnol mwyaf posibl
- Dod â seilwaith i'r safle – ee theatrau llawdriniaethau
- Capasiti ychwanegol gyda'r sector preifat
- Diagnosteg
- Gwelliannau mewn llwybrau gofal brys i leihau'r posibilrwydd o ganslo

Mae penawdau allweddol o'r crynodeb data arbenigol a dderbyniwyd gan yr Uned Cyflawni Ariannol (FDU) yn cynnwys:

- Offthalmoleg £18 miliwn, gweithgaredd 39,945
- Orthopedeg £13 miliwn, gweithgaredd 18,519
- Mae Gofal wedi'i Gynllunio / Mwy nag un arbenigedd / Amrywiol yn cyfrif am tua £42 miliwn
- Gofal Heb ei Drefnu/Meddyginiaeth/Gofal Brys £22 miliwn

Rydym wedi gweld capasiti ychwanegol mewn cleifion allanol, ond mae wedi cymryd amser i'r data hwn ddod i'r amlwg, ac nid yw'n cael ei gynrychioli ym mhob arbenigedd.

Cronfa trawsnewid gofal wedi'i gynllunio gwerth £15 miliwn

Hyd yma, mae £3.4 miliwn o'r gronfa trawsnewid gofal wedi'i gynllunio wedi cael ei gyhoeddi yn Ch1/Ch2, gyda chyllid ar gyfer Ch3/Ch4 yn cael ei ryddhau yn unol ag adolygiadau prosiect a chyflawni yn erbyn cerrig milltir prosiectau. Gwelir isod y prif feysydd effaith a welwyd yn ystod y chwe mis cyntaf; mae meysydd eraill yn fwy hirdymor a thrawsnewidiol, ac nid yw'r manteision i'w gweld yn ystod y chwe mis cyntaf.

Prosiectau trawsnewid cleifion allanol

Mae prosiectau trawsnewid cleifion allanol yn cefnogi'r gwaith o roi dulliau a mentrau arloesol ar waith, sy'n cyfrannu at drawsnewid cleifion allanol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau gofal sylfaenol i edrych ar lif atgyfeiriadau a nodi pa atgyfeiriadau y mae angen iddynt ddod i'r amlwg. Rhwng mis Ebrill ac Awst 2022 bu gostyngiad llwyr yn nifer yr atgyfeiriadau (18,802) ar draws yr holl fyrddau iechyd ar gyfer y saith arbenigedd gofal wedi'i gynllunio. Mae hyn yn erbyn cynnydd cyffredinol mewn atgyfeiriadau, a oedd yn uwch na'r un cyfnod yn 2019, cyn covid. Mae tystiolaeth o ostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau ar draws yr holl fyrddau iechyd mewn orthopedeg (gostyngiad o dros 18,800) ac ENT (gostyngiad o dros 6,300) yn awgrymu bod gwaith cenedlaethol yn y meysydd hyn yn cael effaith gynnar.

Dewisiadau eraill yn lle apwyntiadau dilynol

Ledled Cymru, o fis Ebrill 2022 i fis Medi 2022, mae 89,000 o lwybrau Sylw yn ôl Symptomau (SOS) a Chamau Dilynol wedi'u Sbarduno gan Gleifion (PIFU) wedi dechrau, sy'n ddewis amgen i'r apwyntiad dilynol wyneb yn wyneb traddodiadol. O'r 89,000 o lwybrau, rhagwelir y gall 10 y cant newid i fod angen apwyntiad dilynol. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau dilynol sydd eu hangen (tua 80,100) ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer apwyntiadau newydd. Mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau'r flwyddyn nesaf.

Teledermosgopi

Mae tystiolaeth gan Aneurin Bevan a Hywel Dda wedi dangos bod tua 50 y cant o'r cleifion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth Teledermosgopi wedi cael eu rhyddhau (o'i gymharu â 25 y cant o'r cleifion yn cael eu rhyddhau yn flaenorol). Mae arbenigwyr yn gallu cynnal 24 adolygiad digidol lle byddent o'r blaen yn cynnal 12 adolygiad wyneb yn wyneb yn ystod yr un sesiwn. Mae gan Fyrddau Iechyd sydd â

Telederm ar waith – Bae Abertawe, Aneurin Bevan ac, yn fwy diweddar, Hywel Dda – niferoedd sy'n sero neu'n lleihau dros 52 wythnos mewn adrannau cleifion allanol.

Dilysu

Mae cwmni dilysu a reolir yn ganolog wedi cael ei sicrhau i gefnogi dilysu ar raddfa eang ar draws tri Bwrdd Iechyd: Betsi Cadwaladr, Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe. Mae'r dystiolaeth hyd yma ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn dangos cyfradd dileu o 18 y cant, yn seiliedig ar 7,786 dilysiad gweinyddol a 6,6386 dilysiad dros y ffôn. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, bydd 41,594 wedi cael eu dilysu ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, 39,228 yng Nghwm Taf Morgannwg, 31,900 yn Hywel Dda a 30,582 ym Mae Abertawe.

Symud ymlaen

Mae'r cyllid wedi'i ddyrannu ar sail reolaidd. Mae byrddau iechyd, fel rhan o'u cynlluniau, yn parhau i geisio cynyddu gweithgarwch dewisol, gan gydbwysu gofynion gofal brys a gofal mewn argyfwng ar yr un pryd. Mae byrddau iechyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i allanoli cleifion ac i fewnoli gweithgarwch.

Gofal cymdeithasol

16. Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- **Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2023-24, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu.**
- **Sut bydd y dyraniadau yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.**
- **Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.**
- **Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol.**
- **Sut bydd y gyllideb ddrafft yn helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i gostau byw cynyddol, gan gynnwys costau ynni cynyddol. Yn**

eich ateb, rhowch dystiolaeth o wariant penodol i gefnogi gweithwyr gofal cartref, a gofalwyr di-dâl a phobl anabl, a'u teuluoedd.

Cyflwynwyd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, er mwyn ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.

Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal am gyfnod mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgyssylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Bydd y cynnydd o £10 miliwn yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn 2023-24, i £52 miliwn, a'r swm a ailddyrennir o gyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i wella'r cymorth a roddir i Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i'n gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol i gefnogi cynigion i gyflawni'r ymrwymadau hyn.

Dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer dileu elw o ofalu

am blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o £10 miliwn yn 2022-23 i £16 miliwn yn 2023-24.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal am gyfnod mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgyssylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i 'leihau elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal' fel elfen allweddol o'r agenda radical hon.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, elusennol neu nid-er-elw.

Ein nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc, gan roi sylw i ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff. Rydym yn bwriadu canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar ofal preswyl a gofal maeth i blant.

Dros weddill tymor y Senedd hon, mae angen i ni ganolbwyntio ar weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, awdurdodau lleol a phartneriaid i gynyddu darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw er mwyn sicrhau bod sylfaen gref i bontio i ofal nid-er-elw sy'n diwallu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc.

Diwygio Radical

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer diwygio gwasanaethau plant yn radical wedi cynyddu o £3 miliwn yn 2022-23 i £10 miliwn yn 2023-24.

Rydym wedi ymrwymo drwy ein Rhaglen Lywodraethu i edrych ar ddiwygiad radical y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn gwireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar ymarfer cyson, ymddygiadau llai gwrth-risg a dulliau adferol cenedlaethol sy'n cael eu mabwysiadu ledled Cymru. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw cyflawni'r weledigaeth hon; mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector.

Bydd y rhaglen yn darparu ymyriadau ataliol i deuluoedd sydd â phlant ar ffiniau gofal, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth i rieni, cynadleddau grŵp i deuluoedd, diwygio Cyfiawnder Teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol. Bydd hefyd yn galw am fwy o ymyrraeth a chefnogaeth i awdurdodau lleol nad ydynt yn cyflawni ein huchelgais i leihau nifer y plant sydd mewn gofal yn sylweddol; mae ymweliadau gweinidogol diweddar ag awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar hyn a bydd yn parhau felly ar gyfer gweddill yr ymweliadau hyn.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Bydd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 23-24 yn cynnwys cyllid rheolaidd o tua £70 miliwn i gyd, er mwyn codi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Bydd y cynnydd yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwydd personol sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Bydd sicrhau gwell cyflog drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae hyn yn sicrhau gwelliannau i'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn

ogystal â gwella lefelau cadw'r gweithlu a'r canlyniadau i bobl sy'n cael gofal a chymorth. Er na fydd y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â phob her ym maes Gofal Cymdeithasol, bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd ac uchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gwella cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaedd, a helpu i wella'r broses recriwtio a chadw staff. Nod y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol yw integreiddio â chydabyddiaeth y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol o heriau sy'n ymwneud â chyflogau isel yn y sector. Mae hefyd yn cysylltu ag amcanion polisi Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ynghylch hybu iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'n cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a gall gael effaith gadarnhaol ar gapasiti a morâl y gweithlu.

Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol

Bydd cyllid yn cael ei ddarparu i roi cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer bwrsariâu gweithwyr cymdeithasol i fyfyrwyr er mwyn helpu myfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau yn 2021-22 ac ym mis Medi 2022 i barhau â'u hastudiaethau a helpu i sicrhau bod gennym gyflenwad cynaliadwy o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol.

Bydd y cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru drwy'r Bwrsari Gwaith Cymdeithasol. Mae cynyddu'r bwrsari yn golygu bod ein cyllid ar gyfer y rhaglen hon bron yn £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf i helpu i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. O'r pecyn cyllid hwn sy'n werth £10 miliwn, mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn costio cyfanswm o £3.5 miliwn dros y tair blynedd. Mae hyn yn gynydd o fwy na 50 y cant i'r bwrsari presennol i israddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni rôl hanfodol yn ein cymunedau, gan gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu bywydau eu hunain. Maent wrth wraidd ein system gofal cymdeithasol ac maent yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol. Mae'r bwrsari Gwaith Cymdeithasol i fyfyrwyr yn cefnogi pobl sydd â'r priodoleddau a'r sgiliau priodol i allu ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Ei nod yw cyfrannu at dwf gweithlu gwaith cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cyfrannu at y costau a wynebwr gan unigolion sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol.

Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (grant gweithlu)

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u pennu'n fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Yn ymarferol, mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o fesurau – o godi cyflogau i gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £45 miliwn ar gyfer 23-24.

Yn ogystal â'r setliad cyllid blynyddol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu cymorth i ofalwyr di-dâl, dyrennir £3.5 miliwn i barhau â'r Cynllun Seibiant Byr a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u rôl fel gofalwyr.

Bydd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr (£1.75 miliwn yn 2023-24) yn helpu gofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig, neu fynediad at gwrsela, cyngor ariannol, llesiant a chymorth gan gymheiriaid.

Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

17. Rhwch yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai gynnwys:

- **Y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd, gan gynnwys nodi'r rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol**
- **Y rheini sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, a graddau'r cymorth hwnnw a'i hyd arfaethedig.**
- **Manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru.**

- **Gwybodaeth am ba ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud mewn ymateb i gostau ynni cynyddol.**

Roeddem yn ymwybodol y byddai 2022-23 yn flwyddyn o drawsnewid ariannol i'r GIG wrth iddo symud oddi wrth ddibyniaeth ar y lefelau sylweddol o gyllid heb fod yn rheolaidd a oedd wedi cael ei ddarparu yn ystod y ddwy flynedd ariannol flaenorol i gefnogi'r ymateb i bandemig Covid. Roedd effaith barhaus y pandemig yn 2022-23 yn golygu y byddai angen i gost yr ymatebion hyn barhau er bod y cymorth ariannol heb fod yn rheolaidd hwn wedi dod i ben.

Roedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn darparu ar gyfer cynnydd o £824 miliwn yng nghyllid rheolaidd y GIG, er bod y gyllideb hon wedi'i phennu ar adeg pan oedd disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant fod oddeutu pedwar y cant, a chyn i'r rhyfel yn Wcráin achosi cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni. Gyda'r cyllid hwn, llwyddom i ddarparu cynnydd craidd o £180 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sefydliadau'r GIG er mwyn bodloni costau craidd a thwf yn y galw. Roedd hyn ar ben y £170 miliwn o gyllid roeddem wedi'i ddyrannu i gefnogi'r gwaith o adfer gofal wedi'i gynllunio. Rydym hefyd wedi neilltuo cyllid i dalu costau dyfarniad cyflog y GIG, ac i dalu costau'r rhaglenni ymateb cenedlaethol i Covid, gan gynnwys y rhaglenni brechu, profi ac olrhain, a darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y broses gynllunio ar gyfer 2022-23, cadarnhaodd sefydliadau'r GIG y byddai costau parhaus o ganlyniad i'r pandemig yn ogystal â chostau chwyddiant newydd sylweddol yn llawer mwy na'r cyllid roeddem yn gallu ei ddarparu. Er mwyn darparu dull cyson o ddatblygu a chyflawni'r cynllun ariannol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cyllid ychwanegol, pan fyddai ar gael, i fodloni'r eitemau cost eithriadol hyn. Hyd yn oed gyda'r cymorth ychwanegol hwn, nid oedd tri bwrdd iechyd (Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda) yn gallu cyflwyno cynlluniau ariannol cytbwys ar gyfer 2022-23.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae tri bwrdd iechyd arall (Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Phowys) wedi nodi gwyradau sylweddol oddi wrth eu cynlluniau, gan ragweld diffygion yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhesymau dros y diffygion hyn yn ymwneud yn bennaf ag anallu sefydliadau i gyflawni yn erbyn eu cynlluniau cynilo cychwynnol; lefelau uchel o daliadau amrywiol, yn enwedig costau asiantaethau; yr angen i gynnal capasiti gwelyau heb eu hariannu; a chynnydd sylweddol yn y gost

a'r galw am ofal iechyd parhaus. O ganlyniad, mae'r alldro a ragwelir ar gyfer GIG Cymru ym mis wyth yn ddiffyg o £167 miliwn. Bydd pob un o'r chwe bwrdd iechyd sy'n nodi diffyg yn methu eu targed statudol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol os caiff diffyg alldro ei gadarnhau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, tair Ymddiriedolaeth y GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig yn parhau i ragweld alldro ariannol cytbwys. Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddyraniad rheolaidd o £24.4 miliwn i fwrdd iechyd Bae Abertawe i gydnabod ei fod wedi cael ei danariannu'n sylweddol yn erbyn y fformiwla dyrannu adnoddau o'i gymharu â byrddau eraill, ac i gefnogi ei gynllun tymor canolig integredig.

Mae'r dirywiad yn sefyllfa ariannol y GIG yn adlewyrchiad o'r heriau sylweddol y mae sefydliadau'n eu hwynebu eleni o ran rheoli lefelau sylweddol o ofal brys a phwysau o ran chwyddiant, ond nid yw'n sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w chefnogi na'i gwarantu. Mae'r tri bwrdd iechyd a gyflwynodd ddiffygion yn eu cynlluniau ariannol wedi cael eu rhoi mewn lefel uwchgyfeirio uwch, ac mae swyddogion a'r Uned Cyflawni Cyllid nawr yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros eu dirywiad, ac i ddatblygu llif o gyfleoedd i'w galluogi i weithio tuag at adfer sefydlogrwydd ariannol. Er nad oes unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd eto gyda'r tri bwrdd iechyd sydd wedi nodi diffygion yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion a'r Uned Cyflawni Ariannol yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn wrth iddynt ddatblygu a gweithredu cynlluniau adfer ariannol.

Fel yr amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol i fodloni costau eithriadol y cynnydd mewn prisiau ynni y mae sefydliadau'r GIG yn eu hwynebu.

Effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau a chymunedau penodol

18. Sut rydych chi wedi ystyried cyllidebu ar sail rhyw yn y gyllideb hon wrth baratoi eich cynlluniau gwariant.

Ein nod yw gwella iechyd meddwl a llesiant gan leihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol. Mae ffocws penodol ar y dull hwn fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl presennol ar gyfer Cymru a,

Ile bo hynny'n berthnasol, mae wedi cynnwys camau gweithredu sy'n benodol i rywedd, er enghraifft iechyd meddwl amenedigol.

Wrth i ni ddatblygu olynedd i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, sef Siarad â Fi 2 – strategaethau a chynllun cyflenwi ar gyfer camddefnyddio sylweddau, byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys datblygu asesiad effaith integredig a fydd yn ein galluogi i ystyried yr effeithiau ar draws nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys rhywedd.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl wrth gefnogi iechyd meddwl ar draws portffolios, gan wneud yn siŵr bod cefnogi a diogelu iechyd meddwl yn ffactor allweddol mewn unrhyw benderfyniadau buddsoddi rydym yn eu hystyried.

19. Amlinellwch pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar grwpiau neu gymunedau penodol, gan gynnwys menywod a merched, cymunedau du ac ethnig lleiafrifol, plant a phobl ifanc, a phobl hŷn.

Fel rhan o'r gwaith modelu a wnaed ar gyfer iechyd meddwl, y cyfeirir ato yng nghwestiwn chwech, roeddem yn cydnabod effaith anghymesur y pandemig ar rai grwpiau, gan gynnwys pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn ei dro wedi llywio dyraniad y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'n hymatebion polisi. Un enghraifft o hyn oedd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen (sy'n cael ei gadeirio gan Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru) gyda'r trydydd sector a mudiadau cymunedol yn edrych ar ffyrdd o wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'u hansawdd ar gyfer pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sail i ddatblygiad ein strategaeth iechyd meddwl olynol a amlinellir yng nghwestiwn 18.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Datblygwyd y polisi sy'n gyfrifol am godi'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector gofal cymdeithasol ac ar sail arolygon penodol. Cynhaliwyd asesiad effaith integredig llawn hefyd, a oedd yn ystyried nifer o feysydd gan gynnwys cydraddoldeb a hawliau plant. Yn ogystal, sefydlwyd y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol i weithredu amcanion y Comisiwn

Gwaith Teg ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddodd y Fforwm gyngor i weinidogion ar gyflwyno'r ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol lle byddai pob grŵp a chymuned wedi cael eu hystyried.

Mae'r pandemig wedi datgelu dibyniaeth cymdeithas ar waith sy'n cael ei wneud yn anghymesur gan fenywod fel gofalwyr di-dâl ac fel gweithwyr ym maes gofal a gwaith cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn fenywod dros 40 oed nad ydynt yn annibynnol yn ariannol er eu bod mewn gwaith amser llawn. Bydd sicrhau gwell cyflog drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae'r cynnydd yn y gronfa Cyflog Byw Gwirioneddol eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb gan fod y cynnydd hefyd yn berthnasol i bob grŵp sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr rhan-amser a grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae pobl â phroblemau iechyd parhaus sydd ar absenoldeb salwch, menywod beichiog (a allai hefyd fod wedi cymryd amser i ffwrdd) a rhieni neu warcheidwaid ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu hefyd wedi derbyn y cynnydd os ydynt mewn swyddi cymwys.

Rhaglen Trawsnewid

Er nad yw'n benodol i unrhyw grwpiau neu gymunedau neilltuol, mae'r Rhaglen Trawsnewid drwy gynllun Cymru lachach yn parhau i gefnogi prosiectau peilot trawsnewidiol ar draws nifer o ddisgyblaethau sydd wedi'u hanelu at ymyriadau byr a dwys y gellir eu huwchraddio i lefel genedlaethol a'u hintegreiddio i wasanaethau prif ffrwd pan fydd tystiolaeth bod pobl Cymru yn manteisio o wasanaeth gwell a/neu arbedion ariannol.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau neu rolau a ariennir gan y Prosiect Trawsnewid sy'n benodol i grwpiau neu gymunedau neilltuol:

- **Mislif Fi – (Merched, Pobl Ifanc)** – Nod y Prosiect Trawsnewid yw adeiladu ar lwyddiant y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod (WHIG) o Mislif Fi, yr adnodd i godi ymwybyddiaeth o'r mislif, sy'n grymuso pobl ifanc sy'n cael mislif i ehangu'r sgwrs ynghylch iechyd mislif fel nad oes yn rhaid i bobl ifanc ddioddef yn dawel. Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi ymrwymo i gyllid ychwanegol i gynnal arolwg arall i bobl ifanc (ar ôl covid) i weld beth fyddent

yn hoffi ei weld nesaf, ee addysg mislif ac a yw wedi'i integreiddio yng Nghwricwlwm Cymru, cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol fel sianeli YouTube a phresenoldeb ar TikTok a Snapchat. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r tîm Mislif Fi i ddatblygu cynnwys sy'n ymwneud â 'Pwy sy'n cael mislif' a gweithio'n agos gyda'r tîm cydraddoldeb i sicrhau bod iaith gynhwysol o ran hunaniaeth rhywedd yn cael ei defnyddio, yn ogystal ag adnabod heriau o ran anabledd a diwylliant sy'n gysylltiedig â'r mislif.

- **Secondai i'r Ymddiriedolaeth Addysg ac Iechyd Trofannol (THET) – (Tegwch ym maes gofal iechyd)** – Roedd yr adroddiad *Experts in our Midst: recognising the contribution diaspora NHS staff make to global health*, a gyhoeddwyd yn 2021, yn edrych ar y rôl mae gweithwyr iechyd sydd ar wasgar (a ddiffinnir yn y cyd-destun hwn fel staff y GIG sydd â threftadaeth o wledydd incwm isel a chanolig [LMIC]) yn ei chwarae ym maes gofal iechyd yn y DU ac yn y systemau iechyd mewn gwledydd incwm isel a chanolig. Mae eu cyfraniad yn sylweddol, er enghraifft, dod â phrofiadau a dealltwriaeth ddiwylliannol i'r GIG a dychwelyd cyfraniadau ariannol ac ymarferol i wledydd treftadaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos nad yw'r cyfraniadau hyn yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi'n ddigonol, sy'n cael effeithiau niweidiol ar unigolion, y GIG a systemau iechyd yn fyd-eang. Mae argymhellion yr adroddiad yn annog THET, y GIG, Partneriaethau Iechyd a llywodraethau i ddeall a chefnogi pŵer gweithwyr iechyd sydd ar wasgar yn well. Mae THET yn dadlau bod hyn yn hanfodol i'r GIG o ran datblygu diwylliant cynhwysol a gwrth-hiliol, lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn. Ers ei gyhoeddi, mae'r adroddiad wedi bod yn gwneud cynnydd gyda chyrrff allweddol gan gynnwys Health Education England a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae THET nawr yn datblygu 'rhwydwaith amrywiaeth' i greu aelodaeth amlddisgyblaeth o arweinwyr y GIG, hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth y GIG, a Phartneriaethau Iechyd. Y nod cyffredinol yw bod mudiadau sy'n cymryd rhan yn teimlo ac yn gweld yn well beth yw manteision gwerthfawrogi cysylltiadau ar wasgar gyda gwledydd treftadaeth. Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi ymrwymo cyllid i secondai o GIG Cymru gael ei wreiddio yn y grŵp craidd. Bydd yn adeiladu ar gynllun peilot presennol THET, 'Rhwydwaith Amrywiaeth', gan ddatblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu ar wasgar sy'n cyflawni amcanion ehangach y sefydliad. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau'r manteision gorau posibl i'r GIG ledled y DU

ac i systemau iechyd byd-eang, a bydd yn arwain y gwaith o ryngweithio ag aelodau presennol a darpar aelodau'r Rhwydwaith, gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, cymdeithasau proffesiynol ar wasgar a Phartneriaethau Iechyd, a bydd yn cynnull ac yn cynnal grŵp llywio o arbenigwyr rhyngwladol i arwain y gwaith.

- **Rhaglen Gymorth ar gyfer Diogelwch Newyddenedigol a Mamolaeth – (Menywod, Plant a Phobl Ifanc)** - Mae nifer o ffactorau sy'n sbarduno

newid, gan gynnwys iechyd y boblogaeth a thueddiadau demograffig, yr angen i wella ansawdd, pwysau'r gweithlu a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau amrywiol ac edrych yn fanwl ar y gwasanaeth. Mae adroddiadau ac archwiliadau penodol sy'n dangos problemau sylweddol gyda diogelwch Gwasanaethau Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol yng Nghymru yn cynnwys:

- ❖ ***Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr: Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Ionawr 2019)***

- ❖ **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Adolygiad Cenedlaethol o ansawdd a diogelwch gwasanaeth mamolaeth - Adroddiad Cam Un**

- ❖ Mae tri **adroddiad Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol** wedi cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021 ac mae gan bob un argymhellion i wella diogelwch mamau a babanod:

- 1) **Adroddiad Cenedlaethol y Dull Adolygu Marwolaethau**

Amenedigol – Dysgu o Adolygiadau Safonedig pan fydd Babanod yn Marw cyhoeddwyd 13 Hydref 2021

- 2) **Adroddiad Goruchwylio MBRRACE-UK ar Farwolaethau**

Amenedigol – Marwolaethau Amenedigol yn y DU ar gyfer Genedigaethau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019 cyhoeddwyd 14 Hydref 2021

- 3) **Yr Archwiliad Amenedigol a Mamolaeth** cyhoeddwyd 14 Hydref 2021

Prif sbardun y rhaglen yw gwella diogelwch, profiad a chanlyniadau gofal mamau a babanod newydd-anedig, a darparu cymorth i alluogi timau i ddarparu profiad gofal iechyd o ansawdd uchel i'r holl bobl feichiog, babanod a theuluoedd mewn lleoliadau gofal mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru.

ⁱ Marmot M. Social determinants of health inequalities. Public Health (2005). 365:6

ⁱⁱ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Canllawiau PH55 ar Iechyd y Geg: awdurdodau lleol a phartneriaid (2014) <https://www.nice.org.uk/guidance/ph55>

HEALTH AND SOCIAL SERVICES

RESOURCE BUDGET			£'000													COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reproritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reproritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
Tudalen y pecyn 95	0020	Core NHS Allocations	8,253,211	8,503,211			-3,861		8,611,185	8,703,211			-3,861		8,811,881	
							-1,275				-1,275					
							-1,069				-1,069					
							-754				-754					
							-1,085				-1,085					
							165				165					
							-440				-440					
							-550				-405					
							-5,000				-5,000					
							-55				-55					
							-414				-414					
							-1,405				-1,405					
							-60				-60					
							-68				-68					
							-5,000				-5,000					
							-2,208				-2,208					
							-941				-1,000					
							-3,885				-3,885					
							-589				-589					
							150				150					
							-1,000				-300					
							-4,104				-4,104					
							210				210					
							85				85					
							108				108					
							1,075				1,075					
							1,400				1,400					
							80				80					
							-150				-150					
							1,000				1,000					
		2,901		2,901												
		-1,386		-1,386												
		2,000		2,000												
		-1,399		-1,399												
		-10,000		-10,000												
		-7,280		-7,280												
		-2,500		-2,500												
				-9,722		-9,722										
								165,000						165,000		
								5,000						8,000		
Delivery of Core NHS Services	0020	Core NHS Allocations - Non cash	246,572	246,572					251,572	246,572					254,572	
	0030	Other Direct NHS Allocations	230,465	230,465			440		228,598	230,465			440		228,453	
						550							405			
						222							222			
						55							55			
						414							414			
						60							60			
						2,208							2,208			
						1,000							1,000			

HEALTH AND SOCIAL SERVICES

RESOURCE BUDGET			£'000													COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
Tudalen y pecyn 96							43						43			
							-210						-210			
							150						150			
							-2,022						-2,022			
							-4,777						-4,777			
	0035		Digital Health and Care Wales	46,248	46,248			106		47,629	46,248			106		47,629
								1,275						1,275		
	0035		Digital Health and Care Wales - Non cash	10,603	10,603					10,603	10,603				1,000	11,603
	0050		Health Education Improvement Wales	301,933	301,933			1,069		311,202	301,933			1,069		311,202
								1,085						1,085		
								-165						-165		
								7,280						7,280		
	0050		Health Education Improvement Wales - Non cash	551	551					551	551					551
0045		New BEL NHS Executive	0	0			2,022		13,112	0			2,022		13,112	
							5,000						5,000			
							2,448						2,448			
							1,386						1,386			
							29						29			
							450						450			
							4,777						4,777			
							-3,000						-3,000			
0250		Public Health Wales	128,982	128,982			3,861		136,656	128,982			3,861		136,656	
							3,885						3,885			
							-43						-43			
							-29						-29			
Total Delivery of Core NHS Services			9,218,565	9,468,565	-12,722	0	-14,735	170,000	9,611,108	9,668,565	-12,722	0	-14,184	174,000	9,815,659	
Delivery of Targeted NHS Services	0186		Workforce (NHS)	34,076	34,076			339	34,234	34,076			339		34,234	
								-181					-181			
	0060		A Healthier Wales	80,546	79,646	-8,500		-85	71,061	76,346	-8,500		-85		67,761	
								-40					-40			
								-106					-106			
	0682		Other NHS Budgets (Expenditure)	29,116	28,750			68	22,532	28,939				68	22,721	
								-222						-222		
								-1,000						-1,000		
								-2,448						-2,448		
							-2,000						-2,000			
							-470						-470			
0682		Other NHS Budgets (Income)	-53,000	-53,000					-53,000	-53,000					-53,000	
Total Delivery of Targeted NHS Services			90,738	89,472	-8,500	0	-6,145	0	74,827	86,361	-8,500	0	-6,145	0	71,716	
Support Education & Training of the NHS Workforce	0140		Education and Training	25,790	25,790			754	30,030	25,790			754		30,030	
								-339					-339			
								1,405					1,405			
								-80					-80			

HEALTH AND SOCIAL SERVICES

RESOURCE BUDGET			£'000													COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
							2,500						2,500			
	0185	Workforce Development Central Budgets	1,505	1,505			181		1,686	1,505			181		1,686	
Total Delivery of Targeted NHS Services			27,295	27,295	0	0	4,421	0	31,716	27,295	0	0	4,421	0	31,716	
Support Mental Health Policies and Legislation	0270	Mental Health	88,212	113,212			-5,400						-5,400			
							-5,400						-5,400			
							-150						-150			
							-378					-378				
							-250					-250				
							-14,000					-14,000				
							-108					-108				
							-1,075					-1,075				
							-1,400					-1,400				
							-450					-450				
Total Support Mental Health Policies and Legislation			88,212	113,212	-1,000	0	-28,611	0	83,601	128,212	-1,000	0	-30,673	0	96,539	
Substance Misuse Action Fund	1682	Substance Misuse Action Fund	28,585	28,585			5,400						5,400			
							14,000			47,985	28,585			16,000		49,985
Total Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation			28,585	28,585	0	0	19,400	0	47,985	28,585	0	0	21,400	0	49,985	
Food Standards Agency	0380	Food Standards Agency	5,110	5,110					5,110	5,110					5,110	
Total Food Standards Agency			5,110	5,110	0	0	0	0	5,110	5,110	0	0	0	0	5,110	
Public Health Programmes	0233	Health Promotion	13,204	12,204			-150						-150			
							589			13,643	12,204			589		12,943
							1,000						300			
0232	Targeted Health Protection & Immunisation	6,592	6,592				941						1,090			
										7,533	6,592					7,682
Total Public Health Programmes			19,796	18,796	0	0	2,380	0	21,176	18,796	0	0	1,829	0	20,625	
Health Improvement	0231	Health Improvement & Healthy Working	9,384	9,384			5,400						5,400			
							378						440			
							250			12,011	9,384			250		12,073
							-2,901						-2,901			
Total Health Improvement			9,384	9,384	-500	0	3,127	0	12,011	9,384	-500	0	3,189	0	12,073	
Effective Health Emergency Preparedness Arrangements	0230	Health Emergency Planning	6,007	6,007			40		6,047	6,007			40		6,047	
Total Effective Health Emergency Preparedness Arrangements			6,007	6,007	0	0	40	0	6,047	6,007	0	0	40	0	6,047	
New Action Citizen Voice Body	0220	New BEL Citizen Voice Body	0	0			4,104		5,503	0			4,104		5,503	
Total Citizen Voice Body			0	0	0	0	5,603	0	5,503	0	0	0	5,503	0	5,503	
Develop & Implement R&D for Patient & Public Benefit	0260	Research and Development	42,545	42,545	-1,000				46,545	42,545	-1,000				46,545	
Total Develop & Implement R&D for Patient & Public Benefit			42,545	42,545	-1,000	0	5,000	0	46,545	42,545	-1,000	0	5,000	0	46,545	
Social Care and Support	0460	Safeguarding & Advocacy	3,365	2,365						2,365	2,365				2,365	
							150						150			
0661	Older People Carers & People with Disabilities	3,670	3,670							2,820	3,670				2,820	
							-1,000						-1,000			
Total Social Care and Support			7,035	6,035	0	0	-850	0	5,185	6,035	0	0	-850	0	5,185	

HEALTH AND SOCIAL SERVICES																
RESOURCE BUDGET			£'000													COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
Partnership & Integration	0620	Partnership & Integration	227	227					227	227					227	
	0700	Care Sector	299	299					299	299					299	
	Total Partnership & Integration			526	526	0	0	0	0	526	526	0	0	0	0	526
Sustainable Social Services	0920	Sustainable Social Services	99,715	109,715					109,715	114,715					114,715	
	Total Sustainable Social Services			99,715	109,715	0	0	0	0	109,715	114,715	0	0	0	0	114,715
Social Care Wales	0582	Social Care Wales	25,383	25,383					25,383	25,383					25,383	
	0582	Social Care Wales - Non cash	230	230				-30	200	230				-30	200	
	Total Social Care Wales			25,613	25,613	0	0	0	-30	25,583	25,613	0	0	0	-30	25,583
Supporting Children <i>Tudalen y pecyn 98</i>	0310	Support for Childcare and Play	96,851	99,851					99,851	101,351					101,351	
	0311	Support for Children's Rights	1,020	1,020					1,020	1,020					1,020	
	0410	Supporting Children	4,865	3,865					3,865	3,865					3,865	
	1085	Support for Families and Children	6,720	6,520				-810	5,710	5,870				-810	5,060	
	1087	New BEL Entry CCG BEL Transfer	0	0		160,235	810	10,000	171,045	0		167,685	810	10,000	178,495	
Total Supporting Children			109,456	111,256	0	160,235	10,000	0	281,491	112,106	0	167,685	10,000	0	289,791	
CAFCASS Cymru	1268	CAFCASS Cymru	14,725	14,725			470		15,195	14,725			470		15,195	
	Total CAFCASS Cymru			14,725	14,725	0	0	470	0	15,195	14,725	0	0	470	0	15,195
HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL RESOURCE BUDGET			9,793,307	10,076,841	-23,722	160,235	0	169,970	10,383,324	10,294,580	-23,722	167,685	0	173,970	10,612,513	

CAPITAL BUDGET			£'000													COMMENTS	INVESTMENT AREA(S)
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022		
Delivery of Core NHS Services	0020	Core NHS Allocations	284,219	309,908			2,572		337,480	319,908					319,908		
							25,000										
Total Delivery of Core NHS Services			284,219	309,908	0	0	27,572	0	337,480	319,908	0	0	0	0	319,908		
Substance Misuse Action Fund	1682	Substance Misuse Action Fund	5,072	5,072			-2,572		2,500	5,072					5,072		
Total Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation			5,072	5,072	0	0	-2,572	0	2,500	5,072	0	0	0	0	5,072		
New Action Citizen Voice Body	0220	New BEL Citizen Voice Body	0	0					0	0					0		
Total Citizen Voice Body			0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0		
Social Care Wales	0582	Social Care Wales	20	20					20	20					20		
Total Social Care Wales			20	20	0	0	0	0	20	20	0	0	0	0	20		

HEALTH AND SOCIAL SERVICES																
RESOURCE BUDGET			£'000													COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Budget Reprioritisation	MEG to MEG Transfers	Transfers Within MEG	Allocations to / from Reserves	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
Sustainable Social Services	0920	Sustainable Social Services	50,000	60,000			-25,000		35,000	70,000					70,000	
Total Sustainable Social Services			50,000	60,000	0	0	-25,000	0	35,000	70,000	0	0	0	0	70,000	
HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL CAPITAL BUDGET			339,311	375,000	0	0	0	0	375,000	395,000	0	0	0	0	395,000	

RESOURCE BUDGET - AME			£'000							COMMENTS
Action	BEL No.	BEL Description	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Changes	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Changes	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022	
NHS Impairments	0025	NHS Impairments and Provisions - AME	186,420	190,257	21,921	212,178	127,172	83,611	210,783	
Total NHS Impairments			186,420	190,257	21,921	212,178	127,172	83,611	210,783	
HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL RESOURCE AME BUDGET			186,420	190,257	21,921	212,178	127,172	83,611	210,783	

HEALTH AND SOCIAL SERVICES - SUMMARY	2022-23 Final Budget March 2022	2023-24 Indicative Final Budget March 2022	2023-24 Changes	2023-24 Draft Budget December 2022	2024-25 Indicative Final Budget March 2022	2024-25 Changes	2024-25 Indicative Draft Budget December 2022
Resource	9,793,307	10,076,841	306,483	10,383,324	10,294,580	317,933	10,612,513
Capital	339,311	375,000	0	375,000	395,000	0	395,000
Total Resource & Capital	10,132,618	10,451,841	306,483	10,758,324	10,689,580	317,933	11,007,513
Total AME	186,420	190,257	21,921	212,178	127,172	83,611	210,783
HEALTH AND SOCIAL SERVICES - TOTAL BUDGET	10,319,038	10,642,098	328,404	10,970,502	10,816,752	401,544	11,218,296

Tudalen y pecyn 99

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Dyddiad: 11 Ionawr 2023

Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2023-24 a Chyllideb Derfynol 2022-23.

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
9,468.565	141.673	9,610.238	9,668.565	146.224	9,814.789

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ategu'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chorff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Esboniad o'r Newidiadau i Gyflawni Gweithrediad Gwasanaethau Craidd y GIG Dyraniadau newydd ar gyfer 23-24 a 24-25 (Rheolaidd)

- **£165.000m** - Cyllideb Ddrafft 23-24 a 24-25 ar gyfer cyllid ychwanegol Adnoddau Cyllidol;
- **£5.000m (23-24) a £9.000m (24-25)** - Cyllideb Ddrafft ar gyfer cyllid ychwanegol Adnoddau Anghyllidol.

Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb

- **(£12.722m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **(£15.605m) ar gyfer 23-24 a (£15.054m) ar gyfer 24-25** – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targed					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
89.472	(14.645)	74.827	86.361	(14.645)	71.716

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi cyllidebau iechyd amrywiol eraill gan gynnwys Gweithlu'r GIG, *Cymru Iachach* a chyllidebau iechyd eraill.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targed

Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb

- (£8.500m) – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- (£6.145m) – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymïadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

Cam Gweithredu: Ategu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
27.295	5.291	32.586	27.295	5.291	32.586

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'r GIG yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir i gynorthwyo'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy'n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae mwyafrif yr arian yn y cam gweithredu hwn yn talu am y costau ychwanegol a ysgwyddir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar gyfer addysgu (cynnal) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Yn ogystal, mae'n ategu hyfforddiant nifer o leoliadau hyfforddi ôl-raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academiaidd clinigol. Mae cyllid o fewn y cam gweithredu hwn hefyd yn ategu dyfarniadau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£5.291m** – addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

Cam Gweithredu: Ategu Polisiâu a Deddfwriaeth lechyd Meddwl					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
113.212	(29.611)	83.601	128.212	(31.673)	96.539

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi amrywiaeth o:

- Gamau datblygu a darparu polisi iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), therapïau seicolegol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, cymorth iechyd meddwl amenedigol a chyllid ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector drwy'r grant iechyd meddwl adran 64
- Deddfwriaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Anghenion gofal iechyd grwpiau agored i niwed, (y rhai a ddiffinnir fel rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig) gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymorth i gyn-filwyr, gofal iechyd troseddwy, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sipsiwn a theithwyr ac unigolion trawsryweddol.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaethau Iechyd Meddwl

Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb

- **(£1.000m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **(£28.611m) ar gyfer 23-24 a (£30.673m) ar gyfer 24-25** – addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

Cam Gweithredu: Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
28.585	19.400	47.985	28.585	21.400	49.985

Mae mwyafrif y cyllid camddefnyddio sylweddau yn y cam gweithredu hwn yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Cynllunio Ardal drwy fformiwla cyllido i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau diweddaraf 2019-22.

Esboniad o'r Newidiadau i Gronfa Weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£19.400 ar gyfer 23-24 a £21.400 ar gyfer 24-25** – addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymadau cyllideb 23-24.

Cam Gweithredu: Asiantaeth Safonau Bwyd					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
5.110	0	5.110	5.110	0	5.110

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Darperir y dyraniad cyllideb hwn i gwrdd â chost y blaenoriaethau gwaith a nodir yng 'Nghytundeb Darparu Gwasanaeth Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru' yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Darperir yr arian ar y sail y bydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, lle mae budd ar y cyd, yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i blaenoriaethau, gan gynnwys cymorth parhaus i gyflawni a gweithredu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru, fel y'i sefydlwyd gan Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yn y Gyllideb Derfynol.

Cam Gweithredu: Rhaglenni Iechyd Cyhoeddus					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
18.796	2.380	21.176	15.796	1.829	20.625

Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni iechyd cyhoeddus fel Trawsblannu Organau a Meinwe, Imiwneiddio, Taliadau i Public Health England sy'n darparu nifer o wasanaethau diogelu iechyd arbenigol a rhai gwasanaethau labordy cyfeirio i Gymru, Cychwyn Iach a NICE.

Esboniad o'r Newidiadau i Raglenni Iechyd y Cyhoedd
Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£2.380m ar gyfer 23-24 a £1.829m ar gyfer 24-25** – addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

Cam Gweithredu: Trefniadau Parodrwydd am Argyfwng Iechyd Effeithiol					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
6.007	0.040	6.047	6.007	0.040	6.047

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru yn gwbl barod a chadarn i ddelio â'r holl beryglon a bygythiadau a nodir mewn Aseidiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o bandemig fflw a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.

Esboniad o'r Newidiadau i Drefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfwng Iechyd
Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£0.040m** – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymadau'r gyllideb).

Cam Gweithredu: Corff Llais y Dinesydd					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
0.000	5.503	5.503	0.000	5.503	5.503

Mae Corff Llais y Dinesydd yn gorff annibynnol, newydd a fydd yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng nghyswllt gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd wrth galon sgysiau gyda'r cyhoedd yng Nghymru, gan gydweithio â chyrff y GIG ac awdurdodau lleol, ac ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol eraill i ganfod a chryfhau llais dinasyddion yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Corff Llais y Dinesydd hefyd yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i helpu pobl sydd angen cwyno am y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau Cymdeithasol y maent wedi'u derbyn.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gorff Llais y Dinesydd
Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£5.503m** – ailosod ymrwymadau rheolaidd y gyllideb rhwng Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i greu cyllideb ar gyfer Corff Llais y Dinesydd sydd newydd gael ei sefydlu.

Cam Gweithredu: Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
42.545	4.000	46.545	42.545	4.000	46.545

Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu gwaith Adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n arwain ar strategaeth, polisi, comisiynu, cyllido, rheoli contractau a llywodraethu ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy ei 'brand allanol', Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu yn darparu seilwaith i ategu a chynyddu capasiti mewn Ymchwil a Datblygu, yn rhedeg amrywiaeth o gynlluniau cyllido ymatebol ac yn rheoli adnoddau i hyrwyddo, cynorthwyo a darparu ymchwil. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth ar draws cyllidwyr lle mae'r rhain yn dod â manteision i Gymru. Mae'n cefnogi ymchwil drosi sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwil iechyd cymhwysol ac iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, canfod a gwneud diagnosis o afiechydon; datblygu a gwerthuso ymyriadau; a darparu, trefnu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio i helpu i weithredu canfyddiadau ymchwil yn ymarferol.

Mae gan yr Is-adran gysylltiadau allweddol o fewn Llywodraeth Cymru â thimau Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr sydd â rolau tebyg yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, cynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig, cyllidwyr ymchwil eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd
Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb

- (£1.000m) – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- £5.000m – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymadau'r gyllideb).

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol a Chymorth					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
6.035	-0.850	5.185	6.035	-0.850	5.185

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rolau fel gofalwyr a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ar yr un pryd. Mae hyn yn ganolog i sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth o ddifri wrth gefnogi gofalwyr, ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed gan yr amcangyfrifir bod gofalwyr anffurfiol, di-dâl yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, gofal y byddai'n rhaid ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol fel arall.

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd cyllid i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac yn benodol y Rhaglen Gwellu Bywydau i Bobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddir cyllid hefyd i symud ymlaen o fewn y Fframwaith Gweithredu i Bobl sydd â'r Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu Gofal a Chymorth i Bobl sy'n Fyddar neu sy'n Byw gyda Chollod Clyw.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **(£0.850m)** – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymadau'r gyllideb).

Cam Gweithredu: Partneriaethau ac Integreiddio					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
0.526	0	0.526	0.526	0	0.526

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i helpu i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor ac arweiniad ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn helpu'r gwaith o ystyried ardoll gofal cymdeithasol a fydd yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a chydnerth, drwy ystyried opsiynau i ddarparu'r cyllid y rhagwelir y bydd ei angen yn y dyfodol i ateb y gofynion cynyddol am ofal cymdeithasol o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Derfynol 2022.

Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
109.715	0	109.715	114.715	0	114.715

Mae mwyafrif y Cam Gweithredu hwn yn cyllido'r grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae'r arian yn y Cam Gweithredu hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ategu'r gwaith o gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (RISCA) a gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sy'n cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion yng nghanol yr holl ofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin ymarfer sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cydgynhyrchu, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar.

Ar gyfer 2022-23 mae grant y gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei drosglwyddo i'r cam gweithredu hwn, yn ogystal â'r gronfa newydd ar gyfer Diwygio Gofal Cymdeithasol.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Derfynol 2022.

Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol Cymru					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
25.613	-0.030	25.583	25.613	-0.030	25.583

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar ffurf cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Cyllidir Gofal Cymdeithasol Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, magu hyder ymysg y gweithlu, ac arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae:

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chynorthwyo'r rhai sydd angen help
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da gyda'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru Dyraniadau newydd ar gyfer 23-24 a 24-25 (Rheolaidd)

- **(£0.030m)** - Cyllid Adnoddau Anghyllidol ychwanegol rheolaidd y Gyllideb Ddrafft.

Cam Gweithredu: Cefnogi Plant					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
111.256	170.235	281.491	112.106	177.685	289.791

Mae mwyafrif y cyllid yn y cam gweithredu hwn yn ategu'r cynnig gofal plant (sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid y cam gweithredu hwn ar gyfer Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed, sy'n cynorthwyo plant sydd wedi cael eu mabwysiadu i sicrhau eu bod nhw a'u teulu yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cymorth angenrheidiol i ddechrau eu bywyd teuluol.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cymorth i Blant

Trosglwyddiadau MEG i MEG (Rheolaidd)

- **£160.235m (23-24) a £167.685m (24-25)** – Trosglwyddiad rheolaidd cyllid y Grant Cymunedau a Phlant i mewn i'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£10.000m** – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymadau'r gyllideb).

Cam gweithredu: CAFCASS Cymru					
Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m	Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m	Newid £m	Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m
14.725	0.470	15.195	17.725	0.470	15.195

Mae CAFCASS Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain ar sail galw, sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr CAFCASS Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teulu, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.

Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gael cyswllt â'u plant, ar gyfarwyddyd y Llys Teulu. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu CAFCASS Cymru

Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25

- **£0.470m** – addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymadau'r gyllideb).

Eitem 3.1

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jayne Bryant AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Russell George AS

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

28 Tachwedd 2022

Annwyl Jayne a Russell,

Ddydd Iau 24 Tachwedd cawsom dystiolaeth ar yr effeithiau y mae pwysau costau byw yn eu cael ar sgiliau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Warant i Bobl Ifanc. Fel rhan o hyn clywsom dystiolaeth a allai fod yn berthnasol i waith parhaus eich Pwyllgor:

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical a chymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch.
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Hoffwn dynnu eich sylw at y [trawsgrifiad](#).

Rwy'n bwriadu ysgrifennu at Weinidog yr Economi yn dilyn y sesiwn, a byddwn hefyd yn codi rhai o'r materion a drafodwyd ag ef yn ein sesiwn graffu gyffredinol a drefnwyd ar gyfer 7 Rhagfyr. Byddaf yn anfon copi atoch chi o'm llythyr at y Gweinidog.



Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



—
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddIechyd

0300 200 6565

—
Senedd Cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2022 i roi hysbysiad cynnar am y Rheoliadau uchod, y disgwylir iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2022.

Byddem yn croesawu eglurhad o'r materion a ganlyn (gan gynnwys, pan fo'n briodol) lle y gellir canfod y wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol y rhagwelwn fydd yn cael ei osod ochr yn ochr â'r Rheoliadau ym mis Rhagfyr.

Rhychwant tiriogaethol

Mae eich llythyr yn nodi y bydd y Rheoliadau'n gymwys yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae hefyd yn nodi bod "cydsynio i OS i'r DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd." Fodd bynnag, mae'r llythyr yn awgrymu na fydd Gogledd Iwerddon yn cael ei chynnwys o fewn rhychwant y Rheoliadau.

1. A fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon? Os felly, pa asesiad a wnaed ynghylch i ba raddau y gallai unrhyw ymwahaniad arwain at rwystrau masnach neu faterion iechyd cyhoeddus?

Rydych hefyd yn datgan bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gytûn ynghylch yr amcanion polisi, ac mai eich rhesymeg dros gydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig yw y byddai "gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad, a chymhlethdod diangen o'r llyfr statudau".



2. A yw Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno ei Rheoliadau ei hun yn hyn o beth?
3. Dim ond yn Saesneg y gwneir rheoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU. Rhaid i reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru gael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg. I ba raddau y gwnaethoch ystyried a ddylai deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth wneud eich penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r Rheoliadau?

Fframwaith Cyffredin ar gyfer Labelu Cyfansoddiad a Safonau sy'n Gysylltiedig â Maeth

4. A gafodd y dull gweithredu DU ar y cyd ar gyfer y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r mecanweithiau a nodir yn Fframwaith Cyffredin ar gyfer Labelu Cyfansoddiad a Safonau sy'n Gysylltiedig â Maeth?

Rhesymeg dros y diwygiadau

5. Beth yw'r rhesymeg dros wneud y diwygiadau i'w nodi yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cael ei basio yn ei ffurf bresennol, yna oni bai yr achubwyd y Rheoliadau hyn naill ai gan Weinidogion y DU neu gan Weinidogion Cymru, byddent yn cael eu diddymu'n awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023.

6. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar gyfer y Rheoliadau hyn?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb **erbyn 5 Ionawr 2023**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Russell

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2022 ynglŷn â'r rheoliadau diwygio uchod. Fe wnaf ymdrin â'ch pwyntiau yn eu trefn.

Bydd Memorandwm Esboniadol yn cael ei osod gyda'r Rheoliadau ym mis Rhagfyr, a byddaf yn anfon copi at y Pwyllgor.

1. A fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon? Os felly, pa asesiad a wnaed ynghylch i ba raddau y gallai unrhyw ymwahaniad arwain at rwystrau masnach neu faterion iechyd cyhoeddus?

Ni chynhaliwyd asesiad ffurfiol o ymwahaniad o ran rhwystrau masnach neu iechyd y cyhoedd. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd drwy roi cysondeb ac eglurder i weithgynhyrchwyr, swyddogion gorfodi a'r cyhoedd.

2. A yw Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno ei Rheoliadau ei hun yn hyn o beth?

Mae'r Alban wedi cyflwyno ei rheoliadau ei hun i wneud diwygiadau cyfatebol i Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Yr Alban) 2004.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Dim ond yn Saesneg y gwneir rheoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU. Rhaid i reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru gael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg. I ba raddau y gwnaethoch ystyried a ddylai deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth wneud eich penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r Rheoliadau?

Ystyriais ddewisiadau ar gyfer bwrw ymlaen â'r rheoliadau diwygio arfaethedig, gan gynnwys y dewis i Lywodraeth Cymru ddrafftio Offeryn Statudol (OS) ei hun sy'n rhoi sylw i'r holl ddiwygiadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill Prydain Fawr a'r UE, a gallu gorfodi yn unol â'r rhain, y tro hwn teimlwyd bod angen bwrw ymlaen ar y sail hon. Mae'r OS arfaethedig hwn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r rheoliadau presennol yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd. Nid yw cydsynio i'r OS hwn ar gyfer Prydain Fawr wedi atal Gweinidogion Cymru rhag dilyn trywydd gwahanol os ceir unrhyw gais o'r fath yn y dyfodol, pe ystyrid bod cyfiawnhad dros ddull arall a/neu fod dull arall yn well.

4. A gafodd y dull gweithredu DU ar y cyd ar gyfer y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r mecanweithiau a nodir yn Fframwaith Cyffredin ar gyfer Labelu Cyfansoddiad a Safonau sy'n Gysylltiedig â Maeth?

Do, trafodwyd y dull ar y cyd fel rhan o'r Gweithgor ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth (NLCS). Ar 9 Mawrth 2021, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd Atodiad II i Gyfarwydddeb 2002/46/EC i ganiatáu i fagnesiwm citrad malad fod yn ffurf ar fagnesiwm clorid ac i nicotinamid ribosid clorid fod yn ffurf ar niasin a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd. Yn dilyn y newid deddfwriaethol hwn yn yr UE, bu'r grŵp polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth yn ystyried y diwygiadau, ac, yn dilyn asesiad risg a phrosesau rheoli risg a nodir yn y fframwaith ar gyfer Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth (gan gynnwys asesiad gwyddonol), cafwyd cydsyniad gweinidogol yng nghyd-destun Prydain Fawr i awdurdodi nicotinamid ribosid clorid fel ffurf ar niasin a magnesiwm citrad malad fel ffurf ar fagnesiwm y gellir eu defnyddio mewn atchwanegiadau bwyd.

5. Beth yw'r rhesymeg dros wneud y diwygiadau i'w nodi yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?


Mae dibenion amrywiol i'r diwygiadau hyn. Byddant yn cywiro gwallau: diweddarau'r unedau mesur ar gyfer labelu sinc mewn atchwanegiadau bwyd, a diwygiad a gollwyd yn flaenorol i ychwanegu sinc clorid a bisglycinad fferrus fel ffynonellau a ganiateir o fitaminau a mwynau i'w defnyddio mewn bwydydd babanod wedi'u prosesu (bwydydd babanod) (mae'r olaf yn berthnasol i Loegr yn unig yn y Rheoliadau hyn gan y bydd Rheoliadau ar wahân, ar gyfer Cymru yn unig, yn gwneud y newidiadau cyfatebol i Gymru); i ddefnyddio gwahanol ffynonellau ar gyfer rhai fitaminau a mwynau i'w hychwanegu at atchwanegiadau bwyd, bwydydd babanod a fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol; ac i sicrhau cysondeb o ran labelu rhwng atchwanegiadau bwyd a mathau eraill o fwyd sy'n cynnwys copr. Bydd y diffiniad o weddillion plaladdwyr yn cael ei ddiweddarau o'r derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 (ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad) i ddiffiniad mwy manwl gywir o weddillion a gymerwyd o Reoliad (EC) Rhif 396/2005 (ynghylch y lefelau uchaf o weddillion plaladdwyr mewn bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid, neu ar fwyd a bwyd anifeiliaid o'r fath). Bydd hyn yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb â'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn y ddeddfwriaeth ar gyfer bwyd cyffredinol.

Er mai newidiadau technegol eu natur yw'r rhain, maent hefyd yn sicrhau cysondeb â Phrydain a'r UE ar y materion hyn.

6. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar gyfer y Rheoliadau hyn?

Mae grŵp polisi NLCS wrthi'n ystyried y ffordd orau o drafod dyfodol gwaith bil Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Bil Protocol Gogledd Iwerddon ac a ddylai hyn gael ei wneud drwy'r grŵp presennol neu drwy is-grŵp ar wahân gyda'r cydweithwyr priodol.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Lynne Neagle AS
Dirprwy weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd ynghylch Rheoliadau arfaethedig Llywodraeth y DU.

Yn eich llythyr rydych yn nodi:

"Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS i'r DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn y sefyllfa hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn."

Byddem yn croesawu eglurhad o'r materion a ganlyn:

1. A allwch egluro pam eich bod yn credu y byddai rheoliadau dwyieithog ar wahân ar gyfer Cymru yn unig, a wneir ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, yn arwain at "[g]ymhlethdod diangen o'r llyfr statud"?
2. A fydddechystal â chadarnhau bod y Rheoliadau yn offeryn statudol ar gyfer Prydain gyfan a'u bod wedi'u bwriadu, o'ch safbwynt chi, i fod yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol Prydain Fawr yn hytrach na fframwaith i Gymru neu, fel y mae eich llythyr yn ei awgrymu, fframwaith y DU?

3. A yw'r holl ddeddfwriaeth yn y maes polisi hwn yn gymwys ledled Prydain Fawr neu a oes gwahaniaethau?
4. Mae eich llythyr yn cyfeirio at welliannau sy'n cael eu gwneud. A allwch roi manylion mwy penodol am bob un o'r gwelliannau hyn (gan fod y termau "diweddarau" a "safoni" yn gymharol annelwig)?
5. Beth yw'r rhesymeg dros wneud y gwelliannau a nodir yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?
6. Beth yw eich barn ynghylch a fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at fod yn wahanol i safonau'r UE ar gyfer cynhyrchion tebyg?
7. Beth yw eich barn ynghylch a yw'r Rheoliadau yn gwella safonau bwyd cyn Brexit?
8. A allwch gadarnhau a gafodd y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r Fframwaith neu'r Fframweithiau Cyffredin perthnasol ac, os felly, pa rai?
9. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo hygyrchedd y ddeddfwriaeth hon i'r rhai y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys dinasyddion Cymraeg eu hiaith o ystyried bod y Rheoliadau yn Saesneg yn unig?
10. A allwch gadarnhau pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal â rhanddeiliaid Cymru ar y Rheoliadau hyn?
11. Sut yr effeithir ar y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU yn dod yn gyfraith, yn enwedig os oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?
12. Wrth gytuno i reoliadau ar gyfer Prydain gyfan, pa drafodaethau a gawsoch ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a beth oedd y canlyniad?
13. O ystyried bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i'r cymal machlud ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a wnaethoch ystyried gwneud deddfwriaeth ar wahân i Gymru y tu allan i fframwaith y Bil?
14. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailedrych ar y Rheoliadau hyn os daw Bil Cyfraith yr UE yn gyfraith?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 5 Ionawr 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.



Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr.

Byddaf yn ymdrin â phob pwynt yn ei dro.

A allwch egluro pam eich bod yn credu y byddai rheoliadau dwyieithog ar wahân ar gyfer Cymru yn unig, a wneir ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, yn arwain at “[g]ymhlethdod diangen o’r llyfr statud”?

Ystyriais ddewisiadau ar gyfer bwrw ymlaen â’r Rheoliadau diwygio arfaethedig, gan gynnwys y dewis i Lywodraeth Cymru ddrafftio Offeryn Statudol (OS) ei hun sy’n rhoi sylw i’r holl ddiwygiadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill Prydain Fawr a’r UE, a gallu gorfodi yn unol â’r rhain, y tro hwn teimlwyd bod angen bwrw ymlaen ar y sail hon. Mae’r OS arfaethedig hwn yn gwneud mân ddiwygiadau i’r Rheoliadau presennol yn hytrach na chreu unrhyw bolisi newydd.

Nid yw cydsynio i’r Offeryn Statudol hwn ar gyfer Prydain Fawr wedi atal Gweinidogion Cymru rhag dilyn trywydd gwahanol ar ôl cael unrhyw gais o’r fath yn y dyfodol, pe ystyrid bod cyfiawnhad dros ddull arall a/neu fod dull arall yn well.

A fydddech cystal â chadarnhau bod y Rheoliadau yn offeryn statudol ar gyfer Prydain gyfan a’u bod wedi’u bwriadu, o’ch safbwynt chi, i fod yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol Prydain Fawr yn hytrach na fframwaith i Gymru neu, fel y mae eich llythyr yn ei awgrymu, fframwaith y DU?

Mae’r Offeryn Statudol hwn ar gyfer Prydain Fawr yn gwneud mân ddiwygiadau ac yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol i Brydain Fawr. Mae hyn yn gyson â’r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â diwygiadau deddfwriaethol blaenorol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen diwygiadau hefyd drwy’r Rheoliadau Bwyd Babanod yng Nghymru gan Weinidogion Cymru, drwy ddeddfwriaeth Gymreig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 122
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

A yw'r holl ddeddfwriaeth yn y maes polisi hwn yn gymwys ledled Prydain Fawr neu a oes gwahaniaethau?

Nid yw'r holl ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn cael ei gwneud ar sail Prydain Fawr gan fod rhai pŵerau gwneud rheoliadau wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Yn yr achosion hynny, byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau diwygio penodol i Gymru.

Mae eich llythyr yn cyfeirio at welliannau sy'n cael eu gwneud. A allwch roi manylion mwy penodol am bob un o'r gwelliannau hyn (gan fod y termau "diweddar" a "safoni" yn gymharol annelwig)?

Bydd y diwygiadau hyn yn cywiro gwallau: diweddarau'r unedau mesur ar gyfer labelu sinc mewn atchwanegiadau bwyd, a diwygiad a gollwyd yn flaenorol i ychwanegu sinc clorid a bisglycinad fferrus fel ffynonellau a ganiateir o fitaminau a mwynau i'w defnyddio mewn bwydydd babanod wedi'u prosesu (bwydydd babanod) (mae'r olaf yn berthnasol i Loegr yn unig yn y Rheoliadau hyn gan y bydd Rheoliadau ar wahân, ar gyfer Cymru yn unig, yn gwneud y newidiadau cyfatebol i Gymru); i ddefnyddio gwahanol ffynonellau ar gyfer rhai fitaminau a mwynau i'w hychwanegu at atchwanegiadau bwyd, bwydydd babanod a fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol; ac i sicrhau cysondeb o ran labelu rhwng atchwanegiadau bwyd a mathau eraill o fwyd sy'n cynnwys copr. Bydd y diffiniad o weddillion plaladdwyr yn cael ei ddiweddarau o'r derminoleg a ddefnyddir yn Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 (ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad) i ddiffiniad mwy manwl gywir o weddillion a gymerwyd o Reoliad (EC) Rhif 396/2005 (ynghylch y lefelau uchaf o weddillion plaladdwyr mewn bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid, neu ar fwyd a bwyd anifeiliaid o'r fath). Bydd hyn yn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb â'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn y ddeddfwriaeth ar gyfer bwyd cyffredinol.

Beth yw'r rhesymeg dros wneud y gwelliannau a nodir yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?

Pwrpas y diwygiadau hyn yw sicrhau cysondeb parhaus â Phrydain Fawr a'r UE ar y materion hyn.

Beth yw eich barn ynghylch a fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at fod yn wahanol i safonau'r UE ar gyfer cynhyrchion tebyg?

Mae'r UE wedi gwneud deddfwriaeth i wneud yr un diwygiadau sydd eisoes yn gymwys mewn rheoliadau maeth cyfatebol ar draws yr UE.

Beth yw eich barn ynghylch a yw'r Rheoliadau yn gwella safonau bwyd cyn Brexit?

Mae'r diwygiadau hyn yn dechnegol o ran natur ac yn cywiro gwallau yn unig, gan anelu at ddiogelu grwpiau penodol o ddefnyddwyr hygwyf drwy reoleiddio cynnwys a dull marchnata cynhyrchion bwyd sydd wedi'u creu a'u marchnata iddynt hwy yn benodol, sy'n cyd-fynd â'r UE ar y materion hyn.

A allwch gadarnhau a gafodd y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r Fframwaith neu'r Fframweithiau Cyffredin perthnasol ac, os felly, pa rai?

Do, trafodwyd y dull ar y cyd fel rhan o'r Gweithgor ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth. Ar 9 Mawrth 2021, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/46/EC i ganiatáu i fagnesiwm citrad malad fod yn ffurf ar fagnesiwm clorid ac i nicotinamid ribosid clorid fod yn ffurf ar niasin a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd. Yn dilyn y newid deddfwriaethol hwn yn yr UE, bu'r grŵp polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth yn ystyried y diwygiadau, ac, yn dilyn asesiad risg a phrosesau rheoli risg a nodir yn y fframwaith ar gyfer Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth (gan gynnwys asesiad gwyddonol), cafwyd cydsyniad gweinidogol yng nghyd-destun Prydain Fawr i awdurdodi nicotinamid ribosid clorid fel ffurf ar niasin a magnesiwm citrad malad fel ffurf ar fagnesiwm y gellir eu defnyddio mewn atchwanegiadau bwyd.

Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo hygyrchedd y ddeddfwriaeth hon i'r rhai y mae'n effeithio arnynt, gan gynnwys dinasyddion Cymraeg eu hiaith o ystyried bod y Rheoliadau yn Saesneg yn unig?

Mae'r Rheoliadau wedi'u hanelu at fyd busnes a gweithgynhyrchu cynhyrchion ac maent yn dechnegol eu natur, ond bydd gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei wneud gyda'r rhanddeiliaid perthnasol a bydd gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei darparu ar wefan Llywodraeth Cymru.

A allwch gadarnhau pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal â rhanddeiliaid Cymru ar y Rheoliadau hyn?

Ar y cyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, lansiodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ymgynghoriad tair wythnos ledled y DU, gan wahodd sylwadau ynghylch y dull gweithredu arfaethedig oddi wrth y diwydiant bwyd a maeth, grwpiau cynrychioliadol, y cyhoedd, a phartïon eraill â buddiant.

Sut yr effeithir ar y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU yn dod yn gyfraith, yn enwedig os oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

Rydym mewn trafodaethau cynnar â Llywodraethau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch goblygiadau'r Bil hwn ond nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i ymwahanu o ran polisi.

Wrth gytuno i reoliadau ar gyfer Prydain gyfan, pa drafodaethau a gawsoch ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a beth oedd y canlyniad?

Ni chafodd hynny ei ystyried fel rhan o'r OS diwygio hwn. Fodd bynnag, mae'r grŵp polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maeth wrthi'n ystyried y ffordd orau o drafod dyfodol y gwaith ynghylch Biliau Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Phrotocol Gogledd Iwerddon, ac a ddylid gwneud hyn drwy'r grŵp presennol neu drwy is-grŵp ar wahân gyda'r cydweithwyr priodol.

O ystyried bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i'r cymal machlud ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a wnaethoch ystyried gwneud deddfwriaeth ar wahân i Gymru y tu allan i fframwaith y Bil?

Nid ystyriwyd gwneud deddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru y tu allan i'r fframwaith. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn y maes hwn yn destun cymal machlud a'i bod, yn hytrach, yn cael ei chadw neu ei "chymathu" o dan y Bil.

A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailedrych ar y Rheoliadau hyn os daw Bil Cyfraith yr UE yn gyfraith?

Nac ydy. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ailedrych ar y Rheoliadau hyn.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Yr holl Aelodau

Drwy e-bost

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Aelod,

Blaenoriaethu Busnes Pwyllgorau

Yng nghyfarfodydd diweddar Fforwm y Cadeiryddion, mae pryderon wedi cael eu codi bod lleiafrif o Aelodau, ar adegau, yn blaenoriaethu ymrwymadau eraill ar draul busnes eu pwyllgorau.

Cafodd Canllawiau diwygiedig ar Drafodion Rhithwir a Hybrid, gan gynnwys trafodion pwyllgorau eu cylchredeg yn ddiweddar. Hoffwn atgoffa Aelodau hefyd o bwysigrwydd neilltuo amser ar gyfer busnes pwyllgorau.

Mae absenoldeb achlysurol o gyfarfodydd pwyllgorau yn rhywbeth a ragwelir yn ein trafodion, ond pan fydd Aelodau yn absennol, disgwylir iddynt anfon dirprwy ar eu rhan i osgoi tarfu ar fusnes y pwyllgorau.

Un mater, a ddisgrifiwyd gan Gadeiryddion, yw bod rhai aelodau pwyllgor yn rheolaidd yn gadael ar ddiwedd rhan gyhoeddus cyfarfod. Golyga hyn eu bod yn absennol ar gyfer unrhyw eitemau agenda preifat a drefnwyd ar gyfer diwedd cyfarfod. Mae hyn yn amharu ar waith rhai pwyllgorau.

Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi cymeradwyo adroddiad yr Athro Diana Stirbu: Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau.

Fel rhan o'i gwaith, ystyriodd yr Athro Stirbu nodweddion effeithiolrwydd pwyllgorau. Un nodwedd sy'n codi o'i hymchwil yw:

Mae gan bwyllgorau effeithiol Aelodau sydd wedi ymgysylltu â'u gwaith yn llawn ac maent â diddordeb ynddo. Mae'r aelodau'n barod, yn gwrando ac yn cefnogi ei gilydd mewn sesiynau pwyllgor.

Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn disgwyl i aelodau pwyllgorau ymwneud yn llawn â phob agwedd ar waith eu pwyllgorau, a rhoi mwy o flaenoriaeth i'w gwaith pwyllgor nag i'w hymrwymiaadau eraill am y cyfnod llawn y bydd pwyllgor yn cyfarfod (gan gynnwys unrhyw eitemau preifat a drefnwyd). Mae hyn yn hanfodol os yw pwyllgorau am gyflawni eu hamcanion mewn modd effeithiol.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd aelod yn methu ag ymgysylltu'n llawn â gwaith pwyllgor am resymau dilys. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai Aelod drafod y mater â Chadeirydd y pwyllgor perthnasol. Gall Cadeirydd y pwyllgor bwysu a mesur y mater o safbwynt cefnogi'r Aelod ac o safbwynt cyflawni amcanion y pwyllgor.

Yn gywir,



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

16 Tachwedd 2022

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Rwy'n ysgrifennu atoch o ystyried eich cyfrifoldeb personol dros Raglen Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu'n fawr fod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 pwyllgorau cyn i ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal a chyn ei bod yn ofynnol i'r Senedd gytuno ar Benderfyniad Ariannol.

Rôl y Pwyllgor Cyllid yw ystyried goblygiadau ariannol Biliau ac mae ein hadroddiadau yn aml yn dod i'r casgliad ein bod yn fodlon â'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ochr yn ochr â Biliau'r Llywodraeth, yn amodol ar ymrwymiad gan y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth ariannol bellach yr ydym yn gofyn amdani. Gan fod y cynnig i gytuno ar Benderfyniad Ariannol fel arfer yn digwydd yn syth ar ôl i'r cynnig Cyfnod 1 gael ei dderbyn, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod darparu ymateb ffurfiol i'n hargymhellion yn golygu bod gofyn i'r Senedd gytuno i ymrwymo adnoddau cyn bod barn y Gweinidog yn hysbys. Rydym o'r farn bod hyn yn annerbyniol ac mae'n tansellio'r broses graffu.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried goblygiadau ariannol yr holl Filiau sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y Senedd hon, ac eithrio'r Bil cydgrynhoi sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau. Yn ein gwaith craffu ar y Bil cyntaf a gyflwynwyd, y *Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)*, gwnaethom nodi ein disgwyliadau ar gyfer y Senedd hon y dylai Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl o gostau a buddion i'n galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Roedd hyn yn adeiladu ar faterion a nodwyd yn Adroddiad Gwaddol Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd sy'n nodi disgwyliadau pellach o ran cyflwyno gwybodaeth ariannol y dylai pob Bil gadw ati.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

Yn ddiweddar, cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion ar *Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)*. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog wedi "cytuno mewn egwyddor" mewn llawer o achosion i ddarparu'r wybodaeth ariannol bellach y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, mae'r rhaglith yn awgrymu bod swyddogion y Gweinidog yn asesu dichonoldeb diweddarau'r gost wreiddiol ac, os ydyn nhw'n gallu, "bydd unrhyw waith yn cymryd o leiaf chwe mis i'w gwblhau". Hyd yn oed os bydd y costau'n cael eu diweddarau, mae'n debygol y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith ddeddfwriaethol drwy'r Senedd erbyn i'r wybodaeth fod ar gael.

Yn syml, nid yw hyn yn ddigon da. Nid yw'n ddefnyddiol cael y wybodaeth hon ar ôl i'r Senedd eisoes gytuno ar y Penderfyniad Ariannol. Mae hefyd yn tansellio ymdrechion y Pwyllgor sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r risg yn sylweddol y bydd y Senedd yn pasio deddfau gwael, gyda chanlyniadau ariannol ansicr a allai roi pwysau sylweddol ar gyllidebau sydd eisoes dan bwysau.

Gofynnwn felly i Weinidogion ddychwelyd at yr arfer blaenorol a darparu ymateb ysgrifenedig i argymhellion y Pwyllgor Cyllid cyn dadl Cyfnod 1 ac ystyried Penderfyniad Ariannol fel mater o egwyddor. Bydd hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas ag ymrwymo adnoddau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddosbarthu'r llythyr hwn i'ch cydweithwyr yn y cabinet. Rwyf hefyd yn anfon copi at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y pwyllgorau polisi.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.



We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Peredur,

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr ar 16 Tachwedd 2022 ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth.

Mae eich llythyr yn tynnu sylw at y pryder bod Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o'r arfer yn y Bumed Senedd o ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 cyn dadl yr Egwyddorion Cyffredinol a Phenderfyniad Ariannol.

Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond nid pob un, maent wedi rhoi mwy o fanylion drwy lythyr ffurfiol.

Er y bu achlysuron yn ystod y Bumed Senedd pan gyhoeddwyd ymatebion y Llywodraeth cyn neu ar ddyddiad dadl yr Egwyddorion Cyffredinol, nid oedd hyn yn rhywbeth arferol ar gyfer pob Bil. Mewn gwirionedd, cyhoeddwyd dros hanner yr ymatebion yn ysgrifenedig ar ôl y ddadl neu fe'u darparwyd ar lafar yn ystod y ddadl.

Mae Gweinidogion yn ymdrechu i ymateb i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ond nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion Cymru wneud hyn cyn dadl Cyfnod 1 ar gyfer pob Bil, felly yn ymarferol mae'n bosibl y darperir yr ymatebion ysgrifenedig hyn ar ôl i'r ddadl ddigwydd.

Efallai y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried goblygiadau'r argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn dadl Cyfnod 1. Yn ogystal, gall y ddeddfwriaeth fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth ac er ein bod yn anelu at ddarparu'r amcangyfrifon gorau o'r costau tebygol, mae sefyllfa oedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ile mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a'i hasesu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i roi gwybod i'r Pwyllgor Cyllid am yr wybodaeth ariannol sy'n ymwneud â phob Bil wrth iddynt fynd drwy wahanol gamau'r broses graffu yn y Senedd.

Yn ogystal, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau â'r arfer a sefydlwyd yn ystod y Bumed Senedd o ysgrifennu at y Pwyllgorau pwnc a'r Pwyllgor Cyllid cyn gweithrediadau Cyfnod 3 o Fil os gwnaed newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ateb hwn hefyd i'r Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Brif Weinidog

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Diolch am eich llythyr dyddiedig **7 Rhagfyr**, a anfonwyd gennych mewn ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd i'r arfer o ddarparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 gan bwyllgorau cyn i'r ddadl Cyfnod 1 gael ei chynnal.

Mae'n siomedig nad ydych yn gallu rhoi ymrwymiad mewn perthynas â'r cais rhesymol hwn. Rydych yn dweud yn eich llythyr: "Yn ystod dadl Cyfnod 1 y mae Gweinidogion yn rhoi esboniad o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion ym mhob adroddiad Pwyllgor". Fodd bynnag, rydym o'r farn na ddylid ystyried y dull hwn yn arfer cyffredin, gan nad yw bob amser yn bosibl i Weinidogion ddarparu ymateb llawn a thrylwyr i bob argymhelliad, o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael yn ystod y ddadl ei hun. Fel y nodais yn fy llythyr cychwynnol, yr arfer safonol yw bod y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol yn cael ei drafod yn syth ar ôl cytuno ar y cynnig Cyfnod 1. Felly, ychydig iawn o amser sydd gan y Senedd i ystyried ymateb y Llywodraeth cyn gorfod gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid ymrwymo adnoddau.

Rydych hefyd yn nodi'r posibilrwydd y bydd amgylchiadau pan fo angen mwy o amser i ystyried rhai argymhellion neu pan nad yw'r manylion sydd eu hangen i ddarparu ymateb cyflawn ar gael cyn cynnal dadl Cyfnod 1. O ystyried bod yr amserlenni ar gyfer Biliau'r Llywodraeth yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ar y dyddiadau cau ar gyfer Cyfnodau 1 a 2, dylid ystyried rhoi'r gorau i'r arfer o bleidleisio ar y cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol ar yr un diwrnod â'r ddadl Cyfnod 1. Gwnaed penderfyniad tebyg yn y Pedwerydd Cynulliad, gan wrthdroi'r sefyllfa ddiodyn er mwyn gohirio'r bleidlais ar y cynnig Cyfnod 4 hyd nes bod wythnos wedi mynd heibio ar ôl i'r trafodion Cyfnod 3 ddod i ben, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau drafod



fersiwn derfynol o'r Bil cyn gofyn i'r Senedd ei chymeradwyo. Rydym o'r farn y dylai'r un egwyddor fod yn berthnasol i'r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol. Byddai hyn yn rhoi amser i'r Aelodau fyfyrion ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Rydym o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad oes gan y Senedd unrhyw gyfleoedd pellach i ystyried goblygiadau ariannol Biliau yn ffurfiol ar ôl i'r cynnig gael ei gytuno.

Yn olaf, rydych yn nodi y gallai deddfwriaeth "fod yn fath newydd o ddeddfwriaeth", ac y gallai fod "sefyllfaoedd lle mae sawl ffactor amrywiol yn golygu nad oes modd cyfrifo costau manwl nes bod y ddarpariaeth yn cael ei phrofi a'i hasesu". Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru beidio â cheisio cyfrifo costau posibl deddfwriaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn arf allweddol o ran asesu'n feirniadol yr ystod o ddulliau a archwiliwyd mewn perthynas â datblygu cynnig deddfwriaethol, ac o ran darparu dull o wneud penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cydnabod y ffaith na fydd yn bosibl darparu "costau manwl" bob amser. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion, a hynny er mwyn ein galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil – pwynt y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud droeon.

Rydym yn gresynu'r ffaith ei bod yn ymddangos bod yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sydd wedi cael eu cyhoeddi gyda'r Biliau a gyflwynwyd hyd yma yn y Senedd hon yn rhyw fath o "sgil-gynnyrch" yn y broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na'r offeryn sy'n llywio'r broses honno. Mae'r Bil diweddaraf a drafodwyd gennym, sef y Bil Amaeth (Cymru), yn Fil fframwaith, lle mae cyfran sylweddol o'r costau yn ymwneud â'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy – cynllun na fydd yn cael ei gwblhau tan y flwyddyn nesaf. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai'r Senedd gytuno yn y pen draw ar Benderfyniad Ariannol ar gyfer Bil, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd adeg ei gyflwyno, ond a allai gynyddu'n sylweddol yn dilyn hynny. Mae'r diffyg eglurder hwn yn gwneud ein rôl fel Pwyllgor Cyllid yn un heriol iawn, ac yn amharu'n sylweddol ar ein gallu i wneud penderfyniad ynghylch a yw costau'n rhesymol ai peidio.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cynnwys gwybodaeth anghyflawn neu annigonol, ni fyddai gan y Pwyllgor lawer o ddewis ond gorfodi Gweinidogion i ailymddangos gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael, a hynny er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn destun gwaith craffu cadarn.

Fel y gwyddoch, mae nifer o bwyllgorau'r Senedd wedi codi pryderon tebyg ynghylch prydlondeb ymatebion Llywodraeth Cymru cyn cynnal dadleuon Cyfnod 1. Mae hyn yn creu darlun anffodus, ac yn codi cwestiynau ynghylch



ysbryd y gwaith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r Senedd mewn perthynas â materion deddfwriaethol. Felly, rwyf yn gofyn i chi fyfyrion ar y materion uchod ac i ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch darparu ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid cyn y cynhelir dadleuon Cyfnod 1, ac i ystyried cyflwyno'r cynnig ynghylch y Penderfyniad Ariannol o leiaf wythnos ar ôl i ddarpariaethau Cyfnod 1 gael eu cytuno. O ystyried y pwysau ar gyllidebau cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder a sicrwydd â phosibl cyn gofyn i Aelodau awdurdodi gwariant sy'n gysylltiedig â Biliau.

Gan fod y materion hyn yn berthnasol i gylchoedd gwaith holl bwyllgorau'r Senedd, mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Finance Committee**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddCyllid

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddFinance@senedd.wales

senedd.wales/SeneddFinance

0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a
Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Cyllideb Ddrafft 2023-24

Ysgrifennais atoch cyn toriad yr haf mewn perthynas â gwaith ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb a dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb sydd i ddod. Ysgrifennaf yn awr i roi diweddariad pellach ar y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Ymgynghoriad

Ar ddechrau tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i geisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Cawsom 29 o ymatebion ac mae'r rhain ar gael ar [wefan y Pwyllgor Cyllid](#).

Amserlen

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni oherwydd Datganiad Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r fersiynau amlinellol a manwl o'r Gyllideb Ddrafft gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr am sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Gyllideb Ddrafft.



Ffocws y Gyllideb

Mae Cyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith argyfwng costau byw ac anghydraddoldeb rhywiol;
- y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau yn ystod digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi – beth yw'r blaenoriaethau a pha mor addas yw'r cymorth presennol o ystyried cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, yng Nghymru?

- Rhestrau aros y GIG – a oes tystiolaeth o gynllun cadarn, wedi'i ategu gan adnoddau digonol, i fynd i'r afael â'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth gan y GIG sydd wedi'i chynllunio neu nad yw'n fater brys, a yw'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?
- plant a phobl ifanc – a yw digon o arian yn cael ei ddarparu a'i gyfeirio'n briodol i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, eu datblygiad, eu hiechyd meddwl a'u llesiant?
- materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys sut y gallant wneud arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.
- yr economi a seilwaith – a yw'r cynlluniau cywir yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi busnesau ac economi Cymru, sut mae Llywodraeth Cymru yn galluogi Cymru i ffynnu ar ôl COVID-19 a Brexit?
- sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a datblygu economïau gwledig?
- creu Cymru wyrddach – a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i symud i economi wyrddach yn glir ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau? A oes angen diwygio'r cynlluniau hyn i adlewyrchu'r brys cynyddol i leihau'r ddibyniaeth ar nwy ac olew o ystyried y rhyfel yn Wcráin?
- y trydydd sector a gwirfoddoli – sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau'r trydydd sector wrth iddynt fynd i'r afael â heriau ariannol a galw cynyddol am rai gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?
- trethiant - sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi a benthyca ac a ydych yn teimlo y dylid ehangu'r pwerau hyn, eu cadw'r un fath neu eu lleihau?

Gobeithiwn y bydd yr [ymgyngoriad](#) a'r [gwaith ymgysylltu](#) yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws ar gyfer eich gwaith craffu ar y gyllideb.

Protocol Proses y Gyllideb

Fel y crybwyllwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y bu oedi, sydd wedi arwain at gyfnodau craffu cwtogedig i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn, felly, ei bod yn bryd adolygu [Protocol Proses y Gyllideb](#) a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y protocol lawer o fanteision, ond credwn fod angen ei ddiweddarau i



adlewyrchu arferion sefydledig a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft oherwydd amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rwyf [wedi ysgrifennu](#) at y Gweinidog yn ddiweddar yn cynnig newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu cyn y Gyllideb a gwaith craffu'r Pwyllgor; a
- darparu mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi mynegi parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn barnu bod y newidiadau hyn yn gymesur. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y mater hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith cyn cylch cyllideb 2024-25.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Russell,

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ('y Bil') i Senedd y DU. Pe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'n rhoi ar waith gynllun Llywodraeth y DU i ddargadw, dirymu neu ddiwygio miloedd o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir. Byddai hefyd yn dechrau'r cloc ar y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023, pan fydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dod i ben yn awtomatig oni bai bod Gweinidogion yn cymryd camau i'w achub neu ei ddiwygio. Yr hyn sy'n destun pryder i ni, fel deddfwyr, yw'r ffaith y byddai'r Bil yn galluogi Gweinidogion, yn hytrach na seneddau, i newid tirwedd reoleiddio a chyfreithiol y DU yn sylweddol.

Mae fy Mhwyllgor i, ers peth amser, wedi bod yn cadw llygad ar gynllun Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwnaethom ddechrau gofyn cwestiynau i Lywodraeth Cymru rai misoedd yn ôl.

Gyda'r Bil yn cael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU, a chan ragweld y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r memorandwm cydsyniad sy'n debygol o fod yn angenrheidiol, cytunodd fy Mhwyllgor i glywed barn rhanddeiliaid yng Nghymru a ledled y DU. Gofynnwyd am safbwyntiau ar nifer o faterion gan gynnwys i ba raddau y gallai'r Bil effeithio ar dirwedd reoleiddiol Cymru; pa rôl ddylai fod gan y Senedd o ran dirymu a diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig; penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys peidio â ffurfio ei barn ei hun ar yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn sydd wedi'i gadw;



ac a allai'r Bil gyflwyno cyfyngiadau newydd i Lywodraeth Cymru, sydd am wella'r safonau a oedd ar waith cyn Brexit, lle bo modd.

Amgaeir y cyflwyniadau a gawsom gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Chonffederasiwn GIG Cymru. Credwn y gallai'r dystiolaeth hon fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor.

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil, ac mai fy Mhwyllgor i sydd â'r prif gyfrifoldeb am graffu ar y memorandwm.

Yn ein cyfarfod ddydd Llun 5 Rhagfyr, cawsom dystiolaeth gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, mewn perthynas â'r Bil a memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Efallai yr hoffech nodi bod y Cwnsler Cyffredinol wedi ailadrodd ei bryderon y gallai gweithredu'r Bil, pe bai'n cael ei basio a'i ddeddfu, lethu llywodraethau'r DU. Efallai yr hoffech nodi hefyd y cafodd pryderon ynghylch y goblygiadau i Fusnes y Senedd ac i raglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru eu trafod hefyd.

Rwy'n ysgrifennu at bwyllgorau eraill y Senedd i dynnu sylw at y dystiolaeth a gawsom sy'n dod o fewn cylch gwaith a buddiannau eu Pwyllgorau.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

SeneddLJC@senedd.wales

18 Tachwedd 2022

Cyfeirnod: MC2022/00298

Annwyl Weinidog / Annwyl Mr Irranca-Davies

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais yn gofyn i randdeiliaid wneud sylwadau ar y darpariaethau ym Mhil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar y Bil a memoranda cydsynio deddfwriaethol dilynol Llywodraeth Cymru.

Mae datganoli yn golygu bod cyfrifoldeb dros ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid wedi trosglwyddo o lywodraeth y DU i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae hyn yn golygu bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a chynghori Gweinidogion Cymru ar y meysydd hyn. Mae ein hymrwymiad i weithio ar draws y pedair gwlad yn sicrhau y gallwn ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr yn effeithiol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan weithio gyda Safonau Bwyd yr Alban.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil yn bwriadu dirwyn i ben Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) yn awtomatig ar ddiwedd 2023, oni bai bod Gweinidogion yn cytuno i'w hystyngiadau, ei chadw, ei diwygio neu ei haildatgan. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys yr opsiwn i ymestyn REUL i ganiatáu diwygio yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), rydym yn glir na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd. Er fy mod yn siŵr nad dyma yw bwriad y Llywodraeth gyda'r cynlluniau hyn, mae'r amserlen bresennol yn peri peth pryder i mi. Bydd angen i ni weithio drwy fwy na 150 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, y mae 39 ohonynt yn benodol i Gymru, yn gyflym iawn, a chynghori gweinidogion ar y ffordd orau o ymgorffori rheolau pwysig sy'n diogelu diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd yn ein deddfwriaeth ddomestig.

Ein prif flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod gan bobl fwyd y gallant ymddiried ynddo. Rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn gyfle i adolygu a diwygio'r cyfreithiau hyn fel bod busnesau'n cael eu rheoleiddio yn y ffordd gywir i'w galluogi i ddarparu bwyd diogel y gellir ymddiried ynddo, i fasnachu'n rhyngwladol, ac i dyfu.

Lloriau 6 a 7, Clive House
70 Petty France, Llundain SW1H 9EX
E-bost:

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING



I gael gwybodaeth am gleientiaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cliciwch [yma](#) / I gael gwybodaeth am Bolisi Preifatrwydd yr ASB, cliciwch [yma](#).

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn trin eich data personol, cliciwch [yma](#) neu ewch i <https://www.food.gov.uk/cv/about-us/rhybudd-preifatrwydd-gohebiaeth-y-swvddfa>.
[Eich](#) dewis

Maes o law, credwn mai Bil Bwyd a Bwyd Anifeiliaid newydd y DU fyddai'r cyfle gorau i ailfeddwl yn gynhwysfawr, wedi'i deilwra i anghenion y DU. Mae ein profiad yn dweud wrthym fod datblygu polisi mewn ffordd agored a thryloyw sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth yn well i ddefnyddwyr ac i fusnesau, ond mae hyn yn cymryd amser i'w gael yn iawn.

Mae cyfraith bwyd yn fater datganoledig ac rydym yn cefnogi penderfyniadau datganoledig ar ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar effeithiau biliau yng Nghymru, a byddwn yn ystyried unrhyw ddiwygiadau yn unol ag ymrwymadau yn y cytundebau fframwaith cyffredin ar gyfer Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Safonau Ynghylch Cyfansoddiad a Labelu.

Yn gywir,



Yr Athro Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Anrh), FMedSci

Lloriau 6 a 7, Clive House
70 Petty France, Llundain SW1H 9EX
Ffôn: [REDACTED]
E-bost: [REDACTED]

FOOD HYGIENE RATING

[food.gov.uk/ratings](https://www.food.gov.uk/ratings)



I gael gwybodaeth am Bolisi Preifatrwydd yr ASB, cliciwch [yma](#).

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn trin eich data personol, cliciwch [yma](#) neu rhwch: <https://www.food.gov.uk/cv/about-us/rhybudd-preifatrwydd-qahebiaeth-y-swddfa-breifat> yn eich porwr gwe.



Ymateb i Alwad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd am Farnau

Charles Whitmore, Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd — Canolfan Llywodraethiant Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tachwedd 2022

Ynghylch y dystiolaeth hon

Ysgrifennwyd y dystiolaeth hon gan Charles Whitmore fel rhan o brosiect Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru (y Fforwm). Partneriaeth yw hon rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd a ariennir gan y Legal Education Foundation. Ei nod yw darparu gofod cymdeithas ddinesig ar gyfer rhannu gwybodaeth, trafodaeth wybodus a chydlynu mewn meysydd sy'n destun newid cyfreithiol, gweinyddol a chyfansoddiadol sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

CGGC yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae **Canolfan Llywodraethiant Cymru** yn uned ymchwil a noddur ac a gefnogir yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Diolch yn fawr i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i gyflwyno barnau am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Rwy'n gwneud hynny yn rhinwedd fy swydd fel cydlynnydd prosiect y Fforwm gan fod sefydliadau cymdeithas sifil yr ydym wedi ymgysylltu â nhw yng Nghymru ac ar lefel y DU wedi mynegi pryderon difrifol am sawl agwedd ar y ddeddfwriaeth. Mae swyddogaeth graidd y Bil – sef diddymu neu ddiwygio'n awtomatig gorff enfawr o gyfreithiau heb graffu seneddol neu gyhoeddus, tra'n trosglwyddo pwerau deddfu enfawr i weinidogion, heb fawr ddim ystyriaeth o'r goblygiadau datganoledig i'w gweld yn y gwaith drafftio – yn peri pryder mawr yn gyfansoddiadol. Bydd y bil:
 - a. Yn trosglwyddo pwerau deddfwriaethol sylweddol i weinidogion ar lefelau datganoledig a chanolog, fel ei gilydd Bydd hyd yn oed yn mynd cyn belled â chaniatáu i Weinidogion ddefnyddio'r pwerau cyffredinol yng nghymal 15 i ddiwygio darpariaethau cyfraith sylfaenol (yn rhinwedd cymal 12(2)b).

- b. Yn creu ansicrwydd cyfreithiol sylweddol.
- c. Yn debygol o arwain at wallau a hepgoriadau deddfwriaethol – gyda’r potensial i greu tyllau yn y llyfr statud y bydd angen rhagor o amser deddfwriaethol i’w datrys yn ddiweddarach.
- d. Yn tynnu capasiti oddi wrth y Senedd, Llywodraeth Cymru a chymdeithas sifil yng Nghymru – mater sy’n debygol o gael ei deimlo hyd yn oed yn fwy llym ar y lefel ddatganoledig.
- e. Yn grymuso’r gweithrediaethau i ddeddfu newid mewn polisi, naill ai’n fwriadol neu drwy hepgor o ganlyniad i ddiffyg gweithredu – mae hyn yn ffordd gwbl amhriodol o ddiwygio corff mor enfawr o gyfraith. Nid yw’n glir sut y byddid yn cyfleu penderfyniad o’r fath, asesu ei effaith, ymgynghori arno na’i herio.
- f. Yn peri risg machlud hawliau a safonau allweddol. Mae’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb¹ a’r memorandwm hawliau dynol² ill dau yn nodi, mewn egwyddor, (er gwaethaf sicrwydd Llywodraeth y DU) bod risg y bydd amddiffyniadau gwrth-wahaniaethu a chyfraith yr UE a ddargedwir (REUL) sy’n berthnasol i Hawliau’r Confensiwn yn cael eu dal gan fecanwaith y machlud. Mae’r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn egluro bod risgiau i gydraddoldeb yn cael eu creu gan ddarpariaethau’r Bil ar wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a ddargedwir, ond bod y rhain yn cael eu lliniaru gan ddyletswydd adran 3 y Ddeddf Hawliau Dynol ar y llysoedd i ddehongli deddfwriaeth ddomestig yn unol â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). **Mae hyn yn anwybyddu’r ffaith bod y Bil Hawliau hefyd yn cael ei ystyried gan Dŷ’r Cyffredin, a fydd yn diddymu’r ddyletswydd hon.**
- g. Yn tansilio gweithdrefnau deddfwriaethol cyffredin, goruchwyliaeth seneddol, a rôl cymdeithas sifil wrth graffu ar newid sylweddol i bolisi trwy ddarparu dim amser na mecanwaith ar gyfer asesu, craffu ar neu ymgynghori ar effaith machlud, cadwraeth, ailddatgan, diweddar, diddymu neu ddisodli posibl REUL.

1.2 Yn ogystal â’r uchod, mae pryderon pellach sy’n ymwneud yn benodol â diffyg ystyriaeth a chymhlethdod y rhyngweithio â datganoli y byddaf yn canolbwyntio arnynt yn awr.

2. Yr effaith ar dirwedd reoleiddiol Cymru a Rhyngweithiadau â Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA)

2.1 Yn amlwg, ychydig iawn o ystyriaeth a chysondeb sydd wedi bod wrth ddrafftio’r Bil ynghylch ei ryngweithiad â sefydliadau datganoli. Ystyrir datganoli yn bennaf ddwywaith yn unig yn nogfennau amrywiol y Bil – llai na hanner tudalen yn y nodiadau esboniadol,³ a pharagraff 36 yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.⁴

- a. Mae’r nodiadau esboniadol yn nodi bod dull gweithredu’r Bil yn gyson â deddfwriaeth arall sy’n gysylltiedig â’r UE, yr ymgysylltwyd yn briodol ac yn rhagweithiol â’r ‘gweinyddiaethau’ datganoledig, bod y Bil yn adlewyrchu ymrwymiad i barchu’r setliadau datganoli a Chonfensiwn Sewel ac **‘na fydd yn creu mwy o ddargyfeirio o fewn y DU’** (fy mhwyslais i).
- b. I’r gwrthwyneb, mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod bod y Bil yn debygol o arwain at ddargyfeirio rheoleiddiol ond y bydd hyn yn cael ei reoli gan Ddeddf Marchnad

¹ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, para. 27.

² Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Memorandwm ECHR, para. 8.

³ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Nodiadau Esboniadol, Paragraffau 58-61.

⁴ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, para. 36.

Fewnol y DU a Fframweithiau Cyffredin. Mae cyfeiriad annelwig at sgysiau sydd wedi digwydd yn Whitehall (heb Lywodraeth Cymru, mae'n debyg) i sicrhau nad yw'r Bil yn 'newid effaith Deddf UKIM'. Mae'r asesiad effaith yn dod â'r ddadl hon i ben gan nodi y bydd egwyddorion mynediad i'r farchnad (MAPs) UKIMA yn berthnasol mewn sawl maes, lle mae dargyfeirio'n digwydd. **Mae'r asesiad hwn yn peri pryder ac mae hyd yn oed yn gamarweiniol mewn sawl ffordd - byddaf yn ystyried pob un yn ei dro.**

Y potensial am ddargyfeirio rheoleiddiol ac effaith hyn

- 2.2 Fel y gwelir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb,⁵ mae'n hynod gamarweiniol i'r nodiadau esboniadol ddatgan gyda sicrwydd na fydd y Bil yn cynyddu dargyfeirio o fewn y DU. I'r gwrthwyneb, mae'r mecanweithiau yn y Bil yn rhoi cyfle sylweddol i ddargyfeirio, gan gynnwys mewn llawer o feysydd a allai sbarduno'r egwyddorion mynediad i'r farchnad – er enghraifft, o ran cyfansoddiad bwyd, labelu a pholisi amgylcheddol. Mewn egwyddor, mae'n bosibl y gall gwahanol rannau o'r DU ddewis caniatáu i wahanol ddarnau o REUL fachlud a/neu ddefnyddio'r pwerau ailddatgan, diweddar, diddymu a disodli yng nghymalau 12-16 yn wahanol ar draws corff mawr o gyfraith. Efallai y bydd hyd yn oed dulliau gwahanol o ailsefydlu egwyddor goruchafiaeth ac egwyddorion cyffredinol Cyfraith yr UE, yn enwedig o ystyried Deddfwriaeth Parhad yr Alban.
- 2.3 Mae'r esboniad byr a ddarperir ar hyn yn yr asesiad o'r effaith yn hynod gyfyngedig ac unochrog. Mae'n nodi dim ond y bydd UKIMA yn amddiffyn defnyddwyr a busnesau rhag y dargyfeirio sy'n deillio o hynny. Fodd bynnag, mae'n methu cydnabod **y gallai effeithiau polisi alldiriogaethol sylweddol ac annisgwyl godi o'r defnydd gwahanol o'r pwerau dirprwyedig helaeth yn y Bil mewn gwahanol rannau o'r DU yn rhinwedd MAPs UKIMA.** Fel yr archwiliwyd adeg taith UKIMA drwy'r Senedd, mae hyn yn debygol o weithio yn erbyn ymreolaeth polisi Cymru gan y bydd penderfyniadau i fachlud neu ddiwygio REUL/cyfraith wedi'i chymathu yn Lloegr yn cael mwy o effaith anghymesur ar rannau eraill o'r DU oherwydd pwysoliad economaidd Lloegr a'r anghydbwysedd cyfansoddiadol rhwng y lefelau canolog a datganoledig. **O ganlyniad, ni ddylai UKIMA fod yn fecanwaith diofyn ar gyfer rheoli effeithiau unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth.** Cydnabyddir natur drechol a phroblemus y MAPs yn y dewis i roi rôl gyfyngedig i Fframweithiau Cyffredin wrth weithredu UKIMA. Mae hyn yn darparu rôl statudol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol wrth helpu i reoli dargyfeirio rheoleiddiol posibl a allai arwain at densiynau fel arall.⁶
- 2.4 Ac eto, yn dibynnu ar y cyfeiriadau polisi y mae'r gwahanol lywodraethau yn eu cymryd wrth ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig ym Mil REUL, mae'r ddeddfwriaeth yn peryglu sbarduno'r MAPs ar raddfa ymhell y tu hwnt i'r hyn a luniwyd i ddechrau. **Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd angen i lywodraethau a deddfwrfeydd fod yn ymwybodol iawn o'r bwriadau polisi wrth wraidd defnyddio'r pwerau hyn mewn gwahanol rannau o'r DU gan y gallai hyn arwain at gyfyngiadau de facto i gymhwysedd.**

⁵ Mae cwestiwn arwyddocaol ynghylch pam nad oes gan y Bil hwn asesiad ehangach o'r effaith. Mae'n rhyfedd gweld yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei ddefnyddio i ystyried effeithiau rheoleiddio ehangach fel rhyngweithiadau posibl ag UKIMA.

⁶ Fel y profwyd yn ddiweddar yn sgil ehangu eithriadau i'r MAPs o ran plastigau untro gan ddefnyddio'r weithdrefn yn adran 10 UKIMA, sy'n darparu rôl ar gyfer fframweithiau cyffredin wrth drafod eithriadau pellach.

- 2.5 Mewn un enghraifft ddamcaniaethol, mae Rheoliad 1169/2011 yr UE ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr yn sefydlu gofynion hanfodol o ran gwybodaeth am faeth, allergenau a gwlad wreiddiol ar labeli bwyd. Mae darnau perthnasol o REUL ar lefelau datganoledig a'r DU yn gweithredu'r gofynion hyn (Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014). Gan ddefnyddio cymal 15, gallai Llywodraeth y DU benderfynu lleihau'r gofynion labelu hyn – yn wir, mae'r pwerau hyn wedi'u drafftio'n glir gyda dadreoleiddio mewn golwg. Byddai hefyd o fewn cwrpas y pwerau yn y Bil i Lywodraeth Cymru gadw'r gofynion heb eu diwygio ar y lefel ddatganoledig. Dylid nodi na fyddai'n bosibl cyflwyno unrhyw newidiadau a allai ddod o fewn diffiniad hynod eang y Bil o 'fwy o faich rheoleiddiol'. Fodd bynnag, hyd yn oed os cânt eu cynnal, mae gofynion labelu yn debygol o ddod o fewn egwyddor cydgydnabod UKIMA ac, o ganlyniad, ni fyddai'n ofynnol i gynhyrchion sy'n tarddu o Loegr gydymffurfio â'r safonau 'cadwedig' yng Nghymru. Byddai angen iddynt gydymffurfio â'r safon is ddiwygiedig 'wedi'i chymhathu' yn Lloegr yn unig. Yn anochel, byddai hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar lunwyr polisiau yng Nghymru i gyd-fynd â'r safon a gyflwynir gan Lywodraeth y DU i sicrhau chwarae teg i gynhyrchwyr yng Nghymru.
- 2.6 O ystyried faint o REUL a gadwyd yn ôl a datganoledig y byddai angen ei ystyried mewn cyn lleied o amser, ei ehangder eithriadol, y capasiti cyfyngedig sydd ar gael, a diffyg system effeithiol o gysylltiadau rhynglywodraethol i gefnogi dadansoddiad ar y cyd mor fanwl mewn cymaint o feysydd, **mae'n debygol o fod yn amhosibl ystyried effaith pob dargyfeiriad posibl o'r fath ar dirwedd reoleiddiol Cymru tra na ddarperir unrhyw gyfeiriad polisi ar sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn.** Mae hyn yn ansicrwydd cyfreithiol ar raddfa gyfansoddiadol.

Rôl bosibl y Fframweithiau Cyffredin

- 2.7 Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (a chwestiynau a ddarparwyd i mi gan Bwyllgor Bil Cyhoeddus Senedd y DU) yn awgrymu mai barn Llywodraeth y DU yw, pe bai dargyfeirio polisi sylweddol yn deillio o wahanol ddefnydd o bwerau dirprwyedig y Bil, y byddai'r Fframweithiau Cyffredin yn ddigon i reoli'r canlyniad hwn.
- 2.8 Pe na bai dyddiad machlud, dylai corff sylweddol o waith rhynglywodraethol ddigwydd ynghylch disodli REUL a gadwyd yn ôl a datganoledig oherwydd bod lle i ryngweithio ag UKIMA a bod angen nodi rhyngweithiadau a rhyngddibyniaethau posibl rhwng deddfau'r DU a deddfau datganoledig. Yn sicr, mae hyn yn unol ag ysbryd yr hyn y bwriadwyd i'r Fframweithiau Cyffredin ei ddarparu – sef cydweithrediad rhynglywodraethol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chonsensws mewn gofod a rennir i hwyluso gwahaniaethau polisi ystyrion. O ganlyniad, maent wedi gweld rhywfaint o lwyddiant,⁷ **ond maent yn annhebygol o fod yn fecanwaith digonol i reoli lefel y tarfu a allai ddeillio o Fil REUL:**
- a. Fe'u lluniwyd gyda lefel o gydweithrediad mewn golwg sy'n angenrheidiol i hwyluso ailwladoli cymwyseddau o'r UE fel yr archwiliwyd yn y dadansoddiad o fframweithiau.⁸

⁷ J. Hunt, T. Horsley, 'In Praise of Cooperation and Consensus under the Territorial Constitution: The Second Report of the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee', 16 Gorffennaf 2022. Ar gael yn: <https://ukconstitutionallaw.org/2022/07/26/thomas-horsley-and-jo-hunt-in-praise-of-cooperation-and-consensus-under-the-territorial-constitution-the-second-report-of-the-house-of-lords-common-frameworks-scrutiny-committee/>

⁸ Swyddfa'r Cabinet, 'Revised Frameworks Analysis: Breakdown of areas of EU law that intersect with

Byddai maint posibl y dargyfeirio a'r tensiwn a allai ddeillio o wahanol ddefnydd o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil a'r mecanwaith machlud, o achosion anghymesur o hepgor a chymryd gwahanol ymagweddau tuag at oruchafiaeth a'r egwyddorion cyffredinol – yn debygol o fod ymhell y tu hwnt i'r hyn y gall y fframweithiau cyffredin ei reoli. Byddai angen ymrwymiad lefel uwch i waith rhynglywodraethol ar sail consensws.

- b. Mae bylchau – nid oes gan rai meysydd polisi fframweithiau cyffredin ond mae ganddynt REUL. Yn wir, nododd y dadansoddiad o fframweithiau mai dim ond ar leiafrif o feysydd polisi yr oedd angen fframwaith cyffredin a gadawodd lawer o rai eraill i ddibynnu ar fecanweithiau eraill. Os disgwylir i'r fframweithiau cyffredin ddarparu rôl ffurfiol wrth reoli dargyfeirio sy'n deillio o Fil REUL, nid yw'n glir sut y byddai meysydd polisi heb fframwaith yn cael eu rheoli.
- c. Mae'n debygol bod gwahanol dimau yn y gwasanaeth sifil ar y lefelau datganoledig a chanolog yn gweithio ar y fframweithiau cyffredin a REUL. O ystyried yr heriau sylweddol o ran capasiti eisoes, mae'n debygol y bydd ystyriaethau ymarferol pellach o ran sicrhau cyfathrebu rhwng timau perthnasol.
- d. Er gwaethaf eu llwyddiannau, nid oes gan y Fframweithiau Cyffredin dryloywder a chysondeb. At hynny, roedd llinell amser ymadawiad y DU â'r UE yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i rym er bod llawer ohonynt yn anghyflawn a thros dro.

Nid yw'r Bil yn cyd-fynd â datganoli, ysbryd Confensiwn Sewell na darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE

- 2.9 Yn groes i'r honiad yn y nodiadau esboniadol, nid yw'r Bil yn parchu'r setliadau datganoli na Chonfensiwn Sewell. Ni ddigwyddodd digon o ymgysylltu *a priori* fel y dangosir gan gyfathrebiadau gan lywodraethau Cymru (a'r Alban). Hyd yn oed *a posteriori*, mae'n drawiadol na wahoddwyd Llywodraeth Cymru i roi tystiolaeth lafar ochr yn ochr â Llywodraeth yr Alban i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus. Yn wir, yn ei sesiwn dystiolaeth ar 8 Tachwedd 2022, roedd yn ymddangos bod y Pwyllgor yn gosod Angus Robertson MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant yn Llywodraeth yr Alban, mewn sefyllfa i gyflwyno barn Llywodraeth Cymru hefyd.⁹
- 2.10 Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi argymhell yn erbyn cydsyniad deddfwriaethol ac, eto, o ystyried arferion diweddar, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio, beth bynnag. At hynny, mae'n rhoi pwerau deddfu i Lywodraeth y DU mewn meysydd cymhwysedd datganoledig i Gymru y gellir eu harfer heb ofyn am gydsyniad y Senedd na Llywodraeth Cymru. Byddai pŵer cymal 16 i ddiweddarau cyfraith wedi'i chymathu, nad yw'n ymddangos ei bod yn gyfyngedig o ran amser hyd at 2026, yn rhoi pŵer amhenodol i Lywodraeth y DU ddiweddarau cyfraith Cymru lle mae 'datblygiad mewn dealltwriaeth wyddonol'. Mae hyn yn gwneud y Bil yn anghymesur o ran sut mae'n mynd i'r

devolved competence in Scotland, Wales and Northern Ireland', Ebrill 2019. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/792738/20190404-FrameworksAnalysis.pdf

⁹Mae trawsgrifiad ar gael yn: https://www.theyworkforyou.com/psc/2022-23/Retained_EU_Law_%28Revocation_and_Reform%29_Bill/02-0_2022-11-08a.76.2

afael â datganoli, gan fod Atodlen 2 yn gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd datganoledig, gan atal y defnydd o bwerau gan yr awdurdodau datganoledig, ond nid yw'n creu unrhyw gyfyngiad na mecanwaith cydsynio cyfochrog ar arfer pwerau gweinidogol gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig.

- 2.11 Hefyd, yn groes i'r datganiad yn y nodiadau esboniadol, mae absenoldeb mecanwaith cydsynio yn golygu nad yw'r Bil yn gydnaws â deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r UE.
- e. Er enghraifft, mae adrannau 6(7), 8(9), 10(9) o UKIMA yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru wrth arfer pwerau dirprwyedig perthnasol.
 - f. Mae'r Ddeddf Ymadael a'i chytundeb rhynglywodraethol cysylltiedig yn darparu enghraifft gadarnach yn gyfansoddiadol o fecanwaith cydsynio. Pe bai Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau i rewi cymhwysedd datganoledig, roedd y system yn mynnu bod y Llywydd yn cael ei hysbysu a bod y rheoliadau perthnasol yn cael eu darparu i Lywodraeth Cymru. Yna, byddai'r Senedd yn cael cyfle i gydsynio. Os oedd Llywodraeth y DU yn dymuno bwrw ymlaen heb gydsyniad, byddai llywodraethau datganoledig a chanolog yn darparu datganiad ysgrifenedig i Senedd y DU yn esbonio pam y gwrthodwyd cydsyniad. Yna, gallai Senedd y DU benderfynu a ddylid cymeradwyo'r rheoliadau ai peidio. **Mae'n gyfansoddiadol hynod na roddir unrhyw ystyriaeth ar wyneb Bil REUL i geisio cydsyniad awdurdodau datganoledig wrth arfer pwerau cydredol sydd, yn achos y Bil hwn, yn enfawr.**
- 2.12 Yn yr un modd, mae sawl problem â'r pŵer i ymestyn y machlud gan nad yw'n glir pam y caiff hyn ei roi i Lywodraeth y DU yn unig. Er bod y llywodraeth wedi nodi mai 'methu-diogel' yw bwriad hyn, mae'n debygol o fod yn hanfodol o ystyried pa mor dynn yw'r dyddiad cyflawni. Mae'r un mor bryderus y bydd hawliau uniongyrchol effeithiol sy'n deillio o gyfraith achosion yr UE, cytuniadau'r UE a chyfarwyddbau'r UE yn machlud yn 2023 yn rhinwedd cymal 3 heb y posibilrwydd o'u hymestyn, pan fydd yn gwbl ansicr beth fydd effeithiau hyn yn y pen draw.
- 2.13 Mae'r mecanwaith yng nghymal 1(2) i gadw rhag machlud yn darparu opsiwn sy'n agored i Lywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn mynnu bod pob REUL datganoledig yn cael ei nodi cyn y dyddiad cyflawni. Mae hefyd ymhell o fod yn ddelfrydol ei fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Nid yw'r mynegiant a'r gwahaniaethau rhwng mecanweithiau cymal 1(2) a chymal 2 yn gwbl glir, er ei bod yn ymddangos y gallai mecanwaith cymal 2 gael ei ddefnyddio mewn perthynas â chategoriâu o ddeddfwriaeth, gan ei gwneud yn ehangach o bosibl. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n bosibl y bydd dyddiad terfynol y machlud yn arwain at ruthr i ymestyn neu ddiogelu REUL datganoledig o'r machlud a bydd hyn yn agored i hepgoriadau a chamgymeriadau deddfwriaethol, gyda goblygiadau difrifol posibl i'r llyfr statud ac i sicrwydd cyfreithiol.
- 2.14 At hynny, mae'r broses yn gwbl amhriodol o safbwynt craffu seneddol, gan na fydd gan y Senedd unrhyw benderfyniad ystyrion i'w wneud os cyflwynir corff o REUL datganoledig iddo mewn *un swmp* i'w ddiogelu. Byddai'r penderfyniad i beidio â diogelu wir yn rhy broblemus. **Dylai fod gan y Senedd rôl ddeddfwriaethol gyffredin o ran craffu ar y newidiadau i REUL dros gyfnod llawer mwy hirfaith, lle y gall rhinweddau diwygiadau deddfwriaethol penodol fod yn destun trafodaeth, asesiad effaith ac ymgynghoriad ystyriol. Dylid dileu neu newid y mecanwaith machlud fel bod yn rhaid nodi bod offerynnau i'w cynnwys o fewn ei gwmpas, fel y gellir craffu ar y penderfyniad i wneud hynny. Dylid hefyd ystyried mecanwaith sy'n debyg i'r un yn y**

Ddeddf Ymadael fel bod gan y Senedd rôl graffu lle y mae Llywodraeth y DU yn arfer pwerau cydredol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

3 Pryderon capasiti

3.1 Bydd y dyddiad terfyn a grëwyd gan y machlud yng nghymal 1 yn rhoi pwysau enfawr ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd gan fod y llinell amser ar gyfer nodi pob REUL datganoledig yn amhosib o dynn. **Mae hyn gyfystyr â Llywodraeth y DU yn gofyn bod blaenoriaethau deddfwriaethol a gweithredol Cymru yn cael eu hatal am gyfnod tra bydd ymarfer cwbl ddiangen yn digwydd na all ond arwain at ansicrwydd cyfreithiol sylweddol a thensiwn rhwng awdurdodau canolog a datganoledig.** Mae'r pryderon hyn o ran capasiti yn ymestyn i fudiadau trydydd sector Cymru, a fydd yn ei chael hi'n anodd i gyflawni unrhyw graffu ystyrlon gan gymdeithas ddinesig ar ddefnyddio'r pwerau machlud a gweinidogol. Mae'n rhyfeddol y dylai ailgyfeirio capasiti mor fawr a diangen ddigwydd tra bod y wlad yn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, argyfwng ynni a sgîl-ffeithiau'r rhyfel yn Wcráin.

3.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na ddylai mapio REUL datganoledig at ddiben y Bil hwn gael ei osod yn faich ar awdurdodau datganoledig. Er ei bod yn ddealladwy ar lefel wleidyddol, yn ymarferol, os bydd y Bil yn pasio heb ei ddiwygio i raddau helaeth, bydd yn hanfodol bod REUL datganoledig yn cael eu nodi mor gynhwysfawr â phosibl, gan fod canlyniadau cael eu dal gan y machlud yn rhai difrifol.

3.3 Fodd bynnag, nid yw'r pwysau o ran capasiti y bydd y Bil yn eu creu wedi'i gyfyngu i nodi REUL datganoledig. Mae angen cydlynu rhynglywodraethol sylweddol i sicrhau bod goblygiadau polisi trawsffiniol yn cael eu nodi a'u hystyried ar y cyd cyn unrhyw benderfyniadau i fachlud, ailddatgan, diwygio neu ddiddymu offerynnau penodol. Hefyd, dylid cynnal deialog lle byddai newidiadau i feysydd polisi a gedwir yn ôl gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn arwain at oblygiadau sylweddol yng Nghymru (er enghraifft o ran newidiadau posibl i hawliau llafur).

3.4 Nid yw'n ddefnyddiol nad yw'r dangosfwrdd yn nodi REUL datganoledig perthnasol, gan fod hyn yn golygu bod awdurdodau datganoledig yn ôl pob tebyg ymhellach ar ei hôl hi yn y broses hon na Llywodraeth y DU. Maent yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau hyd yn oed yn fwy llym ar gapasiti. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r Dangosfwrdd yn gwahaniaethu rhwng REUL datganoledig a REUL a gadwyd yn ôl, ni fyddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol gan nad yw'n mynd i'r manylder angenrheidiol i gefnogi ymarfer polisi o'r natur a'r raddfa hon. Yn wir, mae gwaith diweddar gan yr Archifau Gwladol wedi amlygu pa mor anghyflawn ydyw fel cronfa ddata – gan nodi eu bod wedi nodi 1,400 darn pellach o REUL.¹⁰ Yn y cyfamser, ychydig neu ddim ystyriaeth a roddwyd mewn trafodaethau yn Senedd y DU i absenoldeb REUL datganoledig o'r gronfa ddata.

4 Cwmpas y pwerau newydd i wneud rheoliadau a chraffu arnynt

¹⁰ Gweler adroddiad y Financial Times ar 7 Tachwedd 2022. Ar gael yma: <https://www.ft.com/content/0c0593a3-19f1-45fe-aad1-2ed25e30b5f8>

- 4.1 Bydd y bil yn trosglwyddo llawer iawn o bwerau deddfu o'r deddfwrfeydd i'r gweithrediaethau heb unrhyw broses graffu, ymgynghori nac asesu effaith ystyrion – **mae hyn yn gyfansoddiadol amhriodol ni waeth ar ba lefel llywodraethu y mae'n digwydd**. Mae'n tansilio rôl y Senedd a'r rôl graffu ddemocrataidd a ddarperir gan gymdeithas ddinesig ehangach. Byddai cymal 12 (2) (b) hyd yn oed yn caniatáu i Weinidogion ddiwygio darpariaethau deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn eithafol yng Nghymal 15. At hynny, **bydd yn galluogi Gweinidogion, naill ai drwy fwriad neu anwaith, i ddeddfu diwygiadau i bolisi drwy ddiffyg gweithredu**. Nid yw'n glir sut, neu hyd yn oed p'un a, fyddai'r bwriad i ganiatáu i ddarn o REUL fachlud yn cael ei gyfleu, heb sôn am ei herio, o ystyried y dyddiad terfyn tynn.
- 4.2 Mae cymal 15 yn arbennig o hynod mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n drawiadol o ran ehangder y pwerau a roddir i weinidogion, a fyddai'n gallu dirymu a disodli REUL gydag unrhyw ddewis arall sy'n 'briodol' yn eu barn nhw. Yn ail, er gwaethaf sicrwydd gwleidyddol, mae tôn a mecanweithiau cymalau 15(5) a 15(10) yn amlwg yn ddadroleiddiol.
- a. Byddai cymal 15(5) yn gosod cyfyngiad ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig yng Nghymal 15 i wneud unrhyw newidiadau y gellid dehongli eu bod yn cynyddu'r 'baich rheoleiddiol'.
- b. Yn y cyfamser, mae cymal 15(10) yn sefydlu diffiniad anhygoel o eang (a phenagored) o'r hyn a all fod yn faich rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, 'rhwystrau rhag effeithlonrwydd, cynhyrchiant, neu broffidioldeb, 'cost ariannol' neu hyd yn oed '**anghyfleustra** gweinyddol'. Nid yw'n glir sut y gellid trafod a mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn dehongli o ran y diffiniadau hyn. Mae'r hyn y mae un awdurdod yn ei ystyried yn faich yn safon reoleiddio uwch i awdurdod arall. I bob pwrpas, byddai hyn yn atal safonau rheoleiddiol rhag cael eu codi gan ddefnyddio'r pwerau hyn sydd, mae'n bwysig cofio, yn bwerau y gall Llywodraeth y DU eu harfer yn unochrog mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Gellid defnyddio prosesau deddfwriaethol cyffredin i ailsefydlu neu godi safonau, fodd bynnag, mae pryderon ynghylch amser deddfwriaethol, capasiti, a risg bosibl y gallai unrhyw newidiadau a gyflwynir gan ddefnyddio'r pwerau gweinidogol hyn ymwreiddio.



	Welsh NHS Confederation response to the Legislation, Justice and Constitution Committee on the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill
Contact for further info	[REDACTED]
Date:	7 November 2022

1. The Welsh NHS Confederation welcomes the opportunity to respond to the Legislation, Justice and Constitution Committee's consultation on the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill.
2. The Welsh NHS Confederation represents the seven Local Health Boards, three NHS Trusts, Digital Health and Care Wales and Health Education and Improvement Wales (our Members). We also host NHS Wales Employers.

Introduction

3. The scope of the Bill is broad and could represent an enormous capacity challenge to UK and Welsh Government, due to the fact that they will have to repeal, amend or replace over 2400 pieces of retained EU law (REUL).
4. There are substantial grounds for concern over the potential level of resources it will take Welsh and UK Governments to achieve this task before the 'sunset' date at the end of 2023.
5. There is also a risk that important pieces of legislation which protect public health could be unintentionally lost due to the restrictive timescale set out in the Bill. This would be due to Welsh Government, the Senedd and other stakeholders being unable to properly consider each affected piece of legislation.

Public Health

6. Of the over 2400 REUL, many intersect with areas which are important for protecting and improving public health. These include employment law, environmental law and food standards. Some specific examples are:
 - Regulation (EC) No 1924/2006 - ensures that nutrition and health claims made about a food product are based on scientific evidence so that consumers are not misled.
 - Regulation (EU) No 1169/2011 – regulates the information provided to consumers, including on allergens and nutritional content, as well as other labelling requirements.
 - Regulation (EU) 2019/631 - sets CO2 emission performance standards for new cars and vans.
 - Regulation (EU) 459/2011 – sets out vehicle requirements that improve the protection of pedestrians and other vulnerable road users involved in collisions.
 - Regulation (EU) 2017/2177 - ensures fair and equitable access to stations, depots and other rail related services.
7. The Bill could also hinder efforts for the UK to go further and faster on legislation which protects public health. Clause 15(5) of the Bill outlines that Ministers in the UK or Welsh

Governments can only use the powers in the Bill to replace existing EU law if it “does not increase the regulatory burden”. This includes anything that brings additional “financial cost”, “administrative inconvenience”, or “obstacle to trade or innovation... efficiency, productivity or profitability”. This indicates a strong preference towards deregulation, even where that may relate to areas of public health concern.

8. Without the ability or adequate time to properly ascertain which REUL needs to be preserved on the grounds of public health, we could see vital progress on the aims outlined in Welsh Government policy and legislation, such as A Healthier Wales and the Well-Being of Future Generations Act, impeded.

Trade

9. Trade and health are linked in many ways, affecting many wider determinants of public health, from the food we eat to our healthcare services, job market and ability to invest in public services. For example, the future ability of Welsh Government to introduce effective public health regulations may be hampered by new trade agreements and related legislation. Public Health Wales has explored the link between trade and health further in its report [What could post-Brexit trade agreements mean for public health in Wales?](#)
10. The Bill does include powers which can be used jointly or by a UK Minister, or by Ministers in the devolved administrations in areas of devolved competence. Ministers may wish to make different use of the powers in the Bill and consequently, consideration is needed around the Bill’s interaction with the existing post-Brexit legislative infrastructure, particularly the Internal Market Act. For example, how might it affect the standards that goods available in Wales must adhere to, such as food products?
11. Similarly, further clarity would be welcome on whether changes to public health relevant regulations could affect their status under international trade agreements. Departure from the current shared standards could trigger EU challenges and lead to disputes over alleged breaches of the UK’s Withdrawal Agreement/Trade and Co-operation Agreement.

Conclusion

12. Without a clear indication from the UK Government as to how the aims of the Bill will be accomplished, we believe it will be difficult to achieve within the timeframes it sets out, without comprising robust consideration of each REUL and its potential impacts on public health.
13. It is therefore imperative that there is engagement between UK and Welsh Government for concerns around public health to be properly considered when making decisions on REUL. Important pieces of legislation, such as those outlined in this response, cannot be allowed to be sunsetted due to a lack of oversight. Further provisions must therefore be made for the Welsh and UK Governments to effectively identify any regulations which fall under or impact devolved areas of competence.
14. Assurances will be needed that the Bill will retain and improve legislation which impacts on public health. Ministers who are seeking to use the powers within the Bill to replace existing EU law must ensure consideration is given to long-term implications for population health and wellbeing.

—
**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan AS

y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS

y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS

y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

25 Hydref 2022

Annwyl Weinidog a Dirprwy Weinidogion

Cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Hydref 2022

Diolch am ddod i'r cyfarfod ddydd lau 6 Hydref ac ateb ein cwestiynau.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn cwestiynau dilynol ar y materion sydd wedi'u hamlinellu yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn erbyn **16 Rhagfyr 2022**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

—
Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565



Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Hydref 2022

Yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 6 Hydref 2022, hoffem gael rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 16 Rhagfyr 2022.

Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol

1. Yn eich **Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd**, rydych yn ymrwymo i sefydlu Bwrdd Diagnosteg i ddod â phartneriaid allweddol ynghyd o bob rhan o'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol. A allwch rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol, gan gynnwys rhagor o fanylion am y dull gweithredu o ran diagnosteg yng Nghymru a sut mae gwaith y Bwrdd yn cydblethu â rhaglenni cenedlaethol fel Delweddu, Patholeg ac Endosgopi?

Data ynghylch amseroedd aros

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir o'r data sydd ar gael ym mha arbenigeddau y mae'r amseroedd aros hiraf mewn gwahanol fyrddau iechyd. Mae StatsCymru yn cyhoeddi nifer yr wythnosau y mae cleifion yn aros fesul bwrdd iechyd ac fesul arbenigedd ond nid fesul ysbyty.

2. Yn ein hadroddiad diweddar, **Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru**, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi byrddau iechyd i gyhoeddi'n rheolaidd y data o ran amseroedd aros wedi'u dadgyfuno yn ôl arbenigedd ac ysbyty (argymhelliad 17). Yn eich ymateb, gwnaethoch dderbyn ein hargymhelliad, gan egluro ei fod yn gam gweithredu yn eich **Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd**. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am weithredu argymhelliad 17?

Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod 97,882 o lwybrau agored ym mis Mehefin 2022 yn aros dros 52 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf. Gwnaethoch nodi:

"Er bod y garfan o gleifion (sef y rhestr o'r holl gleifion y mae angen iddynt gael eu gweld erbyn diwedd Rhagfyr 2022 ac mae'n wahanol i'r nifer sy'n aros dros 52 wythnos ar hyn o bryd) yn lleihau, mae'r cynnydd yn arafach nag yr hoffem ac y byddem yn ei ddisgwyl".

Ein dealltwriaeth ni yw mai dim ond llwybrau cleifion sydd eisoes yn aros am eu hapwyntiad claf allanol y mae'r ffigur hwn yn eu cynnwys. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd llwybrau cleifion newydd yn cael eu hychwanegu.

3. A yw Llywodraeth Cymru yn monitro/cyhoeddi data ar lwybrau cleifion newydd sy'n aros am apwyntiad claf allanol cyntaf fesul mis yn erbyn llwybrau cleifion sy'n cael eu hapwyntiad claf

allanol cyntaf fesul mis (hynny yw, llwybrau caeedig), gan fod clirio'r ôl-groniad yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau hyn? Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y cyd â GIG Cymru o faint y bydd yn rhaid cynyddu capasiti i glirio'r ôl-groniad?

4. A allwch rannu'r canllawiau sy'n llywio pa ddata sy'n cael eu cofnodi ar gyfer pob swyddogaeth driniaeth a adroddir ar StatsCymru, a chadarnhau a yw hyn yn gyson ar draws yr holl fyrddau iechyd; hynny yw, beth sydd wedi'i gynnwys o dan bennawd llawdriniaeth gyffredinol, gwasanaethau diagnostig ac ati? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb yn y modd y caiff y data hyn eu cofnodi gan wahanol fyrddau iechyd?

Mae data ar restrau aros y GIG yn Lloegr yn cael eu dadansoddi yn ôl cleifion ar y rhestr aros sydd ar yr hyn a elwir yn 'llwybrau heb eu derbyn' a chleifion eraill sydd ar lwybrau 'a dderbyniwyd'. Y cleifion sydd ar lwybrau a dderbyniwyd yw'r unigolion hynny sydd eisoes ar restr aros am lawdriniaeth. Nid yw'r cleifion sydd ar lwybrau 'heb eu derbyn' wedi cael eu gweld gan arbenigwr eto, neu maent wedi'u gweld ond maent yn dal i aros naill ai am brofion diagnostig neu ymgynghoriad dilynol. Yn gyffredinol, credir y bydd angen triniaeth fel claf mewnol ar tua 15-20 y cant o gleifion ar y rhestr aros 'heb eu derbyn'.

5. A allwch egluro sut mae'r data hyn yn cael eu hadrodd ar gyfer GIG Cymru? Er enghraifft, a allwch roi esboniad o'r data ar nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am driniaeth ar bob cam ar hyd y llwybr ac yn ôl yr hyn sy'n cael ei fesur; hynny yw, beth sydd wedi'i gynnwys o dan y penawdau a ganlyn: y bobl sy'n aros am ymyriadau diagnostig neu therapiwtig; y bobl sy'n aros am brawf, ymyriad neu ganlyniad diagnostig neu brawf, ymyriad neu ganlyniad gan weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd; a'r bobl sy'n aros am apwyntiad claf allanol dilynol neu benderfyniad yn y maes hwn?

Uwchgynadleddau

6. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gyfeirio at uwchgynadleddau diweddar ac arfaethedig, gan gynnwys un uwchgynhadledd a oedd yn canolbwyntio ar faterion orthopaedeg ac un arall a oedd yn canolbwyntio ar ganser. A allwch roi rhagor o wybodaeth am pryd y cynhaliwyd yr uwchgynadleddau hyn, pwy oedd yn bresennol, yr hyn a drafodwyd a'r deilliannau? Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech nodi a oes cofnod cyhoeddus o'r cyfarfodydd hyn ar gael.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac integreiddio

7. Mae gan randdeiliaid bryderon o hyd am y trefniadau craffu ac atebolrwydd mewn perthynas â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Pa gamau sydd ar y gweill i gryfhau'r trefniadau hyn a sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni eu hamcanion?

Penodiadau cyhoeddus



8. Yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, rydych yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r broses recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o ran a yw'r camau hyn wedi arwain at y canlyniadau a ddymunwyd; er enghraifft, cynnydd yn nifer y ceisiadau a mwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?
9. Beth yw'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Penodiadau Cyhoeddus GIG Cymru, a pha gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi unrhyw argymhellion a wneir ar waith?

Offthalmoleg

10. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gyuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am arfer da o ran apwyntiadau dilynol i bobl sydd wedi cael apwyntiadau cataract—er enghraifft, i atal meinwe craith rhag ffurfio. A yw'r arfer da hwn yn cael ei ddilyn yn gyson ledled Cymru?

Cynllun iechyd menywod a merched

11. Yn dilyn ein gohebiaeth ym mis Gorffennaf a mis Medi, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith sydd wedi'i wneud dros yr haf i fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu iechyd menywod a merched, a phryd ydych yn rhagweld y caiff y cynllun hwn ei gyhoeddi?

Cwestiynau gan y cyhoedd

Fel y gwyddoch, gwnaethom ofyn i'r cyhoedd awgrymu cwestiynau ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nid oedd yn bosibl ymdrin â'r holl faterion a godwyd gan y cyhoedd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth. I'n helpu i ymateb i'r materion a godwyd, byddem felly'n croesawu atebion i'r cwestiynau a ganlyn:

12. Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod lefelau staffio ysbytai yn ddiogel?
13. Beth sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau gofal interim a chryfhau gwasanaethau cymunedol?
14. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans?
15. Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n rhwystro camau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?
16. A ydych yn hyderus y bydd y camau rydych yn eu cymryd i ymgysylltu â'r boblogaeth ehangach i atal afiechyd, gan gynnwys cyflyrau cronig fel diabetes, yn effeithiol?
17. A oes gwasanaethau a llwybrau priodol ar gael i gefnogi cleifion yng Nghymru sydd â chyflyrau cronig fel Enseffalomyelitis Myalgig a Syndrom Blinder Cronig?
18. Yn dilyn y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gennych ar 19 Hydref 2021, a allwch roi unrhyw wybodaeth ychwaengol am yr achos clinigol dros Ganolfan Ganser newydd yn Felindre?

19. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau hunaniaeth rhywedd a ddarperir yng Nghymru yn dilyn newidiadau yng Nghlinig Hunaniaeth Rhywedd Tavistock?





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Russell,

Cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn graffu gyffredinol ar 6 Hydref 2022

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 25 Hydref 2022, yn dilyn y sesiwn graffu gyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Hydref.

Atodir ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yn atodiad 1.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen eglurhad pellach arnoch.

Dymuniadau gorau

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad 1

1. Yn eich Rhaglen i drawsnewid gofal a gynlluniwyd, rydych yn ymrwymo i sefydlu Bwrdd Diagnosteg i ddod â phartneriaid allweddol ynghyd o bob rhan o'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol. A allwch rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol, gan gynnwys rhagor o fanylion am y dull gweithredu o ran diagnosteg yng Nghymru a sut mae gwaith y Bwrdd yn cyd-lethu â rhaglenni cenedlaethol fel Delweddu, Patholeg ac Endosgopi?

Ymateb

Mae Bwrdd Diagnostig Cenedlaethol Cymru wedi'i sefydlu i ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer blaenoriaethu gwasanaethau diagnosteg fel y'i nodir yn *Ein rhaglen i Drawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd a Lleihau Rhestrau Aros yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Bu'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis ers mis Mai 2022 ac mae Perchnogion Cyfrifol Uwch y rhaglenni cenedlaethol perthnasol yn aelodau o'r bwrdd; mae hyn wedi newid i bob deufis yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cwblhau strategaeth ddiagnosteg ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau. Bydd y strategaeth hon yn ymgorffori mesurau i gynyddu capasiti, megis Hybiau Diagnostig Rhanbarthol. Mae'n cydnabod yr angen annatod am weithlu hefyd. O'r herwydd, mae'r Bwrdd wedi comisiynu Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â'r gweithlu diagnosteg yng Nghymru.

2. Yn ein hadroddiad diweddar, Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi byrddau iechyd i gyhoeddi'n rheolaidd y data o ran amseroedd aros wedi'u dadgyfuno yn ôl arbenigedd ac ysbyty (argymhelliad 17). Yn eich ymateb, gwnaethoch dderbyn ein hargymhelliad, gan egluro ei fod yn gam gweithredu yn eich Rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd. A fydddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am weithredu argymhelliad 17?

Ymateb

Gan weithio gyda gwefan genedlaethol 111, rydym wedi dechrau cyhoeddi data amseroedd aros wedi'i ddadgyfuno yn ôl arbenigedd a bwrdd iechyd. Mae ar gael i'r cyhoedd yn <https://111.wales.nhs.uk/PlannedCare/Default.aspx>

Rydym wedi datblygu'r wefan hon ar sail gwerthusiad cyhoeddiadau Lloegr a'r Alban gan ychwanegu nodweddion eraill megis cynrychiolaeth weledol o amseroedd aros ar ffurf graffiau, cynnwys dau bwynt data, y canolrif (pwynt canol) a'r 90^{fed} canradd er mwyn cyflwyno darlun realistig o'r amseroedd aros.

Bydd ail gam yr adnodd hwn yn dilyn ym mis Ebrill 2023 a bydd yn cynnwys gwybodaeth a fideos i gynorthwyo pobl i gadw'n iach wrth aros.

3. A yw Llywodraeth Cymru'n monitro/cyhoeddi data ar lwybrau cleifion newydd sy'n aros am apwyntiad claf allanol cyntaf fesul mis yn erbyn llwybrau cleifion sy'n cael eu hapwyntiad claf allanol cyntaf fesul mis (hynny yw, llwybrau caeedig), gan fod clirio'r ôl-groniad yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau hyn? Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y cyd â GIG Cymru o faint y bydd yn rhaid cynyddu capasiti i glirio'r ôl-groniad?

Ymateb

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am lwybrau Agored a Chaeedig trwy wefan StatsCymru ac mae ar gael yn [Atgyfeiriad am driniaeth \(llyw.cymru\)](#). Mae'r wybodaeth am lwybrau caeedig yn cynnwys pob rheswm am dynnu unigolyn oddi ar y rhestr (h.y. presenoldeb mewn apwyntiad, nid oes angen triniaeth arno bellach, heb fynychu ac ati) ac mae'n ymwneud â chleifion yn ystod pob cam o'u gofal. Nid oes modd dadgyfuno'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Mae gweithgaredd presenoldeb Cleifion Allanol newydd yn rhoi gwybodaeth am nifer y llwybrau sydd wedi'u cau bob mis.

Mae gwybodaeth reoli (data heb ei gyhoeddi) a geir gan fyrddau iechyd bob wythnos yn cael ei defnyddio gan y tîm arloesi ac adfer gofal a gynlluniwyd i ddarparu dadansoddiad manylach er mwyn deall heriau galw a chapasiti byrddau iechyd. Mae'n cael ei defnyddio i ddarparu trywydd gwella mewnol fel bod pob bwrdd iechyd yn gallu mynd i'r afael â'i ddarpariaeth i fodloni'r mesurau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, er mwyn clirio'r ôl-groniad.

4. A allwch rannu'r canllawiau sy'n llywio pa ddata sy'n cael eu cofnodi ar gyfer pob swyddogaeth driniaeth a adroddir ar StatsCymru, a chadarnhau a yw hyn yn gyson ar draws yr holl fyrddau iechyd; hynny yw, beth sydd wedi'i gynnwys o dan bennawd llawdriniaeth gyffredinol, gwasanaethau diagnostig ac ati? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cysondeb yn y modd y caiff y data hyn eu cofnodi gan wahanol fyrddau iechyd?

Ymateb

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn gyfrifol am sicrhau a datblygu holl safonau data GIG Cymru sy'n sicrhau bod y data sy'n cael ei gyflwyno yn genedlaethol yn gyson. Mae DHCW yn cynnal [Geiriadur Data GIG Cymru](#) sy'n ganllaw ar ddiffiniadau, casglu a dehongli safonau data y cytunir arnynt yn genedlaethol a fabwysiadwyd gan y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae'n gyfrifol am gyhoeddi [Hysbysiadau Newid Safonau Data \(DSCN\)](#) sef y gorchmynion i'r GIG a sefydliadau partner a chyflenwyr systemau i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi safon data newydd neu rai sydd wedi newid.

Mae data a gyflwynir gan fyrddau iechyd i DHCW bob mis yn destun gwiriadau cysondeb a dilysu cyn cael ei anfon at gydweithwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansodol, Llywodraeth Cymru cyn cael ei gyhoeddi.

Ar hyn o bryd mae DHCW, Llywodraeth Cymru a chydweithwyr o'r byrddau iechyd yn adolygu codau swyddogaeth triniaethau penodol er mwyn canfod a oes modd darparu data ar lefel fwy gronynnog.

5. A allwch egluro sut mae'r data hyn yn cael eu hadrodd ar gyfer GIG Cymru? Er enghraifft, a allwch roi esboniad o'r data ar nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am driniaeth ar bob cam ar hyd y llwybr ac yn ôl yr hyn sy'n cael ei fesur; hynny yw, beth sydd wedi'i gynnwys o dan y penawdau a ganlyn: y bobl sy'n aros am ymyriadau diagnostig neu therapiwtig; y bobl sy'n aros am brawf, ymyriad neu ganlyniad diagnostig neu brawf, ymyriad neu ganlyniad gan weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd; a'r bobl sy'n aros am apwyntiad claf allanol dilynol neu benderfyniad yn y maes hwn?

Ymateb

Mae amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth [Atgyfeiriad am Driniaeth \(llyw.cymru\)](#) yng Nghymru yn cynnwys llwybr pedwar cam. Defnyddir cam y llwybr i nodi amser aros claf ar hyn o bryd ar gyfer diagnosis a thriniaeth gyffredinol.

- **Cam llwybr 1** - Aros am apwyntiad claf allanol newydd.
- **Cam llwybr 2** – Aros am brawf, ymyriad neu ganlyniad diagnostig neu brawf, ymyriad neu ganlyniad gan weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd.

- **Cam llwybr 3** - Aros am apwyntiad claf allanol dilynol neu aros am benderfyniad yn dilyn:
 - Apwyntiad claf allanol.
 - Canlyniad ymyriad diagnostig neu ymyriad gan weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd.
 - Neu lle mae'r claf yn aros, a bod y cam yn ansicr/anhysbys.
- **Cam llwybr 4** - Aros am ymyriad diagnostig neu therapiwtig (h.y. triniaeth) yn unig.

Yn y rhan fwyaf o lwybrau cleifion mae cleifion yn symud o un cam i'r nesaf mewn trefn, ond nid yw hyn yn wir bob amser. Er enghraifft, gall meddyg teulu atgyfeirio claf yn uniongyrchol am driniaeth ddiagnostig, felly bydd y claf yn dechrau ei lwybr yng ngham 2. Gall newidiadau mewn ymarfer clinigol arwain at fwy o amrywiaeth dros amser. Felly, ni fwriedir i'r camau fod mewn trefn gronolegol yn unig, gan fod cleifion yn gallu dechrau eu llwybr yn unrhyw un o'r camau a restrir uchod.

Mae data [Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi](#) ar wahân yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi er mwyn adrodd am amseroedd aros sydd y tu allan i lwybr Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth. Gallant fod yn apwyntiadau gofal sylfaenol uniongyrchol neu'n rhan o ofyniad dilynol; mae gan bob un eu targedau ar wahân - 8 wythnos ar gyfer diagnosteg a 14 wythnos ar gyfer therapi gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd.

6. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gyfeirio at uwchgynadleddau diweddar ac arfaethedig, gan gynnwys un uwchgynhadledd a oedd yn canolbwyntio ar faterion orthopaedeg ac un arall a oedd yn canolbwyntio ar ganser. A allwch roi rhagor o wybodaeth am pryd y cynhaliwyd yr uwchgynadleddau hyn, pwy oedd yn bresennol, yr hyn a drafodwyd a'r deilliannau? Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech nodi a oes cofnod cyhoeddus o'r cyfarfodydd hyn ar gael.

Ymateb

Mae pedair uwchgynhadledd Weinidogol wedi'u cynnal. Yr uwchgynhadledd gyntaf oedd orthopaedeg ym mis Awst, ac yna cancer ym mis Hydref, a gofal brys ac argyfwng ac offthalmoleg ym mis Tachwedd. Cynhelir uwchgynhadledd y glust, y trwyn a'r gwddf ym mis Rhagfyr.

Mynychwyd yr uwchgynadleddau hyn gan Brif Weithredwyr, Prif Swyddogion Gweithredu, Cyfarwyddwyr Cynllunio, Arweinwyr Clinigol a Rheolwyr Is-adrannol Arbenigol.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol yn dilyn yr uwchgynhadledd a oedd yn canolbwyntio ar ganser:

Mae'r ymrwymadau canlynol wedi'u cytuno a bydd cynnydd mewn perthynas â nhw yn cael ei fonitro'n ofalus:

- Bydd byrddau iechyd yn lleihau nifer y bobl sy'n aros dros 62 diwrnod i'w triniaeth gychwyn yn unol â'r trywydd y cytunwyd arno.
- Bydd byrddau iechyd yn cynllunio i gyflawni perfformiad o 70% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Lle bo modd, bydd byrddau iechyd yn cyflwyno llwybrau syth at brofion ac yn sefydlu clinigau diagnostig un stop. Bydd hyn yn lleihau'r angen am glinigau cleifion allanol ac yn lleihau'r amser yn y llwybrau diagnostig.
- Cyflwyno'r llwybrau delfrydol cenedlaethol – bydd hyn yn helpu i symleiddio llwybrau gan ganolbwyntio'n benodol ar ben blaen y llwybr.

- Bydd byrddau iechyd yn cynllunio eu gweithlu cancer i ateb y galw a ragwelir, yn benodol oncoleg glinigol a meddygol, nyrsys cancer arbenigol, ffiseg feddygol a radiograffwyr therapiwtig.
- Bydd byrddau iechyd yn parhau i ddatblygu eu deallusrwydd busnes er mwyn gwella eu gafael a'u rheolaeth dros wasanaethau.
- Bydd byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau cyfathrebu a chymorth da ar gyfer eu holl gleifion, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n aros dros 62 diwrnod. Cytunodd Cynghrair Cancer Cymru i gefnogi byrddau iechyd gyda hyn.
- Bydd Rhwydwaith Cancer Cymru a'r tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd yn rhannu enghreifftiau o ymarfer da ym mhob bwrdd iechyd ac yn hwyluso'r dysgu.
- Bydd byrddau iechyd yn cydweithio ar sail ranbarthol a chenedlaethol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r prinder gweithwyr a'r bylchau mewn capasiti yn lleol.
- Bydd y tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd yn arwain ar ddatblygu atebion rhanbarthol a chydlynu mentrau cenedlaethol.
- Bydd Rhwydwaith Cancer Cymru'n llunio cynllun gweithredu gwasanaethau cancer.

Yn dilyn yr uwchgynhadledd orthopaedig ym mis Awst, mae'r canlynol wedi digwydd:

- Mae byrddau iechyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn rhoi cynigion GIRFT (Getting it Right First Time) a'r llwybrau cenedlaethol ar waith. Mae'r Tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd yn sicrhau bod y byrddau iechyd yn rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith.
- Ysgrifennodd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol at y byrddau iechyd er mwyn amlinellu'r sefyllfa o safbwynt cleifion sy'n aros yn hir, gan nodi y dylai'r rhai sy'n aros dros 104 wythnos gael eu rhoi yn yr un categori â chleifion brys wrth drefnu apwyntiadau.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y llwybrau agored sy'n aros dros 104 wythnos, ac roedd cyfanswm o 16,554 ar ddiwedd mis Medi, sef y nifer isaf ers mis Rhagfyr 2021. Rydym yn disgwyl gweld rhagor o gynnydd wrth i fyrddau iechyd barhau i weithredu a chynyddu cyfraddau trin pawb yn ei dro, gyda'r cleifion a fu'n aros hiraf yn cael apwyntiad.
- Ar gyfer orthopaedeg, mae'r data rheoli diweddaraf yn dangos bod cyfradd trin pawb yn ei dro ar lefel Cymru gyfan yn 44% ar gyfer cleifion allanol a 33% ar gyfer triniaeth - o'i gymharu â 26% ar gyfer arbenigeddau eraill. Gwelliant ers yr uwchgynhadledd.
- Er nad yw lefelau gweithgarwch wedi cyrraedd y lefelau rwy'n dymuno eu gweld, maen nhw wedi codi trwy gydol y flwyddyn o 52% ym mis Ebrill i 69% ym mis Medi. Mae lefelau gweithgarwch achosion dydd wedi codi o 51% i 72% tra bod lefelau gweithgarwch cleifion mewnol wedi codi o 52% i 66%.

Mae ymdrech sylweddol yn cael ei gwneud i gynyddu a chynnal capasiti dewisol orthopaedig dros fisoedd y gaeaf, gan gynnwys y canlynol:

- Cyflwyno capasiti ychwanegol yn Ysbyty'r Tywysog Philip trwy osod dwy theatr ddydd newydd a ddylai ddarparu hyd at 4,600 o driniaethau ychwanegol bob blwyddyn. Mae disgwyl i'r theatrau newydd ddechrau gweithio ddechrau mis Rhagfyr.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ad-drefnu gwasanaethau orthopaedig yn y bwrdd iechyd, ac o ganlyniad bydd y rhan fwyaf o wasanaethau orthopaedeg rheolaidd yn cael eu darparu yn Ysbyty Castell-

nedd Port Talbot, gan adael y gwaith mwy cymhleth i Ysbyty Treforys. Fel rhan o'r cynllun i gynyddu gweithgarwch orthopaedig, cyflwynwyd adnodd ffisiotherapi ychwanegol yng nghlinigau Castell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd. Agorwyd ward orthopaedig ddewisol 10 gwely dynodedig (ward Clydach) ar safle Treforys yn ystod mis Tachwedd i ddarparu capasiti ar gyfer achosion orthopaedig cymhleth.

- Mae Cwm Taf Morgannwg yn canoli gwaith orthopaedig cleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan ddefnyddio safle Ysbyty'r Tywysog Siarl ar gyfer mwy o weithgarwch achosion dydd.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal Canolfan Orthopaedig Caerdydd a'r Fro (CAVOC), sy'n cynnig gweithgarwch gwarchoddedig.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn edrych ar sut i wneud y defnydd gorau o safleoedd yr ysbyty, gan ddarparu gwasanaethau yn Ysbyty Ystrad Fawr, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Gwynllyw. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar lefel ranbarthol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Yn y Gogledd, mae'r bwrdd iechyd yn datblygu cynigion i ymgymryd â gweithgarwch orthopaedig ychwanegol ar un o'i safleoedd ac yn parhau i weithio ar gynllunio'r hybiau diagnostig a thriniaeth ar gyfer y rhanbarth.

Atodir yr adroddiad terfynol yn dilyn yr uwchgynhadledd ganser, sydd wedi cael ei ddsodbarthu'n eang drwy Rwydwaith Canser Cymru.



Cancer Summit
report 12 October 20

7. Mae gan randdeiliaid bryderon o hyd am y trefniadau craffu ac atebolrwydd mewn perthynas â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Pa gamau sydd ar y gweill i gryfhau'r trefniadau hyn a sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni eu hamcanion?

Ymateb

Nid yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol ynddynt eu hunain. Cafodd cynigion fel rhan o'r Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth i greu statws cyfreithiol corfforaethol ar gyfer y Byrddau eu gwrthod yn bendant gan bartneriaid statudol, er bod rhanddeiliaid allweddol eraill fel darparwyr a'r trydydd sector o blaid y cynigion. Yn unol ag ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd gweinidogion na fyddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael statws cyfreithiol corfforaethol ar hyn o bryd, ond byddai'r trefniadau presennol yn cael eu cryfhau a'u hegluro.

Trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu a Chraffu o dan y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, roedd gwaith wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol amrywiol i adolygu a gwneud argymhellion i gryfhau trefniadau craffu ac atebolrwydd yn ymwneud â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd y gwelliannau sy'n cael eu hargymell yn arwain at gyflwyno newidiadau i'r canllawiau Statudol Rhan 9 sy'n egluro disgwyliadau a chyfrifoldebau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriedir ymgynghori ar y canllawiau Rhan 9 diwygiedig ym mis Ebrill 2023.

Mae'r meysydd yr argymhellir eu cryfhau yn perthyn i 3 phrif gategori.

1 – Eglurhad o'r ddyletswydd i gydweithredu a chyrrff atebol

Gan nad yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn endidau cyfreithiol ynddynt eu hunain nid oes modd gosod dyletswyddau cyfreithiol arnynt ac felly ni ellir eu dwyn i gyfrif yn gyfreithiol. Felly, mae'r ddyletswydd i gydweithredu'n perthyn yn bendant i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae gwaith wedi'i gwblhau i sicrhau bod y canllawiau Rhan 9 diwygiedig yn mynegi'n gliriach pwy sydd â dyletswydd i gydweithredu, a rôl a swyddogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i arfer eu dyletswydd gyfreithiol i gydweithredu. O ystyried y ddyletswydd gyfreithiol i gydweithredu ac aelodaeth benodol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, dylid eu hystyried fel estyniad i'r cyrrff statudol hyn yn hytrach na sefydliad annibynnol ar wahân.

2 – Trefniadau Craffu effeithiol

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi archwilio prosesau craffu effeithiol o sawl agwedd wahanol;

- **Trefniadau craffu Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas ag arfer eu dyletswydd eu hunain i gydweithredu** – *Bydd canllawiau newydd yn cynnwys disgwyliad bod partneriaid statudol yn sicrhau bod eu prosesau craffu mewnol eu hunain yn ystyried i ba raddau maen nhw'n cyflawni eu dyletswydd eu hunain i gydweithredu*
- **Craffu ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel ffordd effeithiol o gefnogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i arfer eu dyletswydd i gydweithredu** – *Bydd canllawiau newydd yn cynnwys y gwahoddiad i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried datblygu trefniadau craffu rhanbarthol gyda chyfrifoldebau dirprwyedig er mwyn darparu proses graffu symlach ar gyfer gwaith rhanbarthol.*
- **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn craffu ar effeithiolrwydd eu trefniadau cynllunio a chyflawni eu hunain** – *bydd canllawiau newydd yn cynnwys y gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgymryd â gweithgarwch hunanasesu a gwella rheolaidd. Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar gyfraniad posibl AGC ac AGIC at driongli tystiolaeth i gefnogi prosesau hunanasesu*

3 – Cydbwysu atebolrwydd ledled Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol

Er bod y ddyletswydd i gydweithredu'n cael ei gosod ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn yr un modd, mae'n ymddangos bod yna anghydbwysedd gan fod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei enwi fel y Swyddog Gweithredol atebol mewn Awdurdodau Lleol, ond nid oes unrhyw unigolyn cyfatebol mewn Byrddau Iechyd Lleol ar hyn o bryd. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu trefniadau llywodraethu a deddfwriaethol presennol er mwyn gosod gofyniad ar Fyrddau Iechyd Lleol i nodi Cyfarwyddwr Gweithredol penodol i fod yn swyddog atebol ar ran y Bwrdd ar gyfer cyflawni yn erbyn ei ddyletswydd i gydweithredu.

Mae'r trefniadau atebolrwydd presennol ar lefel Llywodraeth Cymru'n cynnwys;

- cyfarfodydd chwarterol rhwng Gweinidogion a Chadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- adroddiadau chwarterol ar wariant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol
- cyfarfodydd Rheolwr Cysylltiadau rheolaidd rhwng arweinwyr/timau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Swyddogion Llywodraeth Cymru
- cyflwyno adroddiadau blynyddol i Weinidogion ar gynnydd yn fwy cyffredinol tuag at gyflawni eu Cynlluniau Ardal.

8. Yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, rydych yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r proses recriwtio a gyfer penodiadau cyhoeddus.

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o ran a yw'r camau hyn wedi arwain at y canlyniadau a ddymunwyd; er enghraifft, cynnydd yn nifer y ceisiadau a mwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Ymateb

Cwblhawyd menter beilot a oedd yn cynnwys y rhaglenni hyfforddi a datblygu ddiwedd mis Hydref. Mae asesiad interim ar waith o'r broses o gyflwyno'r camau a'u heffaith yn y pen draw. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn bwriadu cyflwyno'r rhaglenni eto yn 2023-24 gan fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf. Bydd effeithiolrwydd ymyriadau'n cael ei werthuso'n llawn a rhoddir ystyriaeth i gymorth ac ymwybyddiaeth yn y dyfodol. Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb polisi am benodiadau cyhoeddus cyffredinol yng Nghymru, a byddaf yn codi'r mater o sut i rannu canfyddiadau'r mentrau hyn a mentrau yn y dyfodol â'r Pwyllgor maes o law.

Yn 2021–2022, penodwyd menywod i 55.3% o swyddi iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u rheoleiddio (ac eithrio ailbenodiadau) o'i gymharu â 56.4% ar gyfer pob swydd a reoleiddir (iechyd, gofal cymdeithasol a chyrff cyhoeddus), penodwyd pobl anabl i 21.1% o'r swyddi hyn o'i gymharu ag 16.4% ar gyfer pob penodiad, a phenodwyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i 10.5% o swyddi iechyd a gofal cymdeithasol o'i gymharu â 10.9% ar gyfer pob penodiad.

9. Beth yw'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Penodiadau Cyhoeddus GIG Cymru, a pha gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi unrhyw argymhellion a wneir ar waith?

Ymateb

Er fy mod yn parhau i aros am adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Penodiadau Cyhoeddus GIG Cymru, mae'r grŵp wedi dod i'r casgliad ei bod yn bwysicach nag erioed, wrth i'r GIG adfer ar ôl COVID 19, sicrhau bod rolau'n ymddangos yn ddeniadol i'r rhai a allai fod yn ystyried penodiad cyhoeddus. Mewn ymateb, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi datblygu proffiliau rôl enghreifftiol ar gyfer Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau Annibynnol o sefydliadau'r GIG yng Nghymru er mwyn egluro'r disgwyliadau ar gyfer y deiliaid swydd hyn a sicrhau bod y sgiliau a'r profiad gofynnol ganddynt i ymgymryd â'u rôl. Hefyd, mae'r Grŵp wedi datblygu pecynnau ymgeiswyr enghreifftiol sy'n cyflwyno'r rôl bwysig y bydd ymgeiswyr yn ei chyflawni, cyflwyniad i'r sefydliad GIG y maent yn gwneud cais iddo, a'r ffaith ein bod yn chwilio am geisiadau gan bobl a fydd yn dod â'u profiad byw i Fyrddau'r GIG. Mae sefydliadau'r GIG yn defnyddio'r pecynnau'n barod, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi mewn fformat llawer mwy deniadol, yn y gobaith y bydd hyn yn cynyddu'r diddordeb yn y rolau hefyd.

Roedd un o'r rhesymau dros sefydlu'r Grŵp yn ymwneud ag adroddiadau am y gofynion uchel ar amser Aelodau Annibynnol yn y GIG o'i gymharu â sectorau eraill. Nid yw hon yn broblem newydd, ac mae adroddiadau anecdotaidd yn awgrymu y gallai fod yn effeithio ar y gallu i ddenu pobl i rai o'r rolau sy'n anoddach i'w llenwi. Y bwriad yw canfod atebion cynaliadwy, gan weithio gyda sefydliadau'r GIG i liniaru yn erbyn hyn yn y dyfodol, ac edrychaf ymlaen at dderbyn cyngor y Grŵp a'r Swyddogion dros yr wythnosau nesaf.

10. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am arfer da o ran apwyntiadau dilynol i bobl sydd wedi cael apwyntiadau cataract – er enghraifft, i atal meinwe craith rhag ffurfio. A yw'r arfer da hwn yn cael ei ddilyn yn gyson ledled Cymru?

Ymateb

Yng Nghymru, mae pob apwyntiad dilynol arferol i bobl sydd wedi cael llawdriniaeth cataract yn cael ei gynnal ar safle gofal sylfaenol a chymunedol gan optometryddion achrededig Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW). Mae hyn yn sicrhau bod llawer mwy o'r apwyntiadau hyn ar gael, a'u bod yn fwy hygyrch. Ym mis Awst 2022, roedd 770 o ymarferwyr achrededig EHEW yn cynnig EHEW mewn 312 o bractisau ym mhob ardal glwstwr ledled Cymru.

Yn dilyn llawdriniaeth cataract, mae cleifion yn cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig clir gan Wasanaeth Llygaid yr Ysbyty (HES) ynglŷn â dyddiad eu hymweliad â'r optometrydd er mwyn parhau â'u gofal a chael asesiad ôl-driniaethol, a chael sbectol os oes angen. I'r rhan fwyaf o gleifion, bydd hyn yn digwydd bedair i chwe wythnos ar ôl y llawdriniaeth.

Bydd cleifion yn cael eu gweld mewn practis optometrig ar gyfer prawf golwg (naill ai Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS) neu brawf golwg preifat gan ddibynnu ar gymhwysedd), cyn cael asesiad manwl o segment blaen y llygad er mwyn asesu safle clwyf y llawdriniaeth cataract, siambr flaen a lens mewn-ocwlar (gwneir hyn trwy asesiad band 3 EHEW).

Os yw symptomau neu arwyddion ôl-driniaethol annisgwyl yn cael eu canfod yn ystod yr archwiliad llygaid sy'n gofyn am archwiliad pellach, neu os nodir y gellir bod angen atgyfeirio'r claf yn ôl at HES offthalmoleg, bydd archwiliadau pellach yn cael eu cynnal yn y practis optometreg (drwy asesiad band 2 EHEW) naill ai i atal yr atgyfeiriad yn ôl at wasanaeth llygaid yr ysbyty neu i roi mwy o wybodaeth ar gyfer yr atgyfeiriad.

Ym mhob achos, waeth a yw asesiad ôl-driniaethol Band 2 neu Fand 3 yn cael ei gynnal, caiff adroddiad ei ddychwelyd gan yr optometrydd archwiliol at yr uned offthalmoleg lle cynhaliwyd y llawdriniaeth ac at feddyg teulu'r claf er mwyn eu hysbysu am ganlyniadau'r archwiliad.

Mae'r broses hon a'r archwiliadau clinigol gofynnol wedi'u hamlinellu yn glir yn y llawlyfr clinigol EHEW optometreg, ac o ganlyniad, maent yn cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob bwrdd iechyd. Bydd hyn yn parhau i ddigwydd ar ôl cyflwyno telerau gwasanaeth newydd ar gyfer optometreg (haf 2023), pan fydd achrediad EHEW yn dod yn safon ofynnol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol yng Nghymru. Mae'r holl wasanaethau EHEW presennol wedi'u cynnwys yn y contract newydd – gan gynnwys apwyntiadau dilynol cataract ôl-driniaethol.

11. Yn dilyn ein gohebiaeth ym mis Gorffennaf a mis Medi, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith sydd wedi'i wneud dros yr haf i fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu iechyd menywod a merched, a phryd ydych yn rhagweld y caiff y cynllun hwn ei gyhoeddi?

Ymateb

Cafwyd bron i 4,000 o ymatebion unigol gan fenywod a merched rhwng 16 ac 85 oed ac uwch i arolwg i iechyd menywod, a lanswyd gan Judith Paget, Prif Weithredwr y GIG, ar 5 Awst. Mae eu hymatebion wedi darparu gwybodaeth hynod bwysig am y problemau a'r pryderon sy'n effeithio ar fenywod a'u hiechyd yng Nghymru a fydd yn galluogi'r GIG i nodi'r themâu a'r problemau allweddol y mae'n rhaid i'r gwasanaeth eu targedu wrth ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod.

Mae Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi llunio **Adroddiad Darganfod: Sylfeini ar gyfer Cynllun Iechyd Menywod**. Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf y gwaith o ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod a Merched 10 mlynedd i Gymru, ac

mae'n cyflwyno cyflwr y genedl ar gyfer iechyd menywod yng Nghymru, gan gyfuno adolygiad tystiolaeth o iechyd menywod â lleisiau menywod a merched yng Nghymru. Mae'r Adroddiad yn darparu fframwaith ar gyfer y camau nesaf ac yn cynnwys camau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer gwelliannau. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad gan GIG Cymru ym mis Rhagfyr.

12. Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod lefelau staffio ysbytai yn ddiogel?

Ymateb

Mae Strategaeth y Gweithlu a gyhoeddir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn egluro ein gweledigaeth a'n gweithredoedd hirdymor ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, rydym yn datblygu cynllun mwy tymor byr i helpu i ymdrin â'r pwysau presennol ar ein gweithlu. Eleni rydym yn buddsoddi mwy nag erioed o'r blaen mewn hyfforddiant ac addysg broffesiynol, sef £262m, gan gynnwys mwy o leoedd hyfforddi nag erioed o'r blaen. Hefyd, rydym yn recriwtio nyrsys rhyngwladol i gau'r bwlch swyddi gwag yn y tymor byr a'r tymor canolig.

13. Beth sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau gofal interim a chryfhau gwasanaethau cymunedol?

Ymateb

Mae'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol yn ysgogiad allweddol ar gyfer sbarduno newid a thrawsnewid ledled y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth wneud hyn bydd yn gymorth uniongyrchol i gyflwyno sawl darn allweddol o bolisi a deddfwriaeth. Mae'r Gronfa'n golygu y gellir darparu modelau gofal integredig cenedlaethol newydd mewn chwe maes blaenoriaeth gan gynnwys gwasanaethau i helpu pobl i aros yn iach gartref, osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty a chynorthwyo i ryddhau pobl yn gyflym a diogel o'r ysbyty. Defnyddir yr adnodd i ariannu swyddi staff yn bennaf yn y meysydd hynny, neu gontractau/grantiau i ddarparwyr trydydd sector er mwyn darparu ymateb cymunedol.

Y chwe model cenedlaethol o ofal integredig yw:

- Gofal yn y gymuned – dulliau ataliol a chydgyssylltu cymunedol
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adres
- Hyrwyddo iechyd emosiynol a llesiant da (Nyth)
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion llety

Y grwpiau poblogaeth sy'n cael eu targedu gan y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol yw:

- Pobl hŷn yn cynnwys pobl â dementia
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Gofalwyr a gofalwyr ifanc
- Pobl ag anabledau dysgu a chyflyrau niwroamrywiol a niwroddatblygiadol
- Pobl ag anghenion iechyd emosiynol a lles meddyliol

Yn y flwyddyn gyntaf hon, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cyfres o gynlluniau cadarn sy'n creu sylfaen gref ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac yn ystyried sut y gallai gwella neu gyflymu'r gwasanaethau neu'r prosiectau hyn ddarparu capasiti a gwydnwch ychwanegol y gaeaf hwn.

Mae gofal sylfaenol yn gwneud cyfraniad pwysig yn y cyswllt hwn. Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru (PCMW) yn fodel trawsnewidiol ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned, ac mae'n ddull gweithredu seiliedig ar le ar gyfer gofal iechyd a llesiant lleol cynaliadwy a hygyrch. Nod y Model Gofal Sylfaenol i Gymru yw darparu gofal integredig i bobl ag anghenion gofal lluosog. Mae dulliau gweithio effeithiol yn golygu bod gan feddygon teulu ac uwch ymarferwyr fwy o amser i ofalu am bobl ag anghenion lluosog, sef pobl oedrannus â mwy nag un salwch yn aml, gartref neu yn y gymuned.

Mae timau adnoddau cymunedol a thimau iechyd a gofal lleol integredig eraill yn gallu darparu gofal di-dor i bobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae dull gweithredu system gyfan ac aml-broffesiynol yn gallu rheoli problemau lles, tai a chyflogaeth yn well. Hefyd, mae timau sydd wedi'u cydgysylltu mewn sefyllfa dda i ofalu am bobl sy'n ddifrifol wael y gellir eu trin gartref ac mewn canolfannau cymunedol. Hefyd, mae'r timau cymunedol hyn yn gallu hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n gyflymach. Mae'r model di-dor hwn yn cynnig dull gofal mwy rhagweithiol ac ataliol, a phan fydd pobl yn cael eu trin yn gynt, maent yn ymateb yn well i gyngor a chymorth ar gyfer hunanofal, sy'n arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell i bobl a gofalwyr.

Mae cyflwyno rhaglen y Model Gofal Sylfaenol i Gymru a'r rhaglen ACD yn ystod 2022-23 yn gam newydd yn natblygiad clystyrau ledled Cymru, gan gynnig y cyfle i gydweithwyr ym maes gofal sylfaenol ac yn y system ehangach adolygu cynnydd, rhannu ymarfer da a chynllunio datblygiad yn y dyfodol yng nghyd-destun fframwaith cyffredin cenedlaethol.

14. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans?

Ymateb

Mae cynllun gwella cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans ar waith ac mae'n cyflwyno amrywiaeth eang o gamau gweithredu. Mae'r cynllun yn ymgorffori camau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith gan WAST, camau ar y cyd rhwng WAST a Byrddau Iechyd, a chamau gweithredu gan Fyrddau Iechyd yn unig. Mae canlyniadau arfaethedig y cynllun yn canolbwyntio ar reoli galw cleifion am wasanaeth 999 yn y gymuned yn well, cynyddu capasiti'r gwasanaeth ambiwlans a lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty.

Dyma'r camau allweddol:

- **Rheoli cleifion 999 yn y gymuned:** mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol (£250,000) i gyflwyno meddalwedd brysbennu ac ymgynghoriadau fideo newydd. Mae tua 4,000 o gleifion y mis yn cael eu rhyddhau'n ddiogel dros y ffôn bellach heb yr angen am ymateb gan ambiwlans;
- **Recriwtio** – mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £3m ychwanegol i WAST ar gyfer 100 o glinigwyr ambiwlans ychwanegol, sy'n derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd ac a fydd yn barod i ymateb i gleifion o 23 Ionawr 2023 ymlaen. Mae hyn ar ben y 263 o staff rheng flaen a gafodd eu recriwtio dros y ddwy flynedd flaenorol.
- **Cynlluniau i wella trosglwyddiad cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty** – mae pob bwrdd iechyd a phob safle ysbyty aciwt wedi datblygu cynllun;
- **Arbedion effeithlonrwydd gweithlu'r gwasanaeth ambiwlans** er mwyn datgloi capasiti'r gwasanaeth ambiwlans – bydd amserlenni gwaith newydd ar gyfer staff sy'n alinio'r capasiti a galw'n well ar waith erbyn diwedd mis Tachwedd; gydag effeithlonrwydd cyfatebol o tua 72 o staff cyfwerth ag amser cyflawn; rhaglen rheoli presenoldeb er mwyn lleihau absenoldeb oherwydd salwch;

- Gwella argaeledd a hygyrchedd llwybrau amgen er mwyn lleihau'r galw uniongyrchol ar adrannau brys prysur a gwella'r broses o drosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty; a
- Chamau gweithredu byrddau iechyd i wella llif cleifion trwy systemau ysbytai.

Ar 28 Tachwedd, cynhaliodd y Gweinidog uwchgynhadledd genedlaethol a fynychwyd gan dros 40 o gynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru, ac ailadroddodd ei disgwyliadau bod yn rhaid i fyrddau iechyd gydweithio, a gweithio gyda Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a phartneriaid, er mwyn sicrhau bod cleifion yn eu cymunedau'n cael mynediad diogel ac amserol at asesiadau a thriniaeth a bod criwiau ambiwlans ar gael i ymateb pan fydd angen, trwy ddull system gyfan.

Rydym yn buddsoddi £25m bob blwyddyn i gefnogi darpariaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol yn erbyn y [Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng](#), ein strategaeth bum mlynedd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni i sbarduno trawsnewidiad system gyfan ar gyfer mynediad at ofal brys a gofal mewn argyfwng.

15. Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n rhwystro camau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru?

Ymateb

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn broses hirdymor ac y bydd angen cyfuniad effeithiol o newid strwythurol, systemau, prosesau, diwylliant ac ymddygiad i'w gwireddu.

Mae rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud yng Nghymru hyd yn hyn, gan gynnwys:

- sefydlu 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi arwain at welliant sylweddol wrth hyrwyddo a gwella cysylltiadau rhwng meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, tai a darparwyr – mae hyn wedi darparu sylfaen gadarn i gefnogi ymatebion cydgysylltiedig yn ystod yr ymateb i Covid 19 a chynllunio at y gaeaf
- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwneud cynnydd sylweddol hefyd wrth ddatblygu prosesau cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â dinasyddion a gofalwyr gan sicrhau eu bod yn ganolog i waith cynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau
- Mae buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (ICF, TF a'r RIF yn awr) wedi creu rhai gwasanaethau/modelau gofal integredig nodedig sydd bellach yn cael eu datblygu ledled Cymru h.y. cydgysylltiad cymunedol ataliol, Rhyddhau i Adfer yna Asesu, a Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig
- Gwaith cyd-gomisiynu strategol, cynllunio a llunio'r farchnad
- Cydgysylltu dull integredig o Gynllunio at y Gaeaf ac ymateb iddo
- Cydgysylltu a sicrhau ymatebion iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn lleddfu pwysau ar y system yn ystod Covid-19 ac alinio buddsoddiad RIF
- Datblygu cynllun buddsoddi cyfalaf strategol 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Ardal ym mis Ebrill 2023)
- Cydgysylltu buddsoddiadau cyfalaf o dan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso newydd gwerth £50m y flwyddyn, a'r Gronfa Tai â Gofal gwerth £60m y flwyddyn.
- Arwain gwaith i wireddu ymrwymiad y rhaglen lywodraethu mewn perthynas â datblygu 50 o hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

'Improving quality, efficiency, and population health have all been aims of integration, but are rooted in complex problems heavily constrained by broader government policies that influence the distribution of resources across health and social care, and ability for people to lead independent, healthy lives.' (Ymddiriedolaeth Nuffield 2021). Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen i ni sicrhau bod ein dull o greu system iechyd a gofal integredig yng Nghymru yn mynd i'r afael â phob un o'r agweddau canlynol:

- Yr angen i greu a chyfleu gweledigaeth a model arweinyddiaeth eglur a rennir ar gyfer system integredig
- Hwyluso'r trawsnewidiad strwythurol, deddfwriaethol a strategol angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i integreiddio a chreu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio ac integreiddio sefydliadol
- Cefnogi trawsnewidiad gweithredol gan sicrhau ein bod yn creu gweithlu integredig, a'r sgiliau, y diwylliant a'r amodau cywir i ddatblygu dulliau mwy cydweithredol ac integredig o ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol.

Er mwyn prif ffrydio dulliau gweithio integredig, bydd angen i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd fuddsoddi adnoddau craidd mewn gwasanaethau integredig ac ymestyn y tu hwnt i'r adnoddau a ddyrannwyd iddynt gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Hefyd, bydd angen iddynt ddod â'u gallu sefydliadol ehangach i gefnogi gwaith cynllunio a chyflawni integredig.

Hefyd, bydd angen modelau arweinyddiaeth newydd i greu'r gwerthoedd, y mathau o ymddygiad a'r diwylliant priodol i hwyluso gwaith integredig ar draws sectorau a sicrhau ei fod yn cael ei ymwreiddio'n llawn yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae angen gwneud rhagor o waith yn Llywodraeth Cymru i sicrhau cyd-destun polisi cydlynol a chyson a fydd yn sicrhau'r newid parhaus o feddygol i gymdeithasol, o aciwt i gymuned, o ymyrryd i atal ac o asiantaeth unigol i bartneriaeth. Rhaid sefydlu ethos integreiddio'n gadarn yn y cyd-destun polisi iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Ar hyn o bryd, mae yna raglenni gwaith amrywiol ar wahân ond cysylltiedig sy'n ategu ei gilydd o safbwynt cyfeiriad a bwriad ond sydd wedi creu tirwedd gymhleth ar gyfer partneriaid cyflenwi. Dylai datblygu Fframwaith canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol helpu i ddarparu cyfeiriad strategol ar y cyd i wella poblogaeth dinasyddion Cymru ar y cyd.

16. A ydych yn hyderus y bydd y camau rydych yn eu cymryd i ymgysylltu â'r boblogaeth ehangach i atal afiechyd, gan gynnwys cyflyrau cronig fel diabetes, yn effeithiol?

Ymateb

Rydym wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o gamau gweithredu i atal afiechyd ac rydym yn eu hail-werthuso'n gyson i sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys:

Gwella/hyrwyddo iechyd cyffredinol y cyhoedd

Mae gordewdra ac ysmegu yn sbarduno anghydraddoldebau oherwydd eu heffaith ar ddisgwyliad oes pobl a disgwyliad oes iach pobl, ac mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn ordew neu ysmegu na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. O ran gordewdra, rydym yn ymrwmo dros £13m o gyllid i'n Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2022-24 i fynd i'r afael â gordewdra; mae camau i leihau anghydraddoldebau deiet ac iechyd ar draws y boblogaeth wrth wraidd y cynllun. O ran ysmegu, yn gynharach eleni fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Rheoli Tybaca a'n cynllun cyflenwi dwy

flynedd cyntaf ar gyfer 2022-24. Er mwyn cydnabod yr anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o ysmegu, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn un o themâu sylfaenol y strategaeth. Rydym wedi ail-flaenoriaethu'r cyllid blynyddol gwerth £7.2m ar gyfer Atal a'r Blynyddoedd Cynnar o fis Ebrill 2022, a fydd yn cael ei ddefnyddio gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol i gefnogi ymyriadau ym meysydd polisi gordewdra a thybaco'n benodol yn unol â'n strategaethau Pwysau Iach: Cymru Iach a Thybaco. Mae'r Gronfa Iach ac Egniol gwerth £5.9m, sydd ar gael dros bedair blynedd (2019-2023), yn ariannu 16 o brosiectau sy'n ceisio gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol drwy alluogi ffyrdd iach ac egniol o fyw. Mae prosiectau a ariennir gan y gronfa'n ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau ar gyfer un neu fwy o'r grwpiau canlynol: plant a phobl ifanc; pobl ag anabledd neu salwch hirdymor; pobl sy'n economaidd anweithgar neu sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd; a phobl hŷn a'r rhai o gwmpas oedran ymddeol o'r gwaith.

Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

Buddsoddwyd £5m yn 2021-22 i ddwyn rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol ynghyd a oedd yn cefnogi newidiadau hanfodol. Er gwaethaf y cyllid hwn, rydym yn cydnabod bod lefelau gorbwysedd a gordewdra'n parhau i gynyddu yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, ond mae'r buddsoddiad hwn wedi rhoi hwb i gyflawni'r strategaeth yn 2022-24. Mae'r pandemig wedi cynyddu maint yr her ac rydym yn buddsoddi dros £13m yn 2022-24 i gefnogi dull systemau cyfan o fynd i'r afael â'r her gyda'n gilydd. Mae'r cynllun ar gyfer 2022-24 wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid ac mae'n rhan dau o bum rhan i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein strategaeth ddeng mlynedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i ddangos newid diriaethol a mesuradwy ar gyfer pobl Cymru. Mae Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'i Chynlluniau Cyflawni yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym wedi archwilio tystiolaeth ryngwladol o'r hyn sy'n gweithio er mwyn atal a gostwng cyfraddau gordewdra.

Rhaglen Atal Diabetes Cymru Cyfan

Mae Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan yn cael ei hariannu trwy'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach tan 2024. Mae'r Rhaglen yn datblygu dulliau a gafodd eu treialu mewn dau glwstwr gofal sylfaenol ar wahân, Cwm Afan a Gogledd Ceredigion, lle cynigiwyd ymyriad byr i boblogaeth benodol. Rydym wedi buddsoddi £1m yn flynyddol yn y Rhaglen hon. Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain y rhaglen, ac mae recriwtio ar lefel bwrdd iechyd lleol yn parhau er mwyn sefydlu timau atal diabetes. I ddechrau, bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno i 14 clwstwr gofal sylfaenol ledled Cymru (2 fesul ardal bwrdd iechyd; 92 o bractisau gwasanaethau meddygol cyffredinol), a rhagwelir y bydd clystyrau ychwanegol yn mabwysiadu'r model trwy ffrydiau cyllido amgen. Er mwyn cefnogi'r lansiad, cyhoeddwyd fideo yn amlinellu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, cwestiynau cyffredin a phrotocol y Rhaglen, sy'n amlinellu'r dull cyflenwi ar gyfer y rhaglen.

Prosiect Lleddfu Diabetes: Hyd yn oed pan fydd pobl yn cael diagnosis o gyn-ddiabetes Math 2, rydym yn awyddus i'w helpu i reoli eu pwysau a lleddfu'r clefyd os oes modd. Yn y lle cyntaf, bydd y Prosiect Lleddfu Diabetes ar gael i 150 o gleifion ledled Cymru er mwyn hwyluso prosesau colli pwysau a lleddfu diabetes a/neu atchweliad. Bydd yn galluogi deietegwyr ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd i ddarparu cymorth dwys i 150 o gleifion dros gyfnod o 12 mis a darparu cyllid llawn ar gyfer y cynnyrch disodli prydau.

17. A oes gwasanaethau a llwybrau priodol ar gael i gefnogi cleifion yng Nghymru sydd â chyflyrau cronig fel Enseffalomyelitis Myalgig a Syndrom Blinder Cronig?

Ymateb

Rydym yn cydnabod nad oes digon o wasanaethau a llwybrau ar gael i gefnogi cleifion yng Nghymru sydd â chyflyrau cronig fel Enseffalomyelitis Myalgig (ME) a Syndrom Blinder Cronig (ME/CFS). Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn ystyried opsiynau i fynd i'r afael â mynediad anghyson ac annheg at wasanaethau i bobl â ME/CFS, ffibromyalgia, a chyflyrau ôl-feirysol eraill sy'n gysylltiedig â symptomau lluosog a chymhleth yn aml.

Ar ôl dyrannu arian i helpu i ddatblygu gwasanaethau Adferiad ar gyfer COVID hir, gofynnwyd i Fyrddau Iechyd chwilio am gyfleoedd i ehangu'r model mynediad at wasanaethau a llwybrau Adferiad er mwyn cynnwys pobl â chyflyrau fel ME/CFS.

Mae swyddogion polisi'n gysylltiedig â gwaith llywodraeth y DU a gyhoeddodd ym mis Mai eleni y byddai'n datblygu cynllun cyflenwi traws-lywodraethol ar gyfer ME/CFS, i'w gyhoeddi ym mis Mai 2023. Bydd manylion a dysgu o'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio i gefnogi'r datblygiad polisi parhaus yng Nghymru.

18. Yn dilyn y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gennych ar 19 Hydref 2021, a allwch roi unrhyw wybodaeth ychwanegol am yr achos clinigol dros Ganolfan Ganser newydd yn Felindre?

Ymateb

Mae'r byrddau iechyd yn y De-ddwyrain yn parhau i weithio gyda Chanolfan Ganser Felindre trwy'r Grŵp Arweinyddiaeth Canser Cydweithredol i ddatblygu'r model clinigol ar gyfer oncoleg anfeddygol ledled y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys datblygu setiau data canser rhanbarthol i gefnogi gwaith cynllunio a blaenoriaethu effeithiol a chysoni strategaethau lleol.

Mae'r meini prawf ar gyfer pob derbyniad i Ganolfan Ganser Felindre, wedi'i drefnu a heb ei drefnu, wedi cael ei ddiwygio, ei weithredu, a'i archwilio. Mae llwybr ar gyfer cleifion aciwt sy'n dirywio wedi cael ei roi ar waith.

Mae'r model Gwasanaeth Oncoleg Aciwt Rhanbarthol (AOS) wedi'i gytuno yn dilyn proses ymgysylltu dan arweiniad clinigol ledled y rhanbarth. Cytunwyd ar yr achos busnes a ddeilliodd o hynny gan y pedwar sefydliad hefyd. Mae'r cyllid, y cynllun gweithredu a'r SRO ar waith ac mae apwyntiadau'n cael eu gwneud i sesiynau oncoleg AOS. Mae tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol newydd ar gyfer 'canser o darddiad anhysbys' – sef mathau o ganser nad oes modd canfod eu tarddiad – ar waith.

Mae angen gwneud rhagor o waith i gadarnhau gofynion allgymorth Felindre a datblygu'r achos busnes cam dau ar gyfer oncoleg aciwt.

Mae manyleb gwasanaeth ar gyfer Canolfan Ymchwil Canser Caerdydd deirochrog wedi'i chytuno mewn egwyddor gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Phrifysgol Caerdydd. Ategir hyn gan gytuno ar flaenoriaethau ymchwil ar y cyd a strategaeth fuddsoddi. Mae briff y prosiect a chylch gorchwyl bwrdd y prosiect wedi'u cymeradwyo hefyd.

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ystyried y ffurfweddiad gorau posibl ar gyfer gwasanaethau haemo-oncoleg, gan gynnwys y lleoliad ar gyfer darparu therapi gwrth-ganser systemig yn y dyfodol. Yn ehangach, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda byrddau iechyd eraill ynglŷn â newidiadau posib i wasanaethau.

19. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau hunaniaeth rhywedd a ddarperir yng Nghymru yn dilyn newidiadau yng Nghlinig Hunaniaeth Rhywedd Tavistock?

Ymateb

Rydym wedi ymrwymo i wella'r llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd a'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Hefyd, rydym wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau y bydd rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc eu hunain, yn rhan o'r broses pan fyddwn ni'n datblygu gwasanaeth i Gymru.

Mae dogfen bwriadau comisiynu blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cael ei rhannu â Byrddau Iechyd ac mae'n cynnwys cais am fynegi diddordeb i gynnal gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd i Gymru. Yn y cyfamser, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru'n parhau i weithio'n agos gyda thîm Adolygiad Cass gan ein bod yn comisiynu'r gwasanaeth trwy GIG Lloegr ar hyn o bryd. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae GIG Lloegr yn cynllunio proses ymgysylltu hefyd, a bydd cleifion o Gymru yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynllun hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd GIG Lloegr yn rhoi'r gorau i gontractio gyda gwasanaeth Tavistock a Portman, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithio'n agos gyda GIG Lloegr i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc Cymru fynediad at y canolfannau rhanbarthol tra bod y posibilrwydd o ddatblygu model clinigol i Gymru yn cael ei archwilio.

Y flaenoriaeth ar hyn o bryd yw rheoli'r risg glinigol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc ar y rhestr aros a'r rhai sydd eisoes dan ofal y gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd. Bydd cynrychiolaeth Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar Fwrdd Rhaglen GIG Lloegr yn sicrhau cyfraniad amserol rhanddeiliaid a phobl ifanc Cymru at ddatblygu gwasanaethau'r dyfodol trwy strategaeth ymgysylltu â chymorth ac arweiniad cenedlaethol.

**Health and Social Care
Committee**

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Julie,

Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn sganio'r gorwel gyda Phrif Arolygydd a Dirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i drafod y prif faterion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar ein **gwefan** ond roedd yna negeseuon clir ac amlwg iawn ynghylch pa mor fregus yw'r sector gofal cymdeithasol yr oedd y Pwyllgor am dynnu eich sylw atynt.

Galw cynyddol am wasanaethau

Dyweddodd y Prif Arolygydd wrthym y bu cynnydd digynsail yn y galw am ofal cymdeithasol:

"...what we are faced with at the moment is a recruitment and, as seriously, a retention crisis for social workers and for social care workers, which is leading to significant fragility for services, and particularly in homecare and domiciliary support."

Pan wnaethom gymryd tystiolaeth yn gynharach eleni ar gyfer ein hymchwiliad i ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai, dywedwyd wrthym fod y sefyllfa o ran gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau ers blynyddoedd lawer, a bod y pandemig wedi gwaethygu'r hyn a oedd eisoes yn sefyllfa heriol iawn. Ar 30 Tachwedd, disgrifiodd y Prif Arolygydd argyfwng recriwtio a chadw o ran gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol, sy'n arwain at fregusrwydd sylweddol i wasanaethau gofal, yn enwedig ym maes gofal cartref a chymorth cartref. Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym:

"...what we see is essentially a health and care system that is gridlocked. Many social care leaders are describing it in terms of crisis, and we don't use that word lightly."

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565



Y gweithlu

Fel y nododd y Prif Arolygydd, hwn fydd y trydydd gaeaf lle mae'r sector gofal cymdeithasol wedi bod dan bwysau sylweddol. Mae'r gweithlu'n flinedig iawn ac wedi'i ddisbyddu, ac mae'r staff presennol yn gweithio sifftiau hirach a mwy o oriau (oherwydd prinderau staff) - nid yw hynny'n gynaliadwy. Mae cryn bryder, felly, ynghylch gwytnwch y gweithlu.

Mae'r angen am gydraddoldeb rhwng gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cymheiriaid yn y GIG, o ran cyflog a telerau ac amodau, wedi bod yn broblem ers amser maith, ac mae pwyllgorau olynol yn y Senedd wedi bod yn galw amdano. Y gobaith oedd y byddai'r sylw a roddwyd i ofal cymdeithasol drwy'r pandemig yn helpu i godi proffil gofal cymdeithasol, a byddai'r angen i fynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wedi bod yn endemig ers blynyddoedd lawer yn cael ei ddatrys. Felly, roedd yn siomedig clywed gan y Prif Arolygydd ei bod yn ymddangos bod y proffil uwch wedi bod yn fyrhoedlog i ofal cymdeithasol.

Mae canfyddiad o hyd bod gwaith gofal cymdeithasol yn weithlu cyflog isel a sgiliau lefel isel. Os ydym am ddatblygu'r gweithlu, mae parch cydradd a chydraddoldeb o ran telerau ac amodau yn hanfodol er mwyn chwalu'r myth hwn a recriwtio a chadw niferoedd digonol o staff gofal cymdeithasol. Dywedodd AGC wrthym, os nad eir i'r afael â'r sefyllfa staffio fel mater o frys ar lefel genedlaethol, fe fydd awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol mewn perygl o beidio â chyflawni eu dyletswyddau statudol a rheoleiddiol.

Y pwysau ar ofalwyr di-dâl

Yn ystod ein hymchwiliad i ryddhau cleifion o'r ysbyty, clywsom bryderon am y pwysau sy'n cael ei roi ar deuluoedd a ofalwyr di-dâl i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth gofal.

Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym nid yn unig fod gormod o bobl yn aros am asesiad o'u hanghenion, ond hefyd yn rhy aml nid oes digon o gapasiti yn y system i ddiwallu'r anghenion hynny yn dilyn asesiad. Yn ogystal, nid yw cynlluniau gofal a chymorth pobl yn cael eu hadolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu pan fydd anghenion pobl yn newid ac efallai fod angen mwy o ofal arnynt, nid yw hyn yn cael ei ddarparu. Tynnodd sylw hefyd at y pwysau anghynladwy sy'n cael ei roi ar ofalwyr di-dâl i lenwi'r bylchau mewn gofal.

Rydym hefyd yn rhannu pryderon AGC fod pobl yn dal i gael eu rhyddhau o'r ysbyty i gartref gofal pan mai eu dewis yw dychwelyd adref ond nid yw hyn yn bosibl gan nad oes pecynnau gofal addas ar gael. Dywedodd y Prif Arolygydd mai hwn yw'r 'opsiwn lleiaf gwael'. Dywedodd AGC wrthym, lle nad oes dewis arall yn lle cael ei ryddhau o'r ysbyty i gartref gofal, ei bod yn bwysig bod pobl yn cael y gefnogaeth briodol er mwyn eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl tra'n byw yn y cartref gofal.

Mae hyn yn golygu y dylid darparu gwasanaethau ailalluogi 'o fewn cyrraedd' neu gefnogi staff gofal mewn cartrefi gofal i ddatblygu sgiliau ailalluogi ychwanegol.

Nid oes yr un o'r materion hyn yn newydd. Yn wir, gwnaethoch gydnabod llawer ohonynt yn eich ymateb i argymhellion ein hadroddiad ynghylch rhyddhau cleifion o ysbytai. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael sicrwydd eto bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r cyflymder a'r brys sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn, a sicrhau newid gwirioneddol yn y sector. Rydym yn nodi bod y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i fod i gyhoeddi diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd 2022. Rydym yn disgwyl â diddordeb am yr adroddiad hwn ac yn awyddus i weld camau pellach yn cael eu cymryd i wella tâl ac amodau gwaith y gweithlu gofal cymdeithasol a mynd i'r afael â'r prinderau er mwyn datgloi ein systemau iechyd a gofal.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon